


# YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2003/04

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

# Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
# 2003/04

Cyflwynwyd gerbron y Senedd o dan Adran 4 Deddf Safonau Bwyd 1999
Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 8fed Chwefror 2005

Llundain: Y Llyfrfa



ASIANTAETH SAFONAU BWYD

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2003/04

## CYNNWYS ADRODDIAD BLYNYDDOL


Rhagair y Prif Weithredwr 2

1 Ynglŷn â'r FSA 4

2 Adroddiad ar weithgareddau a pherfformiad yr FSA yn ystod y flwyddyn ariannol 2003/04 6

- Diogelwch bwyd 7
- Bwyta er iechyd 11
- Dewis 12

3 Gorfodi 14

4 Y pum mlynedd nesaf 17

Atodiad 1: Ynglŷn â ni 19

Atodiad 2: Sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith 21

Atodiad 3: Sut yr ydym wedi'n trefnu 24

Atodiad 4: Ein Bwrdd 26

Atodiad 5: Cwynion a dderbyniodd yr FSA yn ystod 2003/04 29

Atodiad 6: Gwaith gorfodi'r MHS 30

Atodiad 7: Rhestr termau 33

Cyfrifon adnoddau cyfunol yr FSA 2003/04 34

# Rhagair
## y Prif Weithredwr



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2003/04 yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) gerbron Senedd San Steffan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Gweithrediaeth yr Alban. Mae hyn yn cwmpasu'r bedwaredd flwyddyn o weithgarwch yr FSA.

Rôl yr FSA yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Wrth wneud hynny, rydym yn dilyn tair egwyddor arweiniol: rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf, bod yn agored ac yn hygyrch, a bod yn llais annibynnol. Rydym yn cysylltu â'n holl randdeiliaid yn rheolaidd er mwyn eu galluogi i gyfrannu at ddatblygu strategaethau a pholisïau'r FSA. Mae arolwg blynyddol yr FSA o agweddau defnyddwyr wedi dangos cynnydd mesuradwy o ran hyder ac ymddiriedaeth yn yr Asiantaeth unwaith eto.

Rydym wedi parhau i flaenoriaethu'r dasg o leihau clefydau a gludir gan fwyd. Mae ffigurau dros dro'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn 2003 wedi dangos eisoes ein bod wedi gwneud llawer i gyrraedd ein targed o leihau clefydau a gludir gan fwyd 20% erbyn 2006.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau na pheryglir iechyd y cyhoedd gan fygythiadau i ddiogelwch bwyd ac er mwyn sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd gwell wrth orfodi cyfraith bwyd. Mae rhaglen o seminarau a hyfforddiant diweddaru i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol wedi'i sefydlu a chyflwynwyd amrywiaeth o gyrsiau yn ystod 2003/04 yn cwmpasu meysydd megis pasteureiddio ar y fferm, glanhau pysgod cregyn a Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP). Sefydlwyd y Tasglu Cig Anghyfreithlon, sy'n cynnwys swyddogion awdurdodau lleol, i gynghori awdurdodau lleol o ran gweithrediadau cig anghyfreithlon.

Ar ôl asesu 773 o ddigwyddiadau posibl o ran diogelwch bwyd y llynedd, cyhoeddwyd 80 o rybuddion rhag perygl i awdurdodau lleol. Mae'r FSA hefyd wedi cymryd camau a chyhoeddi cyngor ar amrywiaeth o faterion o ran diogelwch bwyd gan gynnwys lled-carbasid, y defnydd anghyfreithlon o liwiau o'r Swdan, dognau uchel o fitaminau a mwynau, rheolaethau BSE, alergedd bwyd a diocsinau a PCBs mewn pysgod olewog.

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn un o Asiantaethau Gweithredol yr FSA ac mae'n gyfrifol am orfodi hylendid cig (gan gynnwys rheolaethau BSE) a deddfwriaeth lles anifeiliaid wrth eu lladd mewn lladd-dai, safleoedd torri a storfeydd oer trwyddedig. Mae'r MHS yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond os caiff cig ei gynhyrchu yn unol â'r ddeddfwriaeth ac o dan oruchwyliaeth Milfeddyg Swyddogol y caiff y cig y nod iechyd. Yn dilyn archwiliadau a gwiriadau rheoli mewnol gan yr MHS a nododd nifer o achosion o fethu â phrofi anifeiliaid sâl am BSE, cymerodd yr MHS gamau ar unwaith i nodi maint y broblem ac i leihau'r risg o beidio â phrofi anifeiliaid cymwys eraill. Yn ogystal, cychwynnodd Bwrdd yr FSA ymchwiliad annibynnol. Caiff yr argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwiliad hwn eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi gweithio gyda'n rhanddeiliaid i nodi meysydd y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn ein cynllun strategol newydd (2005-2010). Maent wedi dweud wrthym eu bod yn disgwyl i ni wneud cyfraniad mwy ym maes bwyta'n iach tra'n parhau â'r gwaith da a wneir o ran diogelwch bwyd. Mae'r gwaith canlynol wedi dangos ein cyfraniad cynyddol at fwyta'n iach:

- rydym wedi noddi'r gwaith o lansio 'bws coginio' drwy'r Ymddiriedolaeth Addysgol Dimensiwn Dylunio i hybu hylendid a bwyta'n iach ymhlith plant ysgol yn arbennig yn yr ardaloedd sydd o dan fwy o anfantais gymdeithasol.
- rydym wedi cydweithio ag Adrannau Iechyd i bwyso ar y diwydiant bwyd i leihau lefelau halen mewn bwydydd wedi'u prosesu. Ein nod ar y cyd yw lleihau faint o halen a gaiff ei fwyta draean er mwyn ei ostwng i lefel a argymhellir gan SACN er mwyn lleihau nifer yr achosion o bwysau gwaed uchel a chlefyd cardiofasgwlaidd.
- rydym wedi adolygu'r dystiolaeth yn ymwneud ag effaith ymgyrchoedd hyrwyddo bwyd ar arferion bwyta plant, rydym wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer y ddadl ac rydym wedi cyhoeddi argymhellion clir ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

Er mwyn gwneud gwahaniaeth, rydym bob amser yn ceisio gweithio mewn partneriaeth. Mae mwy na 200 o grwpiau, cwmnïau ac unigolion wedi cyfrannu at y dasg o ddatblygu ein cynllun strategol newydd (2005 – 2010). Byddwn yn parhau i gydweithio â hwy i ddatblygu'r syniadau a'r camau sydd eu hangen i'w roi ar waith. Yn ogystal, rwyf yn ymrwymedig i ddatblygu ymhellach y bartneriaeth dda â chydweithwyr yn yr Adran Iechyd er mwyn cyflawni'r nodau sy'n gyffredin i gynllun strategol yr FSA a'r Papur Gwyn "Choosing Health – Making Healthy Choices Easier".

Dr Jon Bell
Rhagfyr 2004

# 1 Ynglŷn â'r FSA

## Pwy ydym a beth a wnawn

1.1 Sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) ym mis Ebrill 2000 er mwyn 'diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.'

1.2 Mae'r FSA yn gorff i'r DU gyfan – sef adran anweinidogol o'r Llywodraeth – sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion ac wedi'i reoli gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er budd y cyhoedd. Mae'r annibyniaeth hon yn allweddol i'n llwyddiant i adfer hyder y cyhoedd. Ceir ein siart trefniadaeth lefel uchel bresennol yn Atodiad 3. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn ar ein gwefan yn www.food.gov.uk. Caiff y wefan ei diweddaru'n rheolaidd. Mae rhestr gyswllt fanwl fesul pwnc ar gael yn: www.food.gov.uk/aboutus/contactus

1.3 Mae gennym gylch gwaith eang, yn ymwneud â diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd gyfan – 'o'r fferm i'r fforc'. Ein tasg ni yw diogelu defnyddwyr rhag risgiau iechyd ac fel arall i ddiogelu eu buddiannau ym mhob mater sy'n gysylltiedig â bwyd. Mae'r FSA yn gorff i'r DU gyfan, ac mae ganddi swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal â phencadlys yn Llundain. Mae ein hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS), yn gweithredu ym Mhrydain Fawr ac yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ei hun.




1.4 Rydym yn ymrwymedig i dri gwerth craidd sy'n rheoli popeth a wnawn, sef:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
- bod yn agored ac yn hygyrch
- bod yn llais annibynnol

1.5 Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr FSA yn Atodiad 1 (Ynglŷn â ni), Atodiad 2 (Sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith), Atodiad 3 (Sut yr ydym wedi'n trefnu), Atodiad 4 (Ein Bwrdd), ac ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk**

# 2 Adroddiad ar weithgareddau a pherfformiad yr FSA yn ystod y flwyddyn ariannol 2003/04

2.1 Ein blaenoriaeth gyntaf yn ystod 2003/04 oedd **diogelwch bwyd** o hyd. Buom hefyd yn chwarae ein rhan i hybu **bwyta er iechyd**. Yn ogystal, mae **dewis** yn chwarae rhan hanfodol yn ein gwaith ar ddiogelwch a safonau, ac wrth helpu pobl i fwyta'n ddiogel ac yn iach. Mae gweddill y bennod hon yn nodi rhai o'n prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r tri nod allweddol hyn. Mae'r nodau hyn hefyd yn rhan o'n strategaeth pum mlynedd nesaf ar gyfer 2005-10 (gweler pennod 4).

2.2 Mae'r wybodaeth a gynhwysir yma yn ddewisol o anghenraid. Mae llawer o wybodaeth fanylach, a newyddion rheolaidd ar ein gwaith, ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk.** Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am gynnydd blynyddol yn erbyn ein targedau Cytundeb Darparu Gwasanaethau (SDA) a gyhoeddwyd. Cynhwysir y wybodaeth hon yn ein Hadroddiad Adrannol: mae adroddiadau ar gyfer 2004 a blynyddoedd cynharach ar gael ar ein gwefan. Ceir gwybodaeth am ein gwaith gydag ysgolion o ran diogelwch bwyd a materion eraill yn yr adran ar **fwyta er iechyd** yn y bennod hon.

Rydym yn parhau i asesu digwyddiadau o ran bwyd y mae awdurdodau lleol, y Comisiwn Ewropeaidd, y fasnach bwyd, a ffynonellau eraill, yn ein hysbysu ohonynt, er mwyn nodi'r angen i awdurdodau lleol gymryd camau i ddiogelu'r defnyddiwr. Yn ystod 2003/04, gan gynnwys digwyddiadau amgylcheddol a digwyddiadau ar ffermydd, bu i ni:

- ymchwilio i 773 o ddigwyddiadau a oedd â'r potensial i effeithio ar ddiogelwch bwyd
- cyhoeddi 80 o rybuddion rhag peryglon bwyd (gan gynnwys diweddariadau) i awdurdodau lleol
- cyhoeddi 202 o hysbysiadau System Rhybudd Cyflym ar gyfer Bwyd a Phorthiant (RASFF) gyda'r CE
- cytuno ar gyfyngiadau ar gyfer 38 o ddigwyddiadau ar ffermydd.



# GWEITHGAREDDAU A PHERFFORMIAD YN YSTOD 2003/04

## DIOGELWCH BWYD

**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am ein Strategaeth Clefydau a Gludir gan Fwyd**

2.3 Rydym yn parhau i fod ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targed o leihau clefydau a gludir gan fwyd 20% erbyn 2006. Dengys ffigurau dros dro ar gyfer y flwyddyn 2003 ostyngiad o ychydig dros 18% o gymharu â'r ffigur sylfaenol ar gyfer 2000.

2.4 Rydym wedi cydweithio'n agos â'r diwydiant i fodloni gofynion yr UE ar gyfer cyflwyno HACCP i ladd-dai. Dylai'r rhaglen hon, ynghyd â pholisi da byw glân, leihau nifer y carcasau defaid a moch a gaiff eu heintio. Roedd y cynnydd a wnaed yn cynnwys priodoli lefelau'r Cynllun Gweithredu Milheintiau (ZAP) i ffermydd moch yn ystod haf 2003, fel rhan o gynllun monitro salmonela'r ZAP mewn moch. Ymhlith y mentrau eraill roedd cyfres o ddiwrnodau gwybodaeth ar y fferm a datblygu cyhoeddiadau i hyrwyddo arfer gorau o ran hylendid wrth gynhyrchu cig ffres. Er mwyn targedu lefelau *Campylobacter* uchel mewn dofednod, cyhoeddwyd strategaeth i leihau'r achosion o *Campylobacter* yn haid y DU ym mis Mehefin 2003. Lansiwyd Cam 1 ymgyrch i wella bioddiogelwch ar ffermydd brwyliaid ym mis Ionawr 2004. Ceir rhagor o wybodaeth am ein strategaeth ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk** gan gynnwys y wybodaeth flynyddol ddiweddaraf ar gyfer Bwrdd yr FSA yn
**www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/info040903.pdf**

2.5 Mae nifer o fentrau i ysgolion wedi'u cynnal fel rhan o Ymgyrch Hylendid Bwyd amlgyfrwng pum mlynedd yr FSA. Hyrwyddwyd pecyn addysg sy'n cynnwys fideo (Bad Food Live!) a deunydd ategol i'r athro ar gyfer pobl ifanc 10-14 mlwydd oed sy'n amlygu negeseuon hylendid bwyd sylfaenol ac roedd ar gael i bob ysgol gynradd ac uwchradd ledled Cymru a Lloegr yn ystod hydref 2003.

2.6 Dyfarnwyd deg grant i awdurdodau lleol ddatblygu mentrau hybu hylendid lleol. Aeth dau o'r cynlluniau hynny ymlaen i fod yn gyd-enillwyr yng Ngwobrau Cenedlaethol Cyfleu Diogelwch Bwyd Foodlink a gynhaliwyd ym mis Hydref 2003. Cefnogodd yr FSA hefyd fenter ar y cyd Wythnos Ddiogelwch Foodlink yr FDF ym mis Mehefin 2003. Cyflwynodd yr FSA Bad Food Live!, ffug rhaglen deledu goginio boblogaidd, yn Good Food Show y BBC, yn Birmingham (Tachwedd 2003). Fel rhan o'n gwaith parhaus gydag arlwywyr, cyd-noddodd yr FSA Gystadleuaeth Genedlaethol Cogydd Cyrri'r CIEH-FSA yn 2003 hefyd.

Mae ein swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau i gefnogi mentrau bwyta'n fwy diogel:

- lansiodd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ac awdurdodau lleol Cymru Wobr Hylendid Bwyd Cymru ar y cyd, a sefydlwyd uned cydlynu twyll bwyd.
- lansiwyd y Cynllun Gwobrau Bwyta'n Ddiogel gan Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon ym mis Mehefin 2003: mae'n rhaid i fusnesau gyrraedd safonau uchel o ran hylendid bwyd i ennill gwobr.
- mae Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban yn cefnogi mentrau cenedlaethol i atgyfnerthu negeseuon allweddol o ran hylendid bwyd.

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Gweithredu Gweithdrefnau Rheoli Diogelwch Bwyd yn seiliedig ar Egwyddorion HACCP**

2.7 Mae cynnydd wrth weithredu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd mewn busnesau bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP yn un o'r ffactorau allweddol sy'n helpu i barhau i leihau'r achosion o wenwyn bwyd. Cytunodd Bwrdd yr FSA ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu cychwynnol ym mis Chwefror 2003. Ym mis Mawrth 2004, trafododd y Bwrdd gynllun diwygiedig a adlewyrchodd ddatblygiadau a'r cynnydd a wnaed wrth weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Nododd y Bwrdd y cynnydd a wnaed a chymeradwyodd y cynllun gweithredu diwygiedig. Mae papur a chynllun gweithredu'r Bwrdd ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/aboutus/ourboard/boardmeetings/boardmeetbranch2004/boardmeeting031104/boardagenda110304**

- Mae FSA Cymru wedi ariannu awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth o HACCP yn y diwydiant arlwyo drwy ddau brosiect ar wahân. Canolbwyntiodd y prosiect cyntaf, a redodd rhwng 2002 a 2004, ar awdurdodau sy'n darparu hyfforddiant a chanllawiau HACCP am ddim i staff busnesau arlwyo, a rhannu deunyddiau cyfarwyddyd. Canolbwyntiodd yr ail brosiect ar ddechrau 2004 ar brynu offer a deunyddiau hyfforddi i staff awdurdodau lleol. Mae FSA Cymru wedi rhedeg seminarau undydd i roi'r newyddion diweddaraf i awdurdodau ar reoliadau hylendid bwyd Ewropeaidd a materion o ran rheoli diogelwch bwyd a fynychwyd gan staff pob awdurdod lleol.
- Sefydlodd FSA yr Alban Weithgor HACCP i ddatblygu'r llawlyfr cyfarwyddyd drafft – HACCP in Practice. Bwriedid i'r ymagwedd fod yn ddigon hyblyg i'w defnyddio ar draws y sector arlwyo cyfan ac fe'i treialwyd yn yr Alban rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2003. Comisiynwyd gwaith hefyd i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno'r pecyn ar ffurf e-ddysgu ac i gyfieithu'r ddogfen i Gantoneg, Wrdw a Phwnjabeg.
- Yn 2002, cafodd gwaith pellach i ddatblygu cyfarwyddyd ('Safe Catering - Your Guide to HACCP') i drafod HACCP yn fanylach ei ariannu a'i gydlynu gan FSA Gogledd Iwerddon, gan weithio ar y cyd â chynghorau dosbarth a'r sector arlwyo (nid oedd canllawiau cynharach yn ymdrin â'r agweddau gwirio ac adolygu yn llawn). Yn sgîl arian a ddarparwyd gan weinyddiaeth Gogledd Iwerddon yn ystod 2003/4, roedd FSA Gogledd Iwerddon yn gallu rhoi digon o gopïau o'r pecyn i gynghorau dosbarth i'w dosbarthu i bron hanner arlwywyr Gogledd Iwerddon. Yn ogystal, cafodd cyfres o seminarau hyfforddi ar y pecyn i arlwywyr ei hariannu a'i chydlynu gan FSA Gogledd Iwerddon. Mae pob un o'r 26 o gynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon yn defnyddio model 'Safe Catering'. Bwriedir cefnogi gorfodwyr ac arlwywyr ymhellach i ddefnyddio'r pecyn yn ôl yr arian sydd ar gael. O ganlyniad i adborth parhaus gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ac arlwywyr, ac eglurhad pellach ar union ofynion deddfwriaeth hylendid newydd yr UE, mae FSA Gogledd Iwerddon yn bwriadu adolygu a diweddaru'r pecyn 'Safe Catering'. Mae hefyd yn gobeithio datblygu fersiwn i arlwywyr Tsieineaidd, sef y grŵp lleiafrifol ethnig mwyaf yng Ngogledd Iwerddon.

- Yn Lloegr, arweiniodd yr FSA dîm yn gweithio gydag arlwywyr bach, gorfodwyr awdurdodau lleol, cyrff masnach cenedlaethol ac arbenigwyr HACCP a rheoli, i ddatblygu pecyn syml i fusnesau arlwyo bach. Nod y pecyn hwn, "Safer food, better business" (SFBB), yw cysylltu â'r arlwywyr ar eu lefel gyfredol o ddealltwriaeth ac mae'n seiliedig ar bedair egwyddor Ymgyrch Hylendid Bwyd yr FSA (coginio, oeri, glanhau, croesheintio). Mae'r pecyn yn rhoi gwybodaeth i'r busnes i'w alluogi i ddatblygu dulliau gweithio diogel, sydd, ar y cyd â chofnodion a gedwir ar ffurf dyddiadur dyddiol, yn creu system rheoli diogelwch bwyd sy'n benodol i'r busnes hwnnw.

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r cynlluniau peilot a chan ystyried anghenion ac amgylchiadau pob gwlad, byddwn yn penderfynu pa ymagwedd, neu gyfuniad o ymagweddau, i'w chyflwyno'n fwy helaeth.

### Achosion o glefydau a gludir gan fwyd

2.8 Yn ystod 2003, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o listeriosis a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr. Cafwyd 17 o achosion ar yr un adeg yn rhanbarth Swydd Efrog a Glannau Humber, yr oedd 11 ohonynt yn ferched beichiog, ac roeddent yn gysylltiedig â menyn a gynhyrchwyd gan laethdy lleol a oedd wedi'i heintio â *Listeria monocytogenes* ysbeidiol lefel isel ac a ddefnyddiwyd mewn sefydliadau arlwyo i wneud brechdanau. Cymerodd y llaethdy gamau i alw pecynnau o fenyn yn ôl. Cyhoeddwyd Rhybudd Bwyd gan yr FSA ar 15 Gorffennaf. Ni fu unrhyw achosion pellach o hil *L. monocytogenes* ers 8 Gorffennaf a datganwyd bod yr argyfwng yn Swydd Efrog a Glannau Humber drosodd ar 17 Tachwedd.

2.9 Cafwyd 186 o achosion o *Salmonella bareilly* ar yr un adeg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mewn astudiaeth epidemiolegol, nodwyd mai brechdanau, yn arbennig brechdanau yn cynnwys ŵy oedd ffynhonnell fwyaf tebygol yr achosion. Bu i ni gydweithio â'r HPA, awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a'r labordai cyfeirio yn Lloegr a'r Alban, i ymchwilio i'r achosion. Fodd bynnag, ni chadarnhaodd ymchwiliadau microbiolegol ffynhonnell bwyd ac ni allai ymchwiliadau amgylcheddol na microbiolegol nodi ffynhonnell yr haint.

2.10 Nodwyd bod achosion o hilion anghyffredin o *Salmonella enteritidis* yn broblem yng Nghymru a Lloegr gyntaf yn ystod hydref 2002. Parhaodd yr achosion hyn, yr oedd llawer ohonynt yn gysylltiedig ag wyau o Sbaen a ddefnyddiwyd mewn gwasanaethau arlwyo, yn ystod 2003. Dangosodd archwiliadau o safleoedd a oedd yn gysylltiedig ag achosion na chafodd cyngor presennol i fusnesau bwyd o ran defnyddio a thrin wyau amrwd mewn plisgyn yn ddiogel ei ddilyn bob amser. Pwysleisiwyd yr angen am arfer hylendid da wrth drin a defnyddio wyau cyffredin ar safleoedd arlwyo.

Rydym yn ymdrin â digwyddiadau bwyd a allai effeithio ar iechyd defnyddwyr yn rheolaidd. Rydym bob amser yn mabwysiadu ymagwedd gymesur yn seiliedig ar risgiau ar y cyd ag awdurdodau lleol a sefydliadau partner eraill ar ôl ceisio cyngor arbenigwyr annibynnol. Cydnabyddwn nad oes y fath beth â dim risg a'n nod yw lleihau risg i lefel sy'n dderbyniol i'r defnyddiwr cyffredin, wrth ystyried risgiau i grwpiau diamddiffyn. Rydym yn onest gyda defnyddwyr, a gwnawn ein gorau glas i egluro ein penderfyniadau mewn ffordd glir a chyfleu risg ac ansicrwydd mewn iaith annhechnegol. Yn ystod 2003/2004, rydym wedi cymryd camau i ymdrin â 773 o ddigwyddiadau gan gynnwys:

- heintio bwydydd â lliwiau o'r Swdan: ni chaniateir i liwiau o'r Swdan gael eu hychwanegu i fwyd yn y DU a gweddill yr UE. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/safereating/sudani/**
- tri math o felysion hylifol newydd - Roll on King, Spray King a Tuby Acid - sydd wedi llosgi ceg pum plentyn o Sbaen ac sydd wedi achosi effeithiau eraill megis teimlo bod y gwefusau a'r tafod yn llosgi, a llidio'r blasbwyntiau. Ar ôl yr achosion hyn, tynnwyd y melysion oddi ar y silffoedd fel nad oedd modd eu gwerthu
- darganfod fodca ffug y credir ei fod yn cynnwys lefelau peryglus o fethanol: cymerodd awdurdodau lleol gamau i sicrhau nad oedd y cynhyrchion ffug ar gael yn eu hardaloedd

- cyhoeddwyd rhybudd brys i'r cyhoedd, ac ymhlith pobl sy'n magu cyhyrau yn arbennig, ar ôl darganfod pils lleihau braster sy'n cynnwys DNP (2, 4-Dinitrophenol). Mae'r pils yn beryglus iawn i iechyd pobl, yn ôl arbenigwyr gwenwynegol annibynnol. Gallai rhywun farw ar ôl cymryd cyn lleied â thair neu bedair (neu 1000mg o DNP) ar y tro, a gallai niferoedd llai (llai na philsen y dydd) dros gyfnodau hwy arwain at effeithiau difrifol i iechyd dynol, megis cataractau
- selsig chorizo a oedd wedi'i heintio â salmonela. Gofynnwyd i awdurdodau lleol wirio a oedd eu marchnadoedd lleol yn gwerthu'r cynhyrchion hyn a sicrhawyd bod y cynhyrchion yn cael eu tynnu oddi ar y silffoedd fel nad oedd modd eu gwerthu
- achosion parhaus o hilion penodol salmonela ers 2002, y bu llawer ohonynt yn gysylltiedig ag wyau o Sbaen a ddefnyddiwyd yn y diwydiant arlwyo. Ailbwysleisiwyd ein cyngor ar drin wyau yn ddiogel. Rydym wedi codi ein pryderon gydag Awdurdodau Sbaen sy'n cymryd camau i ymdrin â ffynhonnell y broblem. Yn ogystal sefydlwyd Tîm Rheoli Achosion* i'r DU gyfan, a arweiniodd at gamau cynyddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Rhybuddion Bwyd yw ffordd yr FSA o hysbysu awdurdodau lleol a defnyddwyr o broblemau sy'n gysylltiedig â bwyd ac, mewn rhai achosion, rhoi manylion am y camau penodol i'w cymryd. Anfonir copi o Rybuddion Bwyd at Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, Swyddogion Safonau Masnach a sefydliadau masnach bwyd hefyd, i'w hysbysu o faterion cyfoes o ran bwyd. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch Rhybuddion Bwyd ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/enforcement/alerts/

### Salmonela mewn wyau

2.11 Cwblhawyd arolwg i asesu lefelau haint salmonela mewn wyau a gynhyrchir yn y DU a gaiff eu gwerthu mewn siopau a marchnadoedd, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004. Canfu'r arolwg fod lefel haint salmonela draean y lefel yr oedd yn 1996. Mae'r newyddion calonogol yn golygu, i ddefnyddwyr sy'n prynu wyau a gynhyrchir yn y DU mewn siopau a marchnadoedd, bod y posibilrwydd o unrhyw achos o haint gan salmonela yn fach iawn ac yn llawer llai nag yr oedd yng nghanol y 1990au. Caiff canlyniadau'r arolwg hwn eu defnyddio i lywio'r ymagwedd tuag at hyrwyddo'r defnydd ehangach o frechiadau ymhlith heidiau dodwy a'n cyngor i ddefnyddwyr ar fwyta wyau. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/mar/salmonellaeggnews**

### Y Rheol Dros Dri Deg Mis (OTM)

2.12 Mae'r Rheol Dros Dri Deg Mis yn un o'r rheolaethau BSE ac mae'n atal cig gwartheg dros dri deg mis oed rhag ymuno â'r gadwyn fwyd. Y prif fesur yw tynnu deunydd risg penodedig (SRM) sy'n sicrhau y caiff dros 99% o heintusrwydd BSE posibl mewn gwartheg ei ddileu. Ym mis Gorffennaf 2003, cytunodd Bwrdd yr FSA y byddai'n dderbyniol cynnal profion BSE ar wartheg sydd dros dri deg mis oed yn lle'r Rheol Dros Dri Deg Mis am resymau iechyd y cyhoedd a hysbysodd y Gweinidogion o hynny[1]. Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiad o'r Rheol Dros Dri Deg Mis yn **www.food.gov.uk/foodindustry/meat/otmreview/**

### Cyngor ar fwyta pysgod olewog

2.13 Mae rhai pysgod olewog yn cynnwys cemegion megis diocsinau a PCBs, sy'n cronni dros amser yn y corff ac a allai gael effaith andwyol ar iechyd os bwyteir llawer ohonynt dros gyfnodau hir. Ym mis Mehefin 2003, gofynnwyd i'n cynghorwyr arbenigol archwilio'r dystiolaeth ar risgiau a buddiannau bwyta pysgod olewog. O ganlyniad i'w hargymhellion dilynol, rydym wedi gallu cyhoeddi cyngor newydd[2] yn awr ar fwyta pysgod olewog ac, am y tro cyntaf, rydym wedi gallu argymell lefelau uchaf lle y mae buddiannau iechyd atal clefyd y galon yn amlwg yn fwy na risgiau posibl diocsinau.

[1] Ers hynny, mae Gweinidogion wedi gofyn i'r FSA eu cynghori o ran system brofi gadarn. Mae Bwrdd yr FSA wedi sefydlu grŵp annibynnol i helpu'r FSA i wneud hyn. Yn dilyn hynny, mae Gweinidogion wedi cyhoeddi dechrau proses newid wedi'i rheoli tuag at ddiddymu'r Rheol Dros Dri Deg Mis (OTM).

[2] Rydym yn argymell y gall dynion a bechgyn, a menywod na allant gael plant mwyach, fwyta hyd at bedwar darn o bysgod olewog yr wythnos. Gall menywod sydd mewn oed i gael plant, gan gynnwys menywod beichiog a menywod sy'n bwydo ar y fron, a merched, fwyta hyd at ddau ddarn o bysgod olewog yr wythnos. Y cyngor o hyd o ran iechyd y cyhoedd yw y gallai pobl fwyta o leiaf ddau ddarn o bysgod yr wythnos, ac y gallai o leiaf un fod yn olewog. Mae tystiolaeth dda bod bwyta pysgod olewog yn lleihau'r risg o farwolaeth o glefyd y galon, a laddodd 117,000 o bobl yn ystod 2002. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/jun/fishportionslifestagechart

### Lledcarbasid

2.14 Yn dilyn rhybudd cychwynnol ym mis Gorffennaf 2003, diweddarodd Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) ei farn wyddonol ym mis Hydref ar ôl darganfod cemegyn - lledcarbasid - sy'n treiddio i fwyd mewn jariau o'u seliau. Mae'r panel Ewropeaidd arbenigol wedi dweud bod tystiolaeth o astudiaethau anifeiliaid bod lledcarbasid yn garsinogen gwan ond, oherwydd tystiolaeth gyfyngedig, nid yw'n bosibl canfod p'un a all lledcarbasid beri risg o ganser i bobl ai peidio. Yn ôl barn y panel, mae'r risg yn fach iawn, os oes risg o gwbl, i blant bach ac oedolion.

2.15 Oherwydd yr ansicrwydd sylweddol ynghylch y risgiau posibl yn sgîl lledcarbasid, rydym wedi egluro i'r Comisiwn Ewropeaidd a'r diwydiant bwyd y dylid datblygu dulliau amgen o selio jariau bwyd fel cam rhagofalus. Ar sail y dystiolaeth gyfyngedig ac amhendant sydd ar hyn o bryd, nid ydym yn cynghori pobl i beidio â bwyta bwyd mewn jariau. Fodd bynnag, defnyddir y jariau hyn yn aml ar gyfer bwyd babanod ac felly mae'n ddealladwy y gall fod gan rieni bryderon ynghylch yr ansicrwydd parhaus, a allai arwain rhai rhieni at ddewis bwyd amgen i'w babanod. Ceir cyngor ar fwydo babanod ar wefan yr FSA yn **www.eatwell.gov.uk/agesandstages/baby/**

### Cyngor newydd ar ddiogelwch dognau uchel o fitaminau a mwynau

2.16 Ym mis Mai 2003, cyhoeddwyd cyngor newydd gennym ar fitaminau a mwynau a allai gael effeithiau niweidiol posibl pe câi dogn rhy uchel ohonynt ei fwyta. Rhoddwyd y cyngor hwn yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Fitaminau a Mwynau (EVM), sef pwyllgor cynghori arbenigol annibynnol, a wnaeth argymhellion ar 31 o fitaminau a mwynau. Mae adroddiad yr EVM ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/vitmin2003.pdf**

2.17 Yn ogystal, ailbwysleisiwyd ein cyngor na ddylai pobl gymryd mwy na 10 mg y dydd o fitamin B6 o ategion bwyd oni bai eu bod yn gweithredu yn unol â chyngor meddygol. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn **www.eatwell.gov.uk/healthydiet/nutritionessentials/vitaminsandminerals**

## BWYTA ER IECHYD

### Halen

2.18 Ym mis Mai 2003, cynhyrchodd y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faetheg (SACN)[3] ei adroddiad y bu llawer o ddisgwyl amdano 'Salt and Health' yn dilyn cais gan yr FSA a Phrif Swyddog Meddygol Cymru i adolygu'r dystiolaeth. Bu'r adroddiad yn hanfodol wrth ddarparu'r sylfaen ar gyfer mentrau polisi eang yr FSA sydd ar waith ar hyn o bryd i leihau faint o halen y mae pobl yn ei fwyta. Mae adroddiad llawn SACN ar gael yn **www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/saltandhealth0503.pdf**

2.19 Nod yr FSA a'r Adrannau Iechyd yw lleihau'r halen a fwyteir draean i'r lefel a argymhellir gan SACN er mwyn lleihau'r achosion o bwysau gwaed uchel ac felly o glefyd cardiofasgwlaidd. Er mwyn gwneud hynny rydym yn gweithio gyda'n gilydd i bwyso ar y diwydiant bwyd i leihau faint o halen a geir mewn bwydydd wedi'u prosesu. Cefnogir y gwaith hwn gan ymgyrch fawr iechyd y cyhoedd i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r risgiau o fwyta llawer o halen. Cefnogir yr ymgyrch gan yr Adrannau Iechyd, a chan amrywiaeth eang o gyrff diwydiant, elusennau iechyd, sefydliadau meddygol, grwpiau defnyddwyr, a chogyddion enwog. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch ar y wefan benodedig yn **www.salt.gov.uk**

### Ein gwaith gydag ysgolion a phobl ifanc

2.20 Rhoddwn bwys arbennig ar wella dealltwriaeth o hylendid bwyd a bwyta'n iach i blant ysgol. Ym mis Tachwedd 2003, lansiwyd y 'bws coginio' a noddir gan yr FSA (cegin/ystafell ddosbarth symudol) i ysgolion a rhaglen 'bws' sydd wedi'i chynllunio i gyd-fynd â'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac amcanion gwaith athrawon. Mae rhaglen y Bws Coginio yn canolbwyntio ar ysgolion yn yr ardaloedd sydd o dan fwy o anfantais gymdeithasol a bydd hefyd yn ymweld â phrosiectau bwyd cymunedol yn ystod gwyliau ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth am y bws coginio ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/healthiereating/bus/**

[3] Mae SACN yn cynghori adrannau iechyd y DU yn ogystal â'r FSA, ac fe'i cefnogir gan ysgrifenyddiaeth ar y cyd yr Adran Iechyd a'r FSA

2.21 Yn ogystal â rhaglen y bws coginio, rydym yn gweithio gydag ysgolion ledled y DU. Dyma rai enghreifftiau o 2003/04:

- yng Nghymru, mae'r ôl-gerbyd adnoddau symudol, sydd â chegin weithredol a gweithfannau cyfrifiadurol rhyngweithiol, yn parhau i gael ei ddefnyddio i hybu negeseuon o ran diogelwch bwyd a bwyta'n iach i amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn digwyddiadau cyhoeddus pwysig, yng nghanol trefi, ac mewn ysgolion. Mae'r ôl-gerbyd wedi bod mewn sawl un o ddigwyddiadau'r "Crucial Crew" yng Nghymru, sef mentrau sy'n cynnwys consortiwm o gyrff y sector cyhoeddus sy'n hybu negeseuon diogelwch i ddisgyblion Blwyddyn 6.
- mae adnodd CD dwyieithog "Gimme 5" wedi'i ddatblygu hefyd i gefnogi'r dasg o ddysgu arferion bwyta'n iach yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Mae'r adnodd hwn wedi'i gymeradwyo gan Colin Jackson, y neidiwr clwydi sy'n dal record y byd ac mae copïau wedi'u dosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru.
- ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2003, estynnodd FSA yr Alban wahoddiad i bob disgybl yn Ysgolion Cynradd yr Alban gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddylunio cardiau Nadolig gyda themâu diogelwch bwyd amlwg. Cafodd dros 1000 o gardiau gan fwy na 50 o ysgolion. Cafodd y cerdyn a enillodd ei argraffu a'i anfon at randdeiliaid yn yr Alban fel cerdyn Nadolig swyddogol FSA yr Alban yn 2003. Cafodd y disgybl buddugol £250 a chafodd yr ysgol gyfanswm o £1250 i'w wario ar brosiect a gymeradwywyd.
- yng Ngogledd Iwerddon, bu i ni noddi (ar y cyd ag Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon, FSPB, Seagate, Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Plant a Phanel Diogelwch Tân Rheoli Adeiladau), menter llyfryn 'Safe and Sound' a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Iechyd Amgylcheddol y Southern Group. Mae'r llyfryn hwn yn ategu'r cwricwlwm ysgol a gobeithio y bydd yn codi ymwybyddiaeth o faterion o ran diogelwch a ffordd o fyw ymhlith plant ifanc a'u teuluoedd. Dosbarthwyd y llyfrynnau i 65,000 o blant Cyfnod Allweddol 1 yng Ngogledd Iwerddon.
- cyflwynwyd ail Wobr Michael Cole gennym hefyd i'r disgybl a gafodd y marciau uchaf ym Modiwl Cynhyrchu a Diogelwch Bwyd Arholiad Economeg y Cartref Safon Uwch TAG Gogledd Iwerddon.

2.22 Rhoddwn gyngor a chymorth ymchwil i fentrau yn yr ysgol sy'n hybu deiet cytbwys. Rydym yn gweithio ar lefel y DU a chenedlaethol i gyflawni ein nodau ac rydym yn gweithio i hyrwyddo ymagweddau sy'n cynnwys cyfraniadau gan Lywodraeth gyfan. Ar y cyd â'r Adran Addysg a Sgiliau, yn 2003/04 comisiynwyd arolwg i asesu cydymffurfiaeth â'r safonau ac i fesur y bwyd a fwyteir gan ddisgyblion ysgolion uwchradd.[4]

## DEWIS

2.23 Ein nod yw cyflawni ein rôl o roi gwybodaeth i amrywiaeth eang o grwpiau defnyddwyr mewn ffyrdd amserol a diddorol. Dyma rai enghreifftiau o 2003/04:

- cyngor bwyta i fyfyrwyr
- canllawiau arfer gorau ar gyfer cynlluniau sicrwydd bwyd[5], gyda'r nod o sicrhau y caiff cynlluniau eu rhedeg mewn ffordd agored a thryloyw gan ddarparu gwybodaeth glir i ddefnyddwyr
- awgrymiadau o ran partïon Nadolig
- cyngor ymarferol ar golli pwysau
- gwybodaeth am gyrïau.

2.24 Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk**

### Hyrwyddo bwydydd ymhlith plant

2.25 Cyhoeddwyd adolygiad o ymchwil sy'n archwilio'r ffordd y caiff bwydydd eu hyrwyddo ymhlith plant, a'r cysylltiad posibl rhwng gweithgarwch hyrwyddo a phatrymau bwyta plant, ym mis Medi 2003. Mae'r adroddiad[6] yn adolygiad cynhwysfawr a thrylwyr o dystiolaeth ar y mater pwysig a chymhleth hwn.

[4] Mae adroddiad yr arolwg, *School Meals in Secondary Schools in England*, wedi'i gyhoeddi erbyn hyn ac mae ar gael ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/jul/secondaryschoolmeals

[5] Mae cynlluniau sicrwydd bwyd yn drefniadau gwirfoddol a fabwysiedir gan gynhyrchwyr sy'n anelu at weithio yn unol â safonau cynhyrchu penodol

[6] Mae'r adroddiad, *Review of research on the effects of food promotion to children*, a gynhyrchwyd ar gyfer yr FSA gan yr Athro Gerard Hastings a'i dîm yng Nghanolfan Marchnata Cymdeithasol Prifysgol Strathclyde ar gael ar ein gwefan yn www.food.gov.uk

Mae'n dod i nifer o gasgliadau pwysig ynghylch y cysylltiad rhwng gweithgareddau hyrwyddo ac ymddygiad bwyta plant. Yn benodol, mae'n dod i'r casgliad bod hysbysebion yn cael effaith ar yr hyn sy'n well ganddynt, ar yr hyn yr hyn y maent yn ei brynu ac ar yr hyn y maent yn ei fwyta, a bod yr effeithiau hyn yn amlwg nid dim ond ar gyfer brandiau gwahanol ond ar gyfer mathau gwahanol o fwyd hefyd.

2.26 Cytunodd Bwrdd yr FSA ar gynigion eang i unioni'r diffyg cydbwysedd yn neiet plant ym mis Mawrth 2004 fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Cynigodd y cynllun gweithredu amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys:

- datblygu cyngor a chanllawiau i'r diwydiant bwyd ar leihau'r braster, yr halen a'r siwgr mewn cynhyrchion a gaiff eu hanelu at blant yn benodol, a chytuno ar ganllawiau ar labelu'r cynhyrchion hyn i alluogi defnyddwyr i nodi beth yw'r opsiynau iachach yn haws ac yn fwy cywir
- monitro i ba raddau y mae'r diwydiant bwyd yn dilyn cyngor a chanllawiau'r FSA, a chyhoeddi'r canlyniadau i ddefnyddwyr weld pa gynnydd a wneir
- cydweithio ag ysgolion i sicrhau y caiff mwy o fwydydd iachach eu cynnwys ar y fwydlen, gan gynnwys targedu peiriannau gwerthu mewn ysgolion i gynyddu'r amrywiaeth o opsiynau iachach
- gofyn i bobl enwog helpu i unioni'r diffyg cydbwysedd drwy hyrwyddo dewisiadau bwyd iachach: mae hyn yn cynnwys sêr chwaraeon a digwyddiadau a noddir
- cydweithio â darlledwyr i'w hannog i ddilyn menter BBC Worldwide i gynyddu'r cysylltiad rhwng cymeriadau a chartwnau poblogaidd ar y teledu a bwydydd iachach
- cynghori corff rheoleiddio y diwydiant darlledu, Ofcom, a'r diwydiant hysbysebu, fod cyfiawnhad dros gymryd camau gweithredu i ymdrin â'r diffyg cydbwysedd mewn hysbysebion bwyd i blant ar y teledu.

2.27 Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r cynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/apkidsfood.pdf** [7]

**Gwybodaeth newydd am anoddefgarwch tuag at fwyd**

2.28 Ym mis Mai 2003, lansiwyd gwybodaeth newydd gynhwysfawr ar anoddefgarwch tuag at fwyd, gan gynnwys alergedd bwyd, ar wefan yr FSA. Mae'r adran benodedig yn llawn gwybodaeth am 24 o fathau gwahanol o anoddefgarwch tuag at fwyd, o alergedd pysgnau a chnau coco i anoddefgarwch tuag at lactos a'r clefyd seliag. Mae'n cynnwys esboniadau o'r hyn sy'n digwydd yn y corff pan gaiff rhywun adwaith alergaidd i fwyd a chyngor ar sut i ddelio ag adwaith difrifol. Mae'r adran yn ystyried pam mae pobl yn dioddef o alergeddau bwyd. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/healthiereating/allergyintol/**

Drwy ein swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym wedi diogelu defnyddwyr a'u buddiannau drwy gymryd camau sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau yn eu gwledydd hwy. Er enghraifft:

- mae strategaeth faethiad i Gymru, *Bwyd a Lles*, yn cynnwys nifer o dargedau ar gyfer gwella deiet pobl Cymru ac mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru yn goruchwylio cynllun gweithredu ar y cyd rhwng yr FSA a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'w cyflawni.
- mae Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon ar y cyd â'r Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd (FSPB) wedi noddi menter "Decent Food for All" a drefnwyd gan Barth Gweithredu Iechyd Armagh a Dungannon, sy'n ymrwymedig i ymdrin â materion o ran tlodi bwyd.
- mae Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban yn bartner yn y gwaith o weithredu argymhellion Cynllun Gweithredu Deiet yr Alban Gweithrediaeth yr Alban (www.scotland.gov.uk).
- Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth ffeithiol ar gyfer ymgyrch 'healthyliving' yr Alban.

[7] Bu datblygiadau pellach ers diwedd y flwyddyn ariannol. Mae papur gwyn iechyd y cyhoedd y llywodraeth, *Choosing Health: making healthier choices easier*, ar gael yn www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/fs/en

# 3 gorfodi

3.1 Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i helpu i sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd gwell wrth orfodi cyfraith bwyd. Er enghraifft, cwblhawyd adolygiad mawr o bob un o'r 20 cod ymarfer gorfodi statudol. Wedi hynny, cyhoeddwyd Codau Ymarfer Deddf Diogelwch Bwyd 1990 cyfunol a diwygiedig i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a chanllawiau cysylltiedig ar 25 Hydref 2004, ac i'r Alban ar 28 Hydref 2004. Maent yn cynnwys pennod newydd ar arolygu llongau ac awyrennau, yr oedd angen ei dilyn ar ôl cyflwyno deddfwriaeth newydd eleni i egluro pwerau mynediad swyddogion gorfodi i longau ac awyrennau. Mae'r Codau diwygiedig a'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/ foodlawguidebranch/foodlawguidech01/ foodlawguidech0103**

3.2 Bu i ni barhau â'n rhaglen o seminarau diweddaru a hyfforddiant cost isel i swyddogion gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol, a chyflwynwyd amrywiaeth o gyrsiau, yn cwmpasu meysydd megis HACCP, puro pysgod cregyn, rheolaethau bwyd a fewnforiwyd a phasteureiddio ar y fferm. Yn ogystal, negodwyd cynnig pwysig gennym ym Mrwsel a oedd â'r nod o wella cysondeb ac effeithiolrwydd gwaith gorfodi cyfraith porthiant a bwyd ledled y Gymuned Ewropeaidd. Cyhoeddwn Adroddiad ar Weithgarwch Gorfodi Awdurdodau Lleol bob blwyddyn. Pan gaiff ei gyhoeddi mae ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/ multimedia/webpage/localauthorities/**

**Newid sylweddol wrth gydlynu a chyflwyno arolygiadau o fwydydd a fewnforir**

3.3 Yn dilyn Adolygiad Swyddfa'r Cabinet o Drefniadaeth Rheolaethau'r Llywodraeth o ran Mewnforion Anifeiliaid, Pysgod, Planhigion a'u Cynhyrchion ym mis Tachwedd 2002, daeth y Llywodraeth i'r casgliad bod dadl dros gael un asiantaeth i oruchwylio pob agwedd ar waith rheoli masnach gyfreithlon mewn anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion bwyd eraill. Fodd bynnag, penderfynwyd y dylai Awdurdodau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd gael y cyfle yn gyntaf i newid perfformiad yn sylweddol. Cydlynodd yr FSA y prosiect i sicrhau



# GORFODI

gwelliant sylweddol wrth gydlynu a chyflwyno arolygiadau awdurdodau lleol o fwydydd a chynhyrchion anifeiliaid a fewnforir o fewn blwyddyn.

3.4 Ym mis Mai 2004 cytunodd Gweinidogion fod Newid Sylweddol wedi'i gyflawni, ac na ddylid bwrw ymlaen â'r syniad o gael un asiantaeth, ar yr amod bod y gwelliannau yn parhau. Canmolwyd awdurdodau lleol am eu hymdrechion i sicrhau'r perfformiad gwell hwn, ond cawsant eu hannog hefyd i barhau i wella effeithiolrwydd rheolaethau bwyd a fewnforir ar ffiniau ac yn fewndirol. Rydym wedi parhau i gydweithio ag Awdurdodau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd i sicrhau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/enforcement/imports/agency_work/stepchange**

**Dull ar-lein newydd ar gyfer gorfodwyr cyfraith bwyd**

3.5 Lansiwyd porth gwefan newydd i gefnogi gorfodwyr cyfraith bwyd y DU ym mis Medi 2003. Mae'r porth newydd yn cynnwys cysylltiadau cyflym â rhybuddion rhag peryglon bwyd ac adroddiadau archwilio awdurdodau lleol, data gorfodi, yn ogystal â'r holl newyddion diweddaraf. Gobeithiwn y bydd y porth hwn yn golygu ei bod yn llawer haws i orfodwyr ddod o hyd i beth bynnag sydd ei angen arnynt drwy glicio llygoden. Bydd rhagor o wybodaeth a gwasanaethau ar-lein pan fyddant ar gael, ac rydym yn awyddus iawn i glywed unrhyw awgrymiadau sydd gan ddefnyddwyr ynghylch gwella'r gwasanaeth. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/enforcement/**

### Cig Anghyfreithlon

3.6 Rydym wedi sefydlu Tasglu Cig Anghyfreithlon, sef rhwydwaith i'r DU ac Iwerddon gyfan o 30 o dditectifs bwyd sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i allu helpu i ganfod achosion o dwyll o ran cig ac ymchwilio iddynt. Cynorthwyir y Tasglu gan dîm o ymchwilwyr - mae llawer ohonynt yn uwch swyddogion yr heddlu - sy'n gweithio yn yr FSA. Maent yn ymchwilio i achosion o dwyll o ran cig, yn ogystal ag unrhyw afreoleidd-dra mewn gweithfeydd a gaiff eu goruchwylio gan yr MHS. Ceir canllawiau ar y Tasglu Cig Anghyfreithlon a mynediad i gronfa ymladd yr FSA ar gyfer awdurdodau lleol ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/enf_e_04_006.pdf**

Rydym wedi parhau i archwilio a monitro gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd gan awdurdodau lleol. Ar 31 Mawrth 2004:

- roedd 92 o awdurdodau (71 yn Lloegr, 14 yng Nghymru a 7 yng Ngogledd Iwerddon) wedi bod yn destun archwiliad llawn
- roedd 58 o awdurdodau (53 yn Lloegr, 4 yng Ngogledd Iwerddon ac 1 yn yr Alban) wedi bod yn destun archwiliad â thema gan ganolbwyntio ar fwydydd a fewnforir, samplu bwyd, gorfodi ffurfiol, a gwaith monitro mewnol
- roedd rhaglen tair blynedd o archwiliadau rhannol blynyddol o bob un o'r 32 o awdurdodau yn yr Alban wedi'i chwblhau.

Cyhoeddir canfyddiadau pob archwiliad ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/enforcement/auditscheme/auditreports/**

### Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS)

3.7 Nod yr MHS yw diogelu iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid drwy orfodi rheoliadau hylendid, arolygu a lles mewn ffordd deg, cyson ac effeithiol ym Mhrydain Fawr. Cyflawnir y rôl hon yng Ngogledd Iwerddon gan Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) Gogledd Iwerddon ar ran yr FSA yng Ngogledd Iwerddon.

3.8 Ym mis Mawrth 2004, cytunodd Bwrdd yr FSA ar gyfres newydd well o dargedau ar gyfer yr MHS. Cynigodd y pecyn lai o dargedau, mwy penodol nag a gafwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd y pecyn hefyd yn cynnwys defnyddio amrywiaeth eang o ddangosyddion perfformiad allweddol i alluogi'r FSA i gael darlun mwy cyffredinol o berfformiad yr MHS. Yn olaf, yn sgîl nodi risgiau allweddol, roedd yr MHS yn gallu llunio gwrthfesurau priodol. Cyhoeddir y targedau ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/apr/performmhs**

### Beth a wnawn mewn safleoedd trwyddedig

3.9 Mae'r MHS yn gorfodi deddfwriaeth hylendid cig a lles anifeiliaid wrth eu lladd ym mhob safle cig ffres trwyddedig. Mae hyn yn cynnwys lladd-dai, safleoedd torri cig a storfeydd oer. Mae'r gwasanaeth arolygu cig yn pennu ac yn ardystio bod yr holl gig coch, cig dofednod (cig gwyn) a helgig gwyllt sydd wedi'i brosesu ac sydd wedi derbyn nod iechyd wedi'i gynhyrchu yn unol â'r Rheoliadau, ac o dan oruchwyliaeth Milfeddyg Swyddogol.

### Methiannau o ran profi yn 2004

3.10 Datgelodd archwiliadau'r MHS a gwiriadau rheoli mewnol nifer o achosion o fethu â phrofi gwartheg sâl rhwng 24 a 30 mis. Pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf, cymerodd yr MHS gamau ar unwaith i ganfod graddau'r broblem ac i leihau'r risg o beidio â phrofi anifeiliaid cymwys eraill. Er bod y risg i bobl yn fach iawn, yn ôl pob tebyg, ac mai mesur arolygu clefydau anifeiliaid yn hytrach na rheolaeth diogelwch bwyd ydoedd, cychwynnodd Bwrdd yr FSA ymchwiliad annibynnol i'r methiant hwn gan yr MHS (a DARD yng Ngogledd Iwerddon) i sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu profi yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd.

### Rhagor o wybodaeth

3.11 Ceir gwybodaeth ac ystadegau ynghylch gwaith gorfodi'r MHS yn Atodiad 6. Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2003/04 yr MHS ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/oct/mhsannualreport0304**

# 4 Y pum mlynedd nesaf

4.1 Nod ein Cynllun Strategol cyntaf, a gyhoeddwyd ar ddiwedd ein blwyddyn gyntaf, oedd meithrin ymddiriedaeth defnyddwyr ac enw da yn seiliedig ar ein gwerthoedd craidd. Rydym wedi dechrau'n dda drwy feithrin enw da am fod yn agored ac yn onest. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen i ni edrych ymlaen a phenderfynu ar yr hyn yr ydym yn awyddus i'w gyflawni yn y 5 mlynedd nesaf, ac yn ystod hydref 2003 bu i ni ddechrau ar y gwaith o ddatblygu ail gynllun strategol yr FSA.

4.2 Datblygwyd ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2005-2010 drwy broses ailadroddol ac ymgynghorol. Roedd y broses hon yn cynnwys rhanddeiliaid ym mhob un o bedair gwlad y DU yn ogystal â Bwrdd a staff yr FSA ei hun. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Defnyddwyr ar brif flaenoriaethau strategol posibl yn ei gyfarfod ym mis Medi 2003[8]. Ym mis Hydref 2003, nododd y Bwrdd brif flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Strategol newydd a'u rhoi yn nhrefn eu blaenoriaeth. Yna trafodwyd y syniadau cychwynnol hyn yn fforymau rhanddeiliaid y Prif Weithredwr er budd defnyddwyr, gorfodi a'r diwydiant, ac mewn cyfarfodydd cyfatebol a gynhaliwyd gan Gyfarwyddwyr FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon[9].

4.3 Cyflwynwyd y sylwadau o'r cyfarfodydd hyn i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2004. Yn seiliedig ar y trafodaethau hyn, datblygwyd targedau ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau. Yna datblygwyd cynllun drafft ymgynghori, cytunodd Bwrdd yr FSA arno ym mis Mawrth 2004, a dechreuwyd ymgynghoriad

[8] Mae'r papur hwn ar gael yn www.food.gov.uk/aboutus/consumercommittee/consumercommittee_meetings/conscomm6agenda/

[9] Mae cofnodion pob un o fforymau Rhanddeiliaid Lloegr wedi'u cyhoeddi ar wefan yr FSA yn www.food.gov.uk/aboutus/how_we_work/stakeholdersforums. Mae nodiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gael ar gais.



# Y PUM MLYNEDD NESAF

cyhoeddus ar y cynllun cyhoeddedig ar 2 Ebrill 2004[10]. Ni fwriedid iddo nodi'r holl waith y byddwn yn ei wneud, ond amlygu'r meysydd hynny lle y bwriadwn wneud ymdrech benodol. Rhoddwyd cyflwyniadau pellach ar y cynllun drafft i'r Pwyllgor Defnyddwyr, fforymau rhanddeiliaid, a nifer o bwyllgorau cynghori'r FSA yn ystod y cyfnod ymgynghori.

4.4 Manteisiodd dros 200 o sefydliadau rhanddeiliaid ac unigolion ar y cyfle i leisio eu barn o ran i ba gyfeiriad y dylai'r FSA fynd yn ystod y pum mlynedd nesaf a pha flaenoriaeth y dylem ei rhoi i agweddau gwahanol ar ein gwaith. Cafodd sylwadau allweddol eu grwpio gyda'i gilydd a'u dadansoddi gan y Weithrediaeth gan nodi argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cynllun Strategol. Trafododd y Bwrdd y sylwadau o'r ymgynghoriad a fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Strategol yn ei gyfarfod agored ym mis Hydref 2004. Rhoddir mwy o flaenoriaeth i'r angen i'r FSA gydweithio â phartneriaid i gyflwyno'r targedau yn y cynllun diwygiedig, ac ychwanegwyd targed newydd. Caiff y sylwadau a wnaeth ymatebwyr ynghylch cyflwyno'r cynllun eu hystyried wrth i gynlluniau gweithredu gael eu datblygu. Bydd rhanddeiliaid yn rhan o'r broses o lunio'r cynlluniau gweithredu. Cytunodd y Bwrdd ar y Cynllun Strategol ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2004 yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/dec/strategicplan**

[10] Darperir manylion yr ymgynghoriad drwy lythyr oddi wrth Dr Jon Bell, Prif Weithredwr yr FSA. Anfonwyd y llythyr hwn a'r Cynllun Strategol drafft drwy'r post at ein rhanddeiliaid ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan yr FSA (www.food.gov.uk)

# Atodiad 1
## ynglŷn â ni

1. Mae'r FSA yn gorff i'r DU gyfan – sef adran anweinidogol o'r Llywodraeth – sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion ac wedi'i reoli gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er budd y cyhoedd. Mae'r annibyniaeth hon yn allweddol i'n llwyddiant i adfer hyder y cyhoedd. Ceir ein siart trefniadaeth lefel uchel bresennol yn Atodiad 3. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk.** Caiff y wefan ei diweddaru'n rheolaidd. Mae rhestr gyswllt fanwl fesul pwnc ar gael yn: **www.food.gov.uk/aboutus/contactus**

2. Rydym yn cynghori Gweinidogion ar bob mater o ran diogelwch a safonau bwyd. Rydym yn negodi ar ran y DU yn Ewrop ac mewn fforymau rhyngwladol eraill, lle y pennir llawer o'r fframwaith a'r safonau cyfreithiol ar gyfer y farchnad bwyd. Rydym yn rhoi canllawiau i'r cyhoedd ar fwyta'n iach ac rydym yn cynnal arolygon o faethiad a deiet i fonitro arferion bwyta sy'n newid.

### Bwrdd yr FSA

3. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ein cyfeiriad strategol cyffredinol ac am sicrhau y cyflawnir ein rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 o aelodau eraill. Penodwyd y Cadeirydd, Syr John Krebs a'r Dirprwy Gadeirydd, Julia Unwin ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (DHSSPS) yng Ngogledd Iwerddon ('yr awdurdodau priodol'). O'r aelodau presennol eraill o'r Bwrdd, penodwyd wyth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, penodwyd dau gan Weinidogion yr Alban a phenodwyd un yr un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae pob un o aelodau'r Bwrdd wedi cyflawni llawer yn eu dewis faes. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Bwrdd yn Atodiad 4 ac ar ein gwefan.

### Gweithrediadau o ddydd i ddydd

4. Mae'r Prif Weithredwr yn rheoli gweithrediadau'r FSA o ddydd i ddydd. Fe'i penodwyd gan yr FSA gyda chymeradwyaeth yr awdurdodau priodol, Prif Weinidog y DU, a Phennaeth y Gwasanaeth Sifil o dan reolaeth arferol Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Trysorlys wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Brif Swyddog Cyfrifyddu'r FSA, gyda chyfrifoldeb dros redeg yr FSA ei hun o ddydd i ddydd. Yn benodol, mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr FSA a'u trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae ein staff yn weision sifil, sy'n atebol drwy'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd.

### Atebolrwydd

5. Mae'r FSA yn atebol i Senedd San Steffan drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon drwy eu Gweinidogion Iechyd neu bobl gyfatebol.

6. Mae diogelwch a safonau bwyd yn faterion datganoledig: mae gan yr FSA swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae pob un ohonynt o dan arweiniad Cyfarwyddwr.

7. Yn yr Alban, mae'r FSA yn rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth arfaethedig i'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymunedol yng Ngweithrediaeth yr Alban. Mae hyn yn sicrhau y ceir ymagwedd gyson ac yn caniatáu i amgylchiadau penodol yr Alban gael eu hystyried wrth weithredu polisi o ran diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban. Mae Pwyllgor Cynghorol statudol yr Alban ar Fwyd (SFAC) yn rhoi gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r FSA ar bob mater o ran diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban. Ariennir yr FSA yn yr Alban gan Senedd yr Alban ac mae o dan arweiniad Cyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr yr FSA.

8. Mae'r FSA yn atebol am ei gweithgareddau yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y mae'r FSA hefyd yn rhoi cyngor iddo ar bolisi a deddfwriaeth diogelwch a safonau bwyd. Mae Pwyllgor Cynghorol statudol Cymru ar Fwyd yn rhoi gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r FSA ar bob mater o ran diogelwch a safonau bwyd yng Nghymru. Ariennir yr FSA yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae o dan arweiniad Cyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr yr FSA.

9. Mae'r FSA yng Ngogledd Iwerddon yn gyfrifol am roi cyngor a deddfwriaeth ddrafft ar faterion o ran y gadwyn fwyd gyfan i'r Gweinidog yng Ngogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am y DHSSPS. Mae Pwyllgor Cynghorol statudol Gogledd Iwerddon ar Fwyd yn rhoi cyngor neu wybodaeth i'r FSA ynghylch materion sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r FSA yng Ngogledd Iwerddon. Ariennir yr FSA yng Ngogledd Iwerddon o fewn amcangyfrifon Gogledd Iwerddon ac mae o dan arweiniad Cyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr yr FSA.

10. Mae'r FSA yng Ngogledd Iwerddon yn cydweithio'n agos â Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd (FSPB) ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon mewn perthynas â materion bwyd sy'n ymwneud ag Iwerddon gyfan, megis salwch a gludir gan fwyd.

### Y Gwasanaeth Hylendid Cig

11. Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn un o asiantaethau gweithredol yr FSA sy'n gweithredu ym Mhrydain Fawr. Mae'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) yn darparu gwasanaeth tebyg yng Ngogledd Iwerddon. Ei brif swyddogaethau yw sicrhau y cynhelir y safonau uchaf sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith o ran cynhyrchu cig mewn ffordd hylan ac o ran lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu lladd, a darparu gwasanaeth archwilio cig i bob gwaith cig trwyddedig. Mae'r MHS hefyd yn gorfodi rheolaethau Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) mewn safleoedd trwyddedig. Mae gan yr MHS ei Swyddog Cyfrifyddu Asiantaeth ei hun (Prif Weithredwr yr MHS) ac mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ei hun.

### Ein rôl fel adran o'r llywodraeth

12. Mae'r FSA yn gweithio'n unol â thri nod moderneiddio llywodraeth leol: sicrhau bod y broses o lunio polisi yn fwy cydgysylltiedig a strategol; sicrhau mai defnyddwyr yw ffocws ein gwaith; a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithlon o safon. Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno canlyniadau polisi sy'n gwneud gwahaniaeth: ein nod yw datblygu ein proses llunio polisi er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried ac yn hyrwyddo arferion gorau. Mae gennym amrywiaeth lawn o fentrau ar wrando ar ddefnyddwyr: gweler y dudalen 'Your views' ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/yourviews/**

13. Ar ein gwefan cyhoeddwn dargedau ar gyfer ein safonau gwasanaeth, sy'n cydymffurfio â'r Chwe Safon ar gyfer Llywodraeth Ganolog: ateb gohebiaeth, gweld ymwelwyr, ateb galwadau ffôn, cyhoeddi pwyntiau cyswllt, cyhoeddi ein gweithdrefn gwyno ac ymgynghori â defnyddwyr.

14. Rydym yn ymrwymedig i wneud popeth posibl o fewn rheswm i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau, grwpiau ethnig, grwpiau difreintiedig a'r rhai ag anghenion iechyd penodol, ac yn arbennig er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Byddwn yn parhau i ymgynghori â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn rheolaidd ynghylch y gwasanaethau a ddarparwn a byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar ein canfyddiadau.

15. Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. O dan y ddyletswydd hon, pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio: dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil; hyrwyddo cyfle cyfartal; a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hil gwahanol. Tra bod ein gwerthoedd craidd o roi'r defnyddiwr yn gyntaf a bod yn agored yn gysylltiedig â'r egwyddorion hyn yn y bôn, yn unol â'r ddyletswydd benodol sydd ar awdurdodau cyhoeddus rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/aboutus/how_we_work/68192**

16. Cyhoeddwn ein gweithdrefn gwyno ar ein gwefan fel rhan o'n safonau gwasanaeth, a byddwn yn dosbarthu copïau pellach ar gais. Ein nod yw ceisio datrys unrhyw broblem yn gyflym, gan egluro beth rydym wedi'i wneud a pham. Cyhoeddir gwybodaeth ynghylch cwynion yn erbyn yr FSA bob blwyddyn, ar ein gwefan ac yn yr Adroddiad hwn. Ceir gwybodaeth ar gyfer 2003/04 yn Atodiad 5.

# Atodiad 2

## sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith

1. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau mai'r FSA yw ffynhonnell fwyaf dibynadwy y DU o ran cyngor a gwybodaeth am fwyd. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig iawn i'n hegwyddorion arweiniol: rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf, bod yn agored ac yn hygyrch a bod yn llais annibynnol. Seilir ein llais annibynnol ar ymagwedd yn seiliedig ar dystiolaeth tuag at lunio polisi. Mae penderfyniadau yn seiliedig ar asesu'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf lle y bo'n berthnasol.

### Hyder Defnyddwyr

2. Dengys ein pedwerydd Arolwg o Agweddau Defnyddwyr tuag at Fwyd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2004, fod y pryder ynghylch BSE, wyau a diogelwch cig wedi lleihau ers sefydlu'r FSA yn 2000, a bod ymwybyddiaeth o gyngor ynghylch ffrwythau a llysiau a'r angen i gwtogi ar halen wedi gwella. Rydym yn defnyddio'r arolwg blynyddol i helpu i ganfod newidiadau ym marn pobl am fwyd ac i ddysgu am eu gwybodaeth, eu hymddygiad a'u hymwybyddiaeth o faterion bwyd. Mae arolwg 2003 yn amlygu nifer o dueddiadau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg ers 2000, gan gynnwys:

   - gostyngiad sylweddol ym mhryder defnyddwyr ynghylch BSE (wedi gostwng i 42% yn 2003 o 61% yn 2000)
   - gostyngiad ym mhryder defnyddwyr ynghylch diogelwch cig – yn enwedig cig amrwd (wedi gostwng i 63% yn 2003 o 70% yn 2000) a chig eidion amrwd (wedi gostwng i 38% yn 2003 o 53% yn 2000)
   - gostyngiad ym mhryder defnyddwyr ynghylch wyau (wedi gostwng i 20% yn 2003 o 26% yn 2000)
   - cynnydd blynyddol yn nifer y defnyddwyr sy'n ymwybodol y dylem fwyta pum darn o amrywiaeth o ffrwythau a llysiau bob dydd (wedi codi o 43% yn 2000 i 59% yn 2003), er mai dim ond 28% a honnodd eu bod wedi bwyta'r swm o ffrwythau a llysiau a argymhellir y diwrnod blaenorol
   - cynnydd sylweddol yn nifer y defnyddwyr sy'n edrych am gyfanswm yr halen mewn cynnyrch drwy wirio'r wybodaeth faethol ar labeli bwyd (wedi codi o 22% yn 2000 i 36% yn 2003).

3. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/jan/cas2003news**

### Ymchwil ac arolygon gwyddonol

4. Ym mron pob maes o'n busnes, rydym yn defnyddio tystiolaeth wyddonol i lywio ein polisïau ac i sicrhau ein bod yn rhoi cyngor cadarn i randdeiliaid. Mewn meysydd lle y ceir llawer o waith ymchwil eisoes sydd wedi bod yn destun proses adolygu cymheiriaid, rydym yn defnyddio'r canlyniadau cyhoeddedig. Lle nad yw'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom ar gael, rydym yn comisiynu gwaith ymchwil, fel arfer mewn cystadleuaeth agored, gan arbenigwyr yn y maes, yn y DU a thramor. Yn y dyfodol, byddwn yn rhoi pwys cynyddol ar ymgynghori â rhanddeiliaid ar ein hanghenion ymchwil ar gam cynnar a byddwn yn parhau i ystyried eu barn wrth gomisiynu gwaith newydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Pwyllgor Cynghori annibynnol ar Ymchwil wedi ein helpu i geisio datblygu system ddibynadwy ar gyfer blaenoriaethu ein hymchwil yn well a byddwn yn parhau i weithio ar hyn.

5. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwariwyd bron 5% o'n cyllideb ymchwil ar brosiectau ymchwil cydweithredol o dan Raglenni Fframwaith y Comisiwn Ewropeaidd a chyda chyllidwyr ymchwil eraill yn y DU. Mae cydweithredu ar faterion ymchwil, yn Ewrop ac mewn mannau eraill yn y byd, yn debygol o fod yn gynyddol bwysig i ni am fod mwy nag un wlad yn wynebu llawer o'r materion bwyd yr ydym ni yn eu hwynebu.

6. Rydym wedi gwella'r ffordd yr ydym yn cyflwyno'r gwaith ymchwil a ariannwn drwy ailstrwythuro rhan ymchwil ein gwefan yn **www.food.gov.uk/science/research** sydd bellach yn rhoi manylion am bron 90% o'r prosiectau ymchwil presennol a gyflawnir o fewn ein rhaglenni ymchwil. Ar ôl cwblhau prosiect, yn ogystal â rhoi'r adroddiad terfynol yn ein llyfrgell, rydym yn cyhoeddi'r canlyniadau ar ein gwefan. Yn y dyfodol, byddwn yn rhoi pwys cynyddol ar ddosbarthu canlyniadau ein gwaith ymchwil i amrywiaeth o randdeiliaid, nid dim ond ymchwilwyr, mewn iaith syml, hawdd ei deall.

7. Mae manylion prosiectau a ariennir gan yr FSA yn y flwyddyn ariannol 2003-04 wedi'u cyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol Rhaglenni Ymchwil ac Arolwg 2004. Mae hyn ar gael fel CD-ROM (am ddim) neu ar ffurf copi caled (£15) drwy gysylltu â'r Uned Cydlynu Ymchwil (ffôn: 020 7276 8762 neu ebost: **MB-RCU@foodstandards.gsi.gov.uk**).

8. Lansiwyd dwy fenter newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd. Ym mis Mai 2003, ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddonol Biolegol, a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, lansiwyd Cod Ymarfer ar y Cyd ar Sicrhau Ansawdd (QA) mewn Gwaith Ymchwil. Mae'r Cod yn ceisio gwella gwaith sicrhau ansawdd y broses ymchwil (e.e. y gallu i olrhain samplau, calibradu offerynnau) yn hytrach na'r wyddor. Bydd cael Cod ar y cyd yn sicrhau na roddir gormod o faich ar gontractwyr ymchwil sy'n gweithio ym meysydd bwyd, yr amgylchedd ac amaethyddiaeth wrth iddynt orfod mabwysiadu sawl gweithdrefn sicrhau ansawdd wahanol. Bwriedir yn y tymor hwy y bydd trefniadau sicrhau ansawdd y rhan fwyaf o gontractwyr yn cael eu hachredu'n annibynnol gan drydydd parti. Ym mis Tachwedd 2003 lansiwyd ein Cynllun Ysgoloriaeth i Raddedigion. Diben y Cynllun yw helpu i sicrhau y ceir gwyddonwyr newydd mewn meysydd ymchwil allweddol sy'n bwysig i ni a'n rhanddeiliaid. Bwriadwn ariannu rhwng 3 a 6 ysgoloriaeth y flwyddyn.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r ffordd y gallai'r gwaith ymchwil yr ydym wedi'i ariannu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf helpu ein rhanddeiliaid mae:

- datblygu modelau mathemategol a all ragweld marwolaeth a thwf y micro-organedd gwenwyno bwyd *Clostridium perfringens* wrth dwymo ac oeri cig
- arolwg o fwydydd wedi'u prosesu i weld faint o halen sydd ynddynt er mwyn gallu asesu effaith ymgyrch yr FSA i leihau'r halen a fwyteir
- datblygu dulliau i helpu i hyrwyddo arferion bwyta'n iach ymhlith plant ysgol a'r rhai ar incwm isel
- ymchwiliadau i'r nifer gynyddol o achosion o alergedd i bysgnau a ffrwythau kiwi.

## Fforymau rhanddeiliaid

9. Rydym wedi sefydlu rhaglen barhaus i fforymau rhanddeiliaid defnyddwyr, diwydiant a gorfodi ledled y DU i alluogi amrywiaeth o sefydliadau defnyddwyr, carfanau pwyso, diwydiant ac awdurdodau gorfodi i godi materion sy'n peri pryder cyffredinol yn anffurfiol gyda'r FSA. Mae'r fforymau yn ddull cyfathrebu anffurfiol sy'n rhoi cyfle i randdeiliaid drafod materion presennol a materion sy'n dod i'r amlwg, archwilio'r posibiliadau ar gyfer gwaith partneriaeth cynhyrchiol, a rhoi cyfle i'r FSA siarad am ei chynlluniau yn ystod y 6 mis nesaf. Yn ystod 2003, ymgynghorwyd â'r fforymau ynghylch datblygu blaenoriaethau Cynllun Strategol 2005-2010 yr FSA. Ceir rhagor o fanylion gan gynnwys nodiadau pob fforwm a gynhaliwyd yn Lloegr ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/aboutus/how_we_work/stakeholderforums**. Mae nodiadau ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gael ar gais.

## Cydweithio â gwledydd eraill ac â sefydliadau rhyngwladol

10. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau ac asiantaethau bwyd yn fyd-eang i sicrhau cyflenwad bwyd diogel. Ein nod hefyd yw dylanwadu ar y safonau a bennir ar gyfer bwyd a gaiff ei werthu'n fyd-eang drwy waith Comisiwn Codex Alimentarius, yn enwedig drwy sicrhau ein bod yn cyfrannu'n llawn at ddatblygu cyfraniad yr UE i negodiadau Codex. Rydym yn parhau i bwyso am gyfranogiad gwell gan ddefnyddwyr yn y broses o ddatblygu safonau.

11. Rydym yn datblygu cysylltiadau agos ag Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) a sefydlwyd yn 2002 ac rydym yn cymryd rhan yn yr asesiadau diogelwch y mae'n eu cynnal. Dechreuwyd datblygu cysylltiadau ag Asiantaethau Bwyd Ewropeaidd eraill drwy drefnu a chynnal (yn 2003) y cyntaf o gyfarfodydd rheolaidd rhwng penaethiaid y cyrff hyn. Rydym yn cyfrannu at y dasg o ddatblygu polisïau'r UE ar y cam cynharaf posibl, gan gynnwys materion o ran bwyta er iechyd. Rydym yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn cael rhybudd cynnar pan fydd EFSA neu Asiantaethau eraill yn darganfod problemau posibl o ran diogelwch bwyd. Rydym yn parhau i ddatblygu cysylltiadau ag awdurdodau bwyd y tu allan i'r UE hefyd.

### Rheoleiddio gwell

12. Rydym yn ceisio dilyn pum egwyddor rheoleiddio gwell: cymesuredd, atebolrwydd, cysondeb, tryloywder a thargedu. Rydym hefyd yn ystyried dulliau amgen yn lle rheoleiddio, lle y mae rhwystrau cyfraith yr UE yn caniatáu hyn. Dylai rhanddeiliaid allu deall sut y mae'r darnau amrywiol o dystiolaeth a gwybodaeth sydd ar gael wedi'u defnyddio gan yr FSA wrth lunio barn ynghylch pryd i gymhwyso gwaith rheoleiddio uniongyrchol a phryd i fabwysiadu ymagweddau amgen. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein camau gweithredu:

- yn gymesur, yn seiliedig ar risgiau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau
- yn ysgogi gwelliant ac yn gwobrwyo perfformiad da, tra'n ceisio cymryd camau llym yn erbyn y rhai sy'n methu'n gyson â chyrraedd safonau derbyniol
- yn ymarferol ac yn rhai y gellir eu cyflawni.

13. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch gwaith rheoleiddio gwell, gan gynnwys papur trafod, ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/jun/protectingconsumers**

### Datblygu ein staff a'r ffordd yr ydym yn gweithio

14. Mae ein cynllun strategol newydd yn newid pwyslais ein gwaith, gan ganolbwyntio mwy ar gyflawni canlyniadau a datblygu cydberthnasau hyd yn oed yn fwy effeithiol â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Rydym yn awyddus i ddatblygu ffyrdd mwy hyblyg o weithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar sgiliau a brwdfrydedd ein staff, annog eu creadigrwydd, a chydnabod a gwobrwyo eu cyfraniad.

15. Gydag ymrwymiad staff yr FSA gyfan, bu i ni ennill achrediad BmP ym mis Ebrill 2004. Ein her yw parhau â'r gwaith hwn ac adeiladu arno. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn cynnal asesiad BmP canol tymor yn ystod hydref 2005.

16. Mae ein cynllun datblygu rheolwyr yn parhau i ddatblygu a darparu hyfforddiant sgiliau perthnasol. Yn ystod 2003/04, cwblhaodd dros 100 o aelodau o staff amrywiaeth eang o fodiwlau yn cwmpasu arweinyddiaeth, rheoli pobl, cynllunio busnes, rheoli prosiectau ac effaith rôl Llywyddiaeth yr UE y Deyrnas Unedig ar waith yr FSA.

17. Rydym yn parhau i hyrwyddo ac i gefnogi amrywiaeth yn ein polisïau a thrwy'r sefydliad cyfan. Rydym yn gwneud cynnydd cyson i gyflwyno ein targedau o ran amrywiaeth a gwelwyd cynnydd yn nifer y merched mewn uwch swyddi rheoli a chyfran y staff o leiafrifoedd ethnig mewn swyddi rheoli canol.

18. Er mwyn deall ein rhanddeiliaid yn well a chydweithio hyd yn oed yn fwy effeithiol â'n partneriaid, ein nod hefyd yw gwella'r cyfle i gael secondiadau mewnol ac allanol gydag amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys defnyddwyr, diwydiant, awdurdodau lleol, adrannau eraill y llywodraeth ac, yn ehangach, yn Ewrop.

19. Drwy gydol 2003/04, rydym wedi cydweithio â swyddogion o Uned Effaith Reoleiddiol Swyddfa'r Cabinet i atgyfnerthu ein gweithdrefnau mewnol a chanllawiau'r staff ar gyfer cynnal asesiadau effaith reoleiddiol.

Yn ein rôl fel adran o'r llywodraeth, rydym yn cynghori ac yn hysbysu llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Yn ystod 2003/04, rhoddwyd atebion i:

- 459 o Gwestiynau Seneddol
- 978 o ddarnau o ohebiaeth Gweinidogion (yn cynnwys gohebiaeth gan ASau ac Arglwyddi i Gadeirydd a Phrif Weithredwr yr FSA)
- 23 o Gwestiynau Seneddol yn yr Alban
- 139 o ddarnau o ohebiaeth Gweinidogion yn yr Alban
- 4 Cwestiwn y Cynulliad yng Nghymru
- 54 o ddarnau o ohebiaeth Gweinidogion yng Nghymru
- 2 ateb ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad Lleol yng Ngogledd Iwerddon.

# Siart Trefnia

# Atodiad 3
## sut yr ydym wedi'n trefnu

Prif Weit
Phrif Gyr
Gwyd
**Dr Jon**

Cyfarwyddwr Cyfathrebu
**Neil Martinson**
Cysylltiadau allanol a rhanddeiliaid, Cysylltiadau defnyddwyr ac Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Defnyddwyr

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
**David Dunleavy**
Gwasanaethau cynghori cyfreithiol a drafftio deddfwriaethol i'r FSA a'r MHS

Cyfarwyddwr Dewis Defnyddwyr ac Iechyd Deietegol
**Gill Fine**

Cyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd
**Andrew Wadge**

Cyfarwyd
yr A
**George I**

Prif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig
**Chris Lawson**
Ffôn: 01904 455500

| | |
|---|---|
| Adran Maethiad<br>**Rosemary Hignett**<br>Ffôn: 020 7276 8178 | Annog bwyta'n iach. Addysg a chyngor ar faethiad, Ymchwil a thystiolaeth o ran maethiad, Monitro'r deiet, Lleihau'r halen a fwyteir, Hyrwyddo bwydydd ymhlith plant, Bwyd mewn Ysgolion, Gweledigaeth bwyd, Cryfhau bwydydd, Labeli yn gysylltiedig ag iechyd, Bwydydd deietegol. |
| Adran Bwydydd Newydd ac Ategion Bwyd ac Ychwanegion<br>**Clair Baynton**<br>Ffôn: 020 7276 8566 | Bwydydd GM, Bwydydd llysieuol, Ategion bwyd, Bwyd a phrosesau newydd, Ychwanegion. |
| Adran Dewis Defnyddwyr, Safonau Bwyd a Phrosiectau Arbennig<br>**Richard Harding**<br>Ffôn: 020 7276 8483 | Materion o ran labelu (ac eithrio labeli maethiad), Hawliadau bwyd, Dewis bwyd, Alergenau, Bwyd organig, Cynlluniau sicrhau ansawdd, Materion cyffredinol o ran cyfraith bwyd a chyfansoddiad, Safonau bwyd a materion o ran cyfansoddiad, Prosiectau arbennig, Cynaliadwyedd, Y gallu i olrhain. |
| Adran Gwasanaethau Dadansoddol, Arolygon a Pholisi Ymchwil<br>**Derrick Jones**<br>Ffôn: 020 7276 8611 | Economeg, Ystadegau, Asesu cysylltiad, Dulliau datblygu dadansoddi, Gwaith ymchwil gweithredol, Cydlynu arolygon, Polisi ymchwil gan gynnwys ysgrifenyddiaeth yr ACR, Cydlynu ymchwil, Cydlynu pwyllgorau arbenigol. |

| | |
|---|---|
| Adran Diogelwch Cemegol<br>**Nick Tomlinson**<br>Ffôn: 020 7276 8562 | Tocsicoleg, Tocs<br>naturiol, Deuny<br>bwyd, Halogion |
| Adran Gynhyrchu Sylfaenol<br>**Tim Foster**<br>Ffôn: 020 7276 8302 | Porthiant anifei<br>Plaladdwyr a<br>meddyginiaetha<br>milfeddygol, Hy<br>llaethdai, Wyau<br>physgod cregyn<br>bwyd cyffredin |
| Adran Ficrobiolegol<br>**Judith Hilton**<br>Ffôn: 020 7276 8983 | Diogelwch micro<br>Strategaeth ar gy<br>salwch a gludir g<br>Peryglon bwyd n |
| Adran Ymbelydredd a Digwyddiadau Cynllunio Brys<br>**Lynne Ridler-Wall**<br>Ffôn: 020 7276 8784 | Digwyddiadau b<br>bwyd a chynllu<br>gynnwys cydlyn<br>Diogelwch ymb<br>Arbelydriad bw<br>microdonau, Cy<br>parhad busnes. |

# daeth yr FSA

hredwr a
nghorydd
donol
**n Bell**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ddwr FSA<br>lban<br>**Paterson** | Cyfarwyddwr FSA<br>Gogledd Iwerddon<br>**Morris McAllister** | Cyfarwyddwr<br>Gorfodi<br>**David Statham** | Cyfarwyddwr<br>FSA Cymru<br>**Joy Whinney** | Dirprwy Brif<br>Weithredwr a<br>Chyfarwyddwr<br>Adnoddau<br>Corfforaethol<br>**Pat Stewart** |

| |
|---|
| sinau<br>ddiau cyswllt<br>cemegol |
| liaid,<br><br>au<br>ylendid<br>, Pysgod a<br>, Hylendid<br>ol. |
| biolegol,<br>fer lleihau<br>an fwyd,<br>nicrobiolegol. |
| bwyd, trin<br>nio brys gan<br>nu CBRN,<br>belydrol,<br>yd a<br>ydlynu |

| | |
|---|---|
| Adran Bwyd a Fewnforir<br>**Sarah Appleby**<br>Ffôn: 020 7276 8442 | Datblygu ymagwedd strategol tuag at waith awdurdodau lleol i orfodi rheolaethau bwyd a fewnforir ar y cyd ag adrannau eraill y llywodraeth. Cyfrifoldeb polisi dros Reoliadau Bwyd a Fewnforir (bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid). Cymorth technegol ar waith gorfodi safonau bwyd a samplu bwyd gan awdurdodau lleol. |
| Adran TSE<br>**Alan Harvey**<br>Ffôn: 020 7276 8303 | Agweddau o ran diogelwch bwyd ar BSE a mathau eraill o Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE). Ysgrifenyddiaeth SEAC yr FSA. |
| Cyfarwyddwr Milfeddygol<br>**Alick Simmons**<br>Ffôn: 020 7276 8380 | Materion o ran hylendid cig. Cyngor a gwaith cydlynu iechyd y cyhoedd milfeddygol. Prif gyswllt yr FSA ar faterion o ran yr MHS. |
| Adran Gorfodi<br>**Julie Monk**<br>(yn weithredol o 1 Tach 2004)<br>Ffôn: 020 7276 8439 | Cydlynu pob mater gorfodi. Cysylltiadau a rheoli perfformiad awdurdodau lleol. Hyfforddiant awdurdodau lleol. Archwiliadau (awdurdodau lleol a'r MHS). Dilysrwydd a thwyll. Cydlynu'r FVO. |
| Adran Gweithredu Hylendid Cig<br>**Tom Murray**<br>Ffôn: 020 7276 8980 | Gweithredu rheoliadau hylendid bwyd yr UE. Rheoli diogelwch bwyd (HACCP). Gweithredu rheoliadau'r UE o ran bwyd a phorthiant. |

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol<br>**Brian Davies**<br>Ffôn: 020 7276 8105 | Pob mater o ran adnoddau dynol gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad. Cyfathrebu mewnol. |
| Cyfarwyddwr Cyllid<br>**Allan Hutton**<br>Ffôn: 020 7276 8291 | Materion ariannol. Y pwyllgor archwilio a chysylltiadau â'r Trysorlys. Caffael. TG a gwasanaethau gwybodaeth. Adeiladau ac ystafelloedd a diogelwch adrannol. |
| Ysgrifenyddiaeth Gorfforaethol ac Adran Ryngwladol<br>**Barbara Richards**<br>Ffôn: 020 7276 8610 | Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd. Swyddfa Breifat. Materion o ran yr UE a materion rhyngwladol. Rhyddid gwybodaeth. Gohebiaeth y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a busnes seneddol. Cwynion. |
| Adran Strategaeth, Risg a Rheoleiddio<br>**Steve Wearne**<br>Ffôn: 020 7276 8338 | Strategaeth a chynllunio. Chwilio'r gorwelion. Adroddiadau adrannol a blynyddol yr FSA. Gwelliannau parhaus. Gwerthuso polisi. Risg a Rheoleiddio. |

(Diweddarwyd Tachwedd 2004)

# Atodiad 4
## ein bwrdd

Roedd y canlynol yn aelodau o Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod 2003/04.

### Syr John Krebs FRS – Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd



### Julia Unwin OBE – Dirprwy Gadeirydd




### Michael Gibson (Yr Alban)



### Ann Hemingway CBE (Cymru)



Dr Sati Ariyanayagam




Richard Ayre



Chrissie Dunn



Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland OBE




Iain MacDonald




Yr Athro Andrew Miller



## Sandra Walbran



## Vernon Sankey



## Michael Walker



Ymddiswyddodd 05/2004

## Robert Rees



Daeth ei dymor i ben 02/2004

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion bywgraffiadol diweddaraf aelodau presennol ein Bwrdd a'u cofrestr buddiannau, ewch i'n gwefan yn **www.food.gov.uk/aboutus/ourboard/**

# Atodiad 5

## Cwynion a dderbyniodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod 2003/04

1. Cyfanswm y cwynion a gofnodwyd a dderbyniodd yr FSA yn ystod y flwyddyn 2003/04 oedd **19**. O'r rhain, daeth 7 o'r un aelod o'r cyhoedd ynghylch materion amrywiol yn ystod y flwyddyn. O'r 19, datryswyd 8 yn fewnol gan Adrannau, deliwyd â 6 ohonynt gan Gydlynydd Cwynion yr FSA a chyfeiriwyd 5 ohonynt at y Prif Weithredwr.

2. Drwy ddosbarthu'r **19** o gŵynion a gofnodwyd, ceir y dadansoddiad canlynol:

   - **Categori A:** Dim bai, lle nad oedd sail i'r gŵyn. **Cyfanswm o 8 achos**; cafodd pob un o'r rhain eu datrys yn llwyddiannus ar ôl cysylltu â'r achwynwyr unigol
   - **Categori B:** Mân achosion o esgeulustod ac oedi wrth brosesu. **Cyfanswm o 9 achos**; datryswyd pob un ohonynt ar ôl rhoi esboniadau llawn
   - **Categori C:** Materion cymhleth a newydd, a achosodd oedi neu broblem arall. **Dim achosion**
   - **Categori D:** Cwynion a wneir mewn perthynas â materion hil. **Dim achosion**
   - **Categori E:** Arall. **2 achos**; roedd un achos yn ymwneud â phost yn cael ei anfon at berson a oedd wedi marw, er gwaethaf y ffaith i'r FSA gael ei hysbysu. Datryswyd y gŵyn drwy roi ymddiheuriad llawn a thrwy ddileu'r manylion cyswllt o'n rhestrau. Roedd yr achos arall yma yn ymwneud â chwmni lladd-dy a gafodd ei enwi ar wefan yr FSA mewn perthynas â thorri rheolau SRM heb gael ei hysbysu ymlaen llaw. Datryswyd y mater gan y Prif Weithredwr a ymddiheurodd ar ran yr FSA.

3. Deilliodd y **19** o gŵynion a gofnodwyd o amrywiaeth o ffynonellau. Daeth 2 ohonynt o ddiwydiant/busnesau, cafwyd 1 gan aelod o'r gymuned wyddonol, daeth 1 o gymdeithas defnyddwyr, cafwyd 4 gan ASau ac 11 gan aelodau'r cyhoedd (DS: Daeth 7 o'r 11 o'r un aelod o'r cyhoedd).

# Atodiad 6
## Gwaith Gorfodi'r MHS

### Polisi Gorfodi'r MHS

1. Mae'r MHS yn asiantaeth orfodi sy'n gweithredu mewn safleoedd cig trwyddedig. Ceir gwybodaeth fanylach am yr MHS yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2003/04 yr MHS sydd ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/oct/mhsannualreport0304**

2. Mae'r MHS yn gweithredu yn unol ag egwyddorion gorfodi da, fel y nodir yn y Concordat Gorfodi a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Cabinet, ac a fabwysiadwyd gan yr FSA, sef:

   - **Safonau** – llunio safonau clir sy'n nodi lefel y gwasanaeth a'r perfformiad y gall y cwsmer eu disgwyl
   - **Bod yn agored** – darparu gwybodaeth a chyngor, mewn iaith glir, ar y rheolau a gaiff eu cymhwyso
   - **Defnyddioldeb** – mynd ati i gydweithio â'r diwydiant cig i roi cyngor ar gydymffurfiaeth ac i helpu yn hyn o beth
   - **Gweithdrefn gwyno** – darparu gweithdrefnau cwyno effeithiol ac amserol y rhoddir cyhoeddusrwydd da iddynt sy'n hawdd eu defnyddio
   - **Cymesuredd** – sicrhau bod unrhyw gamau y mae angen eu cymryd yn gymesur â'r risgiau
   - **Cysondeb** – cyflawni dyletswyddau mewn ffordd deg a chyson.

3. Ar gais yr FSA, cafodd fersiwn drafft o Bolisi Gorfodi newydd yr MHS ei gynhyrchu a'i ddosbarthu er mwyn cael sylwadau mewnol arno ar ddiwedd 2003. Cafodd fersiwn diwygiedig, a ystyriodd y sylwadau, ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli'r MHS (yn amodol ar fân newidiadau) ym mis Chwefror 2004 a'i gyflwyno i'r FSA ym mis Mawrth 2004. Caiff ei ystyried o hyd.

4. Mae'r polisi yn adlewyrchu gofynion y Concordat Gorfodi, y gellir ei weld yn llawn ym Mhennod 18 Llawlyfr Gweithrediadau'r MHS. Mae'n amlinellu prif swyddogaethau'r MHS, yr egwyddorion gorfodi y mae'r MHS wedi cytuno i'w mabwysiadu, a'r safonau a gaiff eu cymhwyso wrth gyflawni gwaith gorfodi. Mae'r polisi hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu ffurfiol y mae'r MHS yn eu cymryd yn rhesymol, yn gyson ac yn gymesur â'r risg i iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid.

### Camau Gorfodi Anffurfiol

5. Gwneir y rhan fwyaf o waith gorfodi o ddydd i ddydd drwy siarad â'r staff mewn safleoedd trwyddedig. Gall y rhai sy'n gweithio i'r MHS siarad â staff cynhyrchu yn uniongyrchol, ond mae'n rhaid iddynt hysbysu rheolwyr safleoedd trwyddedig hefyd o ddiffygion mawr. Mae cyngor/rhybuddion ysgrifenedig yn briodol lle y ceir mân achos o dorri'r Rheoliadau nad yw'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd y cyhoedd neu les anifeiliaid, neu os nad yw'r deiliad yn dilyn cyngor llafar blaenorol.

### Camau Gorfodi Ffurfiol

6. Mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiadau statudol oherwydd diffygion o ran hylendid, mewn perthynas â materion strwythurol anfoddhaol, er mwyn atal mathau penodol o offer rhag cael eu defnyddio, er mwyn gosod amodau ar y broses cynhyrchu cig, er mwyn terfynu'r gweithrediad yn llwyr, neu er mwyn atal arfer penodol sy'n groes i ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth o ran hylendid. Dim ond swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i gyhoeddi hysbysiadau statudol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol a all wneud hynny. Dylai hysbysiadau adlewyrchu'r diffyg cydymffurfiaeth yn gywir, dylai gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol yn gywir a dylai fod yn ddarllenadwy ac yn ddiamwys (neu fel arall gallai fod yn annilys o dan y gyfraith).

### Ystadegau Gorfodi'r MHS, 2003/04

7. Mae Bwrdd Rheoli'r MHS yn cael adroddiadau misol ar y camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol a gymerir gan y rhai sy'n gweithio i'r MHS mewn safleoedd trwyddedig.

8. Mae'n bwysig bod yr amrywiaeth lawn o opsiynau gorfodi ar gael i swyddog awdurdodedig, ac na ddylai awdurdod gorfodi fabwysiadu polisïau lle y pennir nifer yr hysbysiadau gwella i'w cyflwyno fel targed ar gyfer asesu perfformiad ei staff. Nid yw'r MHS wedi mabwysiadu polisi o'r fath.

**Erlyniadau**

9. Nid yw'r MHS yn cynnal erlyniadau ei hun – mae'n argymell camau erlyn i'r FSA (mewn achosion honedig o dorri'r Rheoliadau ynghylch iechyd y cyhoedd) neu i Defra (mewn achosion honedig o dorri'r Rheoliadau ynghylch lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu lladd).

10. Er mai dim ond pan fetho popeth arall o ran gorfodi y ceir argymhelliad i erlyn, mae rhai amgylchiadau lle y mae angen argymhelliad i erlyn ar unwaith. Ymhlith y rhain mae:

- torri rheolaethau Deunydd Risg Penodedig
- creulondeb i anifeiliaid
- achosion bwriadol amlwg o dorri'r Rheoliadau a/neu'r Ddeddf Diogelwch Bwyd gan arwain at risg uniongyrchol i iechyd y cyhoedd;
- rhwystro personél yr MHS sy'n cyflawni dyletswyddau swyddogol.

11. Gwneir argymhellion i erlyn gan Filfeddygon Swyddogol a chânt eu cyflwyno i Gyfarwyddwyr Rhanbarthol yr MHS, lle y cânt eu hadolygu gan Gynghorwyr Milfeddygol Rhanbarthol. Os ystyrir ei bod yn briodol cymryd camau erlyn, bydd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol yn cyflwyno'r achos i Adran Gyfreithiol yr FSA. Os bydd yn penderfynu derbyn yr achos, fel arfer gofynnir am ymchwiliad ffurfiol. Yn ystod 2003/04, cytunodd Adran Gyfreithiol yr FSA i gynnal ymchwiliadau yn dilyn 413 o gyfeiriadau yn ymwneud â 98 o gwmnïau.

12. Cyfreithwyr erlyn sy'n gweithredu ar ran yr FSA, neu Defra, sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol a ddylid erlyn ai peidio, yn unol â Chod Erlynwyr y Goron, gan ystyried unrhyw argymhelliad gan yr MHS. Yn yr Alban, y Procuradur Ffisgal sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad i erlyn. Bydd yn ystyried achosion, y mae Adran Gyfreithiol yr FSA yn ei hysbysu ohonynt ar sail argymhellion gan yr MHS, yn unol â'r Cod Erlyn a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal.

## Camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol a gymerir gan yr MHS yn ystod 2003/04

| Camau Ffurfiol | Nifer yr Hysbysiadau, Ebrill 2002 – Mawrth 2003 | Nifer yr Hysbysiadau, Ebrill 2003 – Mawrth 2004 |
|---|---|---|
| **Gorchymyn Gwahardd Brys** a gyflwynir o dan Adran 12 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 | Dim | Dim |
| **Hysbysiad Gwella** a gyflwynir o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 | 972 | 1,013 |
| **Hysbysiad math Rheoliad 10** (a gyflwynir o dan y rheoliadau hylendid cig gwahanol), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gamau brys gael eu cymryd i unioni achos neu achosion o dorri'r Rheoliadau | 682 | 565 |
| **Hysbysiad "Bwriadu"** (yn gymwys i'r Alban yn unig) sy'n hysbysu gweithredwr y safle o'r bwriad i gyflwyno Hysbysiad Gwella | 37 | 92 |

| Camau Anffurfiol | Nifer y Rhybuddion, Ebrill 2002 – Mawrth 2003 | Nifer y Rhybuddion, Ebrill 2003 – Mawrth 2004 |
|---|---|---|
| Rhybudd ysgrifenedig | 4,840 | 6,100 |

## Erlyniadau a gwblhawyd yn ystod 2003/04

| Corff erlyn | Erlyniadau a gwblhawyd | Llwyddiannus | Aflwyddiannus | Achosion a dynnwyd yn ôl neu nad aethant rhagddynt* |
|---|---|---|---|---|
| Yr Adran Iechyd ar ran yr FSA | 28 | 22 | 0 | 6 |
| Defra | 10 | 8 | 1 | 1 |
| Procuraduriaid Ffisgal (Yr Alban) | 1 | 1 | 0 | 0 |

* e.e. oherwydd daeth y cwmni i ben.

# Atodiad 7
## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **BSE** | Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol |
| **CIEH** | Sefydliad Siartredig dros Iechyd yr Amgylchedd |
| **DARD** | Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig |
| **Defra** | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| **DHSSPS** | Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (Gogledd Iwerddon) |
| **EFSA** | Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop |
| **EVM** | Grŵp Arbenigol ar Fitaminau a Mwynau |
| **FDF** | Ffederasiwn Bwyd a Diod |
| **FSA** | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| **FSANI** | Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon |
| **FSPB** | Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd |
| **HACCP** | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol: system rheoli diogelwch bwyd wedi'i dogfennu a gaiff ei hystyried yn gyffredinol fel y ffordd fwyaf effeithiol o reoli peryglon yn y broses trin a chynhyrchu bwyd. Ymagwedd strwythuredig ydyw yn seiliedig ar saith egwyddor y gellir eu cymhwyso'n hyblyg mewn busnesau bwyd o bob maint er mwyn sicrhau bod rheolaethau cymesur yn seiliedig ar risgiau ar waith ac er mwyn sicrhau y caiff bwyd diogel ei gynhyrchu. |
| **HPA** | Awdurdod Diogelu Iechyd |
| **OTM** | Dros Dri Deg Mis |
| **SACN** | Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faethiad |
| **SDA** | Cytundeb Darparu Gwasanaethau |
| **SFAC** | Pwyllgor Cynghorol yr Alban ar Fwyd |
| **SFBB** | Safer food better business |
| **SRM** | Deunydd Risg Penodedig |
| **ZAP** | Cynllun Gweithredu Milheintiau |
| **UE** | Undeb Ewropeaidd |


Os oes cwestiynau gennych ynghylch yr Adroddiad hwn, cysylltwch â
John Shepherd drwy anfon ebost at **john.shepherd@foodstandards.gsi.gov.uk** neu drwy anfon ffacs i 020 7276 8376.

Cysylltiadau gwefan:
**www.food.gov.uk**
**www.salt.gov.uk**
**www.eatwell.gov.uk**

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Cyfrifon Adnoddau Cyfunol

Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | 36 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 43 |
| Datganiad o reolaeth fewnol | 44 |
| Tystysgrif archwilio – Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) | 47 |
| Crynodeb o alldro'r adnoddau | 49 |
| Datganiad cost weithredol | 51 |
| Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig | 51 |
| Mantolen | 52 |
| Datganiad llif arian | 53 |
| Adnoddau yn ôl nodau ac amcanion adrannol | 54 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 55 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys: | |
| San Steffan | 73 |
| Yr Alban | 74 |
| Gogledd Iwerddon | 75 |
| Cymru | 76 |
| Cyfunol | 77 |

# Adroddiad Blynyddol

## Paratoi Cyfrifon

Paratowyd cyfrifon adnoddau Cyfunol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys. Gosodir yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd o dan Adran 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, a gosodir y cyfrifon o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Ariennir yr FSA yn rhannol gan awdurdodau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Atodir y cyfarwyddiadau cyfrifon perthnasol oddi wrth yr awdurdodau hyn a pharatowyd datganiadau ar wahân ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Cefndir Statudol

Sefydlwyd yr FSA ar 1 Ebrill 2000 gan Ddeddf Seneddol (Deddf Safonau Bwyd 1999). Prif ddiben yr asiantaeth yw:

*'Diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a all godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.'*

Ar 1 Ebrill 2000, daeth y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn asiantaeth weithredol yr FSA. Sefydlwyd yr MHS yn wreiddiol ar 1 Ebrill 1995 fel asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

## Nodau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Noda'r Cynllun Strategol ar gyfer 2001/06 y blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd, gwybodaeth gyhoeddus, labelu a dewis, maeth a deiet a gorfodi cyfraith bwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Ein nod yw cael ein hymddiried gan bobl fel ffynhonnell fwyaf dibynadwy'r DU o gyngor a gwybodaeth am fwyd. Rydym am sicrhau bod y bwyd a fwyteir gan bobl yn ddiogel a'i wneud yn fwy diogel ac yn haws i bobl ddewis deiet iach.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan ein Cynllun Strategol ein nod yw:

- lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% drwy wella diogelwch bwyd ar hyd y gadwyn fwyd;
- helpu pobl i wella eu hiechyd deietegol;
- hyrwyddo system labelu onest a llawn gwybodaeth i helpu defnyddwyr;
- hyrwyddo arferion gorau o fewn y diwydiant bwyd;
- gwella'r broses o orfodi cyfraith bwyd;
- cael pobl i ymddiried yn yr hyn a wnawn a'r ffordd y'i gwnawn.

Rydym yn ymrwymedig i'r tri gwerth craidd hyn sy'n rheoli'r cyfan a wnawn sef:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf;
- bod yn agored ac yn hygyrch;
- bod yn llais annibynnol.

## Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

*a) Cyfrifoldebau'r FSA*

Mae gan yr FSA gylch gwaith eang sy'n cynnwys diogelu iechyd y cyhoedd, darparu gwybodaeth a chyngor, sicrhau bod cyfraith bwyd yn effeithiol ac yn cael ei orfodi, comisiynu ymchwil a goruchwyliaeth mewn perthynas â chynnwys bwyd, datblygu polisi a chynrychioli'r DU ar faterion bwyd yn Ewrop.

Mae gwaith yr FSA yn cynnwys diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd gyfan, gan gynnwys:

- difwynwyr bwyd – diffinio lefelau rhesymol, rheoli risg a pholisi;
- ychwanegion bwyd, pecynnu a bwydydd newydd – gan gynnwys asesu diogelwch a goruchwyliaeth;
- diogelwch microbiolegol a chysondeb hylendid bwyd gan gynnwys darparu cyngor ar reoli achosion o salwch a gludir gan fwyd ac atal salwch a gludir gan fwyd;
- arolygu a gorfodi - camau gweithredu i ddiogelu defnyddwyr;
- monitro gwaith gorfodi gan awdurdodau lleol – archwilio ac annog awdurdodau lleol i wella eu perfformiad;
- plaladdwyr, milfeddyginiaethau a bwyd anifeiliaid – asesu goblygiadau o ran diogelwch bwyd;
- labeli a safonau bwyd – datblygu polisi, gwella dewis y defnyddiwr a chynrychioli'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd; a
- maeth – darparu cyngor ac arweiniad ar gynnwys maethol bwyd, a darparu gwybodaeth am ddeiet iach a chytbwys, er mwyn helpu i hyrwyddo a diogelu iechyd y cyhoedd.

*b) Beth rydym wedi ei wneud*

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr FSA nifer o lwyddiannau yn cynnwys y canlynol:

- cyhoeddwyd yr arolwg o agweddau defnyddwyr ym mis Ionawr 2004. Rhoddodd yr arolwg wybodaeth am bryderon, gwybodaeth, ymddygiad ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o faterion bwyd. Dyfeisiwyd yr arolwg i helpu i olrhain newidiadau yn safbwyntiau defnyddwyr o ran materion bwyd, a'n helpu i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o safbwyntiau defnyddwyr. Roedd cynnydd mesuradwy yn yr hyder yn rôl yr FSA i ddiogelu iechyd o gymharu â'r ffigurau sylfaenol. Mae canlyniadau llawn yr arolwg ar gael ar ein gwefan www.food.gov.uk/yourviews/surveys/foodsafety-nutrition-diet;
- mae ffigurau dros dro yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yn dangos gostyngiad o tua 18% mewn clefydau a gludir gan fwyd o gymharu â'r ffigur sylfaenol ar gyfer 2000. Mae hyn yn awgrymu bod y targed wedi'i gyflawni ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl, er na chaiff y ffigurau dros dro hyn eu cadarnhau tan mis Rhagfyr 2004;
- rydym wedi hyrwyddo hylendid bwyd a bwyta'n iach i blant ysgol. Ym mis Tachwedd 2003, noddwyd lansiad y 'bws coginio' gennym drwy'r Design Dimension Educational Trust a fydd yn canolbwyntio ar ymweld ag ysgolion mewn ardaloedd sy'n fwy difreintiedig yn gymdeithasol;
- roedd y gwerthusiad ffurfiol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r ymgyrch deledu ynglŷn â choginio twrci Nadolig yn dda, a chafwyd mwy o sylw yn y wasg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, cyflwynwyd ein ffug sioe goginio boblogaidd 'Bad Food Live' yn Good Food Show y BBC;
- rydym wedi parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol er mwyn helpu i gyflawni gwell cysondeb ac effeithiolrwydd wrth orfodi cyfraith bwyd. Rydym wedi parhau â'n rhaglen o seminarau a hyfforddiant diweddaru ar gyfer swyddogion gorfodi awdurdodau lleol – cynhaliwyd 22 o gyrsiau yn ystod 2003/04 yn cwmpasu meysydd fel pasteureiddio ar ffermydd, glanhau cregynbysgod a Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HAPPC). Sefydlwyd y Tasglu Cig Anghyfreithlon, sy'n cynnwys swyddogion awdurdod lleol a staff yr FSA, i roi cyngor i awdurdodau lleol ar weithredoedd yn ymwneud â chig anghyfreithlon;
- aseswyd 771 o ddigwyddiadau diogelwch bwyd posibl gennym yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a rhoddwyd 82 o rybuddion perygl i awdurdodau lleol;
- rydym wedi cyhoeddi adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig ag effaith hyrwyddiadau bwyd ar ymddygiad bwyta plant, a chynhyrchwyd dogfen drafod sy'n nodi amrywiaeth o opsiynau polisi i fynd i'r afael â'r mater hwn;
- rydym wedi cyhoeddi canlyniadau'r Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol ar oedolion, gan gyflwyno data ar faeth mewn perthynas â mesuriadau fel taldra, pwysau a phwysedd gwaed;
- rydym wedi monitro disgrifiadau ar labeli fel 'ffres', 'naturiol' a 'thraddodiadol' ac wedi cyhoeddi data o'r arolwg sy'n nodi nad yw llawer o gynhyrchwyr yn dilyn y cyngor a gyhoeddir. Byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid ar sut i gynyddu nifer y rhai sy'n dilyn y cyngor hwn;
- mae ein hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig, yn diogelu iechyd y cyhoedd drwy orfodi rheoliadau hylendid ac archwilio teg, cyson ac effeithiol mewn lladd-dai a safleoedd torri trwyddedig yn y DU.

*c) Gwariant ar adnoddau yn 2003/04*

Dangosir y gymhariaeth rhwng y gwariant gwirioneddol ar adnoddau a'r Amcangyfrif isod:

| | 2003/04 | |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Gwariant |
| | £m | £m |
| Pencadlys FSA San Steffan | 108.4 | 99.2 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 28.0 | 24.4 |
| **Cyfanswm yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan** | **136.4** | **123.6** |
| FSA Yr Alban | 6.4 | 6.3 |
| FSA Cymru | 2.2 | 2.2 |
| FSA Gogledd Iwerddon | 2.9 | 2.9 |
| **Cyfanswm yr FSA** | **147.9** | **135.0** |

Dangosir y ffigurau cymharol ar gyfer 2002/03 isod:

| | 2002/03 | |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Gwariant |
| | £m | £m |
| Pencadlys FSA San Steffan | 112.3 | 95.0 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 25.0 | 25.0 |
| **Cyfanswm yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan** | **137.3** | **120.0** |
| FSA Yr Alban | 5.5 | 4.5 |
| FSA Cymru | 2.4 | 2.1 |
| FSA Gogledd Iwerddon | 1.5 | 1.4 |
| **Cyfanswm yr FSA** | **146.6** | **128.0** |

Cost net yr FSA Gyfunol oedd £135m o gymharu â'r arian a oedd ar gael hyd at 31/03/04 sef £148m. Mae'r FSA yn ei chyfanrwydd yn rheoli ei gwariant dros Gyfnod Adolygiad o Wariant y Llywodraeth o dair blynedd. Caiff y gwarged hwn ei gario ymlaen, gyda chytundeb y Trysorlys, i 2004/05 er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau cyllido yn y dyfodol, a nodwyd eisoes.

Cost net yr MHS oedd £24.4m, a ostyngodd o £25.0m yn 2002/03. Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig, fel asiantaeth weithredol, yn paratoi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi dadansoddiad manwl o gostau ac incwm, yn ogystal â pherfformiad yn erbyn targedau. Mae adroddiad blynyddol a chyfrifon yr MHS ar gael o'r Llyfrfa.

Ceir esboniad llawn, yn rhoi manylion y gwariant o'i gymharu â'r Amcangyfrif yn Atodlen 1 y cyfrifon hyn. Rhydd Atodlenni 2 i 5 y datganiad cost weithredol, y fantolen, y datganiad llif arian, a'r adnoddau yn ôl nodau adrannol yn y drefn honno gyda manylion ychwanegol yn cael eu darparu yn y nodiadau i'r cyfrifon sy'n dilyn yr atodlenni.

*ch) Rhoi Adroddiad ar Berfformiad*

Roedd Adroddiad Adrannol yr FSA yng Ngwanwyn 2003 yn cynnwys amcangyfrif yr FSA o adnoddau ar gyfer 2003/04 ynghyd â thablau craidd fel y nodwyd gan y Trysorlys. Rhoddodd Adroddiad Adrannol yr FSA yn 2004 fanylion ar y cynnydd a wneir i gyrraedd targedau ein Cytundeb Darparu Gwasanaethau, a bodloni gofynion Moderneiddio Llywodraeth. Mae copïau o'r adroddiadau hyn ar gael o'r Llyfrfa neu o'n gwefan. Mae'r wefan hefyd yn darparu data ar berfformiad ar gyfer ein swyddfeydd datganoledig.

## Strwythur a Threfn

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth. Mae'r staff yn atebol drwy Brif Weithredwr i'r Bwrdd, yn hytrach nag yn uniongyrchol i Weinidogion. Penodwyd y Prif Weithredwr gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil o dan reolau Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 aelod. Penodwyd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion yr Alban, a Gweinidogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Gogledd Iwerddon. Penodwyd dau aelod o'r Bwrdd gan Weinidogion yr Alban, un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac un gan Weinidogion Swyddfa Gogledd Iwerddon. Mae gan yr aelodau hyn gyfrifoldebau arbennig dros faterion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Penodwyd yr wyth aelod arall gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr FSA, am sicrhau y cyflawnir rhwymedigaethau cyfreithiol ac am sicrhau bod penderfyniadau a chamau a gymerir yn ystyried cyngor gwyddonol yn ogystal â buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Seilir y cynnydd blynyddol yng nghydnabyddiaeth Aelodau'r Bwrdd ar yr hyn a argymhellir ar gyfer deiliaid swyddi gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion. Cynyddir cyflogau staff yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) yn unol â system talu ar sail perfformiad ac adolygu Swyddfa'r Cabinet yn ganolog (SCS).

Mae'r Bwrdd yn atebol i'r Senedd drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, i Weinidogion Iechyd yng Nghymru a'r Alban ac i'r Gweinidog dros Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon.

## Bwrdd yr FSA

Yn ystod y flwyddyn, bu'r canlynol yn aelodau o Fwrdd allanol yr FSA:

| | |
|---|---|
| Syr John Krebs | Cadeirydd yr FSA |
| Julia Unwin | Dirprwy Gadeirydd yr FSA (penodwyd ar 14 Rhagfyr 2003) |

## Aelodau eraill y Bwrdd:

| | |
|---|---|
| Ann Hemingway | Dirprwy Gadeirydd Dros Dro yr FSA (tan 13 Gorffennaf 2003) a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru. |
| Michael Gibson | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori yr Alban ar Fwyd |
| Michael Walker | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon. |
| Richard Ayre | |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland | |
| Robert Rees | Gadawodd y Bwrdd ar 28 Chwefror 2004 ar ddiwedd cyfnod ei benodiad |
| Vernon Sankey | |
| Sandra Walbran | |
| Iain MacDonald | |
| Chrissie Dunn | |
| Dr Sati Ariyanayagam | |
| Yr Athro Andrew Miller | |

Penodwyd Nelisha Wickremasinghe i'r Bwrdd ar ôl diwedd y flwyddyn. Gadawodd Michael Walker y Bwrdd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd Syr John Krebs yn ymddiswyddo fel Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Ebrill 2005. Caiff ei olynydd ei benodi gan Weinidogion Iechyd yn dilyn gweithdrefn ddewis yn unol ag egwyddorion Nolan, a oruchwylir gan Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus.

Mae'r FSA yn cadw cofrestr o fanylion a buddiannau Aelodau'r Bwrdd. Mae'r gofrestr ar gael o'n gwefan www.food.gsi.gov.uk/aboutus/ourboard/boardmem

## Tîm Rheoli'r FSA

Cyflawnir y gwaith o reoli'r FSA o ddydd i ddydd drwy'r Bwrdd Rheoli Gweithredol (EMB). Roedd yr aelodaeth yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dr Jon Bell | Prif Weithredwr (o 2 Ebrill 2003) a Swyddog Cyfrifyddu'r Adran |
| Pat Stewart | Dirprwy Brif Weithredwr (o 9 Ebrill 2003) a Chyfarwyddwr Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol |
| David Statham | Cyfarwyddwr Gorfodi a Safonau Bwyd |
| Dr Andrew Wadge | Cyfarwyddwr Polisi ar Ddiogelwch Bwyd (o 4 Awst 2003) |
| Neil Martinson | Cyfarwyddwr Cysylltiadau (ar gyfnod sabothol o 9 Chwefror 2004 am weddill y flwyddyn ariannol) |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Brian Davies | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (o 21 Tachwedd 2003) |
| Allan Hutton | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Dr George Paterson | Cyfarwyddwyr FSA yr Alban |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr FSA Cymru (tan 20 Gorffennaf 2003 – seibiant gyrfa am weddill y flwyddyn ariannol) |
| Steve Wearne | Cyfarwyddwr FSA Cymru Dros Dro (am weddill y flwyddyn) |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr FSA Gogledd Iwerddon |
| Chris Lawson | Prif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig |

Penodwyd pob uwch swyddog o dan y rheolau a bennwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Datgelir manylion am gyflogau a phensiynau'r Bwrdd a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol yn Nodyn 3 i'r cyfrifon.

## Pwyllgorau Cynghori yr FSA

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, mae gan yr FSA bwyllgorau cynghori ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff cynghori annibynnol i'r FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA drwy statud ystyried eu cyngor yn ei waith. Rhestrir Aelodau'r Pwyllgorau isod:

**Yr Alban – Aelodau'r Pwyllgor Cynghori**

Michael Gibson (Cadeirydd)
Yr Athro William Reilly
Yr Athro Hugh Pennington
Wilma Odell
Yr Athro Philip Thomas
Catherine Brady
Yr Athro Andrew Miller (Dirprwy Gadeirydd)
Anne Campbell
Dr Marnie Somerville
Ross MacDonald
William Davidson

**Cymru – Aelodau'r Pwyllgor Cynghori**

Ann Hemingway (Cadeirydd)
Dr David Casemore
Yr Athro Margaret Griffiths
Mrs Dilwen Philips
David Smith
Yr Athro Robert Bell
Mrs Gilli Davies
Yr Athro James Parry
Yr Athro Robert Pickard

**Gogledd Iwerddon – Aelodau'r Pwyllgor Cynghori**

Michael Walker (Cadeirydd)
Mrs Patricia Grace McCusker
Yr Athro David McDowell
Ms Maria McGuinness
David Mark
William Taylor
David Collins
Samuel Miskelly
David Stewart
Dr Vinod Tohani

## Ariannu'r FSA

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth. Ariennir gwaith Pencadlys yr FSA a'r MHS ym Mhrydain Fawr drwy gyflenwad ar sail adnoddau. Ariennir costau'r FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy'r awdurdod datganoledig perthnasol.

## Y Gwasanaeth Hylendid Cig

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn asiantaeth weithredol yr FSA. Nod yr MHS yw diogelu iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid pan gânt eu lladd drwy orfodi deddfwriaeth yn effeithiol. Ei brif swyddogaethau yw darparu gwasanaeth archwilio cig i bob safle cig trwyddedig, ac i sicrhau y bodlonir y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyfer cynhyrchu cig yn lân ac ar gyfer lles anifeiliaid pan gânt eu lladd. Prif weithgareddau'r MHS yw:

- gorfodi rheolau hylendid ar safleoedd cig ffres trwyddedig;
- darparu archwiliadau cig a rheolaethau ar nodau iechyd ar safleoedd cig coch, cid dofednod a chig adar hela trwyddedig;
- gorfodi rheolaethau hylendid mewn cynhyrchion cig, safleoedd paratoi briwgig a chig, sydd wedi eu cyd-leoli â lladd-dai trwyddedig; a
- gorfodi, ar safleoedd cig ffres trwyddedig, reolaethau dros SRM a sgîl-gynhyrchion anifeiliaid eraill, a rheolaethau sy'n atal cig o wartheg dros 30 mis oed rhag cael ei werthu.

Mae cyfrifon yr FSA ar gyfer adnoddau wedi eu hariannu gan San Steffan yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer yr MHS. Mae'r MHS wedi paratoi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun sy'n rhoi manylion ychwanegol.

## Perthynas â Staff

Mae'r FSA yn credu bod sicrhau cyfranogiad llawn pob aelod o staff yn ei gwaith yn hollbwysig. Anogir staff i fod yn flaengar a meddwl am ffyrdd newydd o weithio i wella gwaith yr FSA. Mae uwch reolwyr yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr undebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd agored rheolaidd y caiff pob aelod o staff eu gwahodd iddynt a'u hannog i'w mynychu. Dosberthir '"FSA Matters", newyddlen fewnol, at bob aelod o staff bob wythnos. Mae'r staff hefyd yn cael "FSA News", a gyhoeddir pob dau fis. Mae gan staff yr MHS ei newyddlen chwarterol eu hunain sef "MHS Update".

## Pensiynau

Mae cyflogeion yr FSA yn weision sifil ac yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun pensiwn Llywodraeth Ganolog nas ariennir. Gwneir taliadau pensiwn drwy gyfrif adnoddau'r PCSPS.

Nid yw Bwrdd yr FSA yn weision sifil ac felly nid ydynt yn aelodau o'r PCSPS. Fodd bynnag, mae gan rai Aelodau'r Bwrdd drefniadau pensiwn tebyg yn annibynnol ar y PCSPS.

Mae gan yr MHS ddau gynllun pensiwn ar wahân. Mae'r mwyafrif o'r staff yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Bensiwn Llundain (LPFA). Mae cyflogeion eraill yr MHS yn aelodau o'r PCSPS.

## Cyfle Cyfartal

Nod yr FSA yw bod yn gyflogwr modern a theg, ac mae'n cydnabod ac yn annog potensial gweithlu amrywiol. Mae'r FSA yn ymrwymedig i gyfle cyfartal ac yn anelu at sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar ran yr FSA neu iddi yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. O ganlyniad, ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw gyflogai nac ymgeisydd am swydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail hil, rhyw, statws priodasol, cenedligrwydd, ethnigrwydd, lliw, crefydd, credoau gwleidyddol, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, patrwm gwaith neu safle yn y sefydliad. Mae'r FSA yn gweithredu cynllun cyfweld gwarantedig i bobl ag anableddau (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995) sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y penodiad.

## Polisi Talu Cyflenwyr

Polisi'r Llywodraeth yw y dylai pob adran ac asiantaeth dalu pob anfoneb nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, neu'n unol â thermau cytundebol cytûn os nodir fel arall. Yn ystod y flwyddyn talwyd dros 96% o'r anfonebau ar amser.

## Polisi Amgylcheddol

Rydym yn llwyr ymrwymedig i arbed ynni, dŵr ac adnoddau eraill a lleihau gwastraff. Mae adeilad ein pencadlys, Aviation House, yn dilyn polisi ailgylchu gweithredol. Rydym hefyd yn gallu monitro effeithlonrwydd ynni Aviation House drwy feddalwedd system reoli'r adeilad.

## Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi nac yn defnyddio deilliadau neu offerynnau ariannol eraill fel y'u disgrifir yn FRS 13.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 5 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r dystysgrif archwilio ar dudalennau 47 a 48.

## Digwyddiadau pwysig ers diwedd y flwyddyn ariannol.

Dim.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**28 Medi 2004**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan adran 5 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid gwneud hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys, sy'n manylu ar yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddelir, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd a wnaed o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Adran, alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd at amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Adran a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:

   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

   b. gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;

   ch. paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

5. Yn ogystal, mae Trysorlys EM wedi penodi Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth (Chris Lawson) i fod yn atebol am y rhannau hynny o gyfrifon yr Adran sy'n ymwneud ag adnoddau'r Gwasanaeth Hylendid Bwyd a'r asedau, y rhwymedigaethau a'r llifau arian cysylltiedig. Nid yw'r penodiad hwn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon yr Adran.

6. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting. O dan delerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, nodir yn ysgrifenedig y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran a Swyddog Cyfrifyddu Asiantaeth yr MHS, ynghyd â'u priod gyfrifoldebau.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**28 Medi 2004**

# Datganiad o reolaeth fewnol

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r asiantaeth yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys, ac rwyf hefyd yn gweithredu fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod gweithgareddau'r swyddi hyn yn cael eu hariannu drwy'r awdurdodau datganoledig, maent yn parhau'n rhan o FSA y Deyrnas Unedig. Mae gan yr FSA un asiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig. Penodwyd Prif Weithredwr yr MHS fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth. Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, mae'n atebol i mi ac i'r Senedd am ddefnydd yr MHS o adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr FSA yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf fi ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a sefydlwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn gyda chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y Pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- prosesau cynllunio busnes ac ariannol (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- deiliaid cyllidebau yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- deiliaid cyllidebau yn llofnodi datganiad o sicrwydd atebolrwydd chwarterol i gadarnhau cydymffurfiaeth â phrosesau a gweithdrefnau;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan ddeiliaid cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar reolaethau mewnol a chynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r MHS;
- gweithdai gyda Phenaethiaid Is-adrannau a Chyfarwyddwyr i ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol ac ymgorffori'r broses ymhellach ar draws yr FSA;
- mae tudalen ar Lywodraethu Corfforaethol wedi'i lansio ar Fewnrwyd yr FSA. Mae'r dudalen hon yn cynnwys diffiniad o Lywodraethu Corfforaethol a chysylltiadau â'r holl ganllawiau a'r cyfarwyddyd sydd ar gael. Caiff y dudalen ei datblygu ymhellach yng ngoleuni adborth gan gwsmeriaid a gofynion newydd;

- mae pob deiliad cyllideb wedi derbyn copi personol o lawlyfr cyllid yr FSA.

## 2 Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i'r FSA o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a rheoli'r risgiau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod ar waith yn yr FSA am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3 Y gallu i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Trafodir y gofrestr o risgiau strategol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Mae perchenogion risgiau hefyd yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau o leiaf unwaith bob chwarter ac maent yn cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig i'w gyflwyno i'r Prif Weithredwr.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r hyfforddiant ym maes cynllunio busnes drwy gynnwys canllawiau ychwanegol ar nodi a rheoli risgiau a materion llywodraethu corfforaethol.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4 Y fframwaith risgiau a rheolaeth

Yn yr FSA, y prif brosesau sydd ar waith ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau yw:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi cyfraith diogelwch bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr FSA i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Rydym yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'r gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Mae Penaethiaid Is-adrannau yn cynnal adolygiad ffurfiol o'u cynlluniau busnes a'r risgiau busnes bob chwarter ac yn llofnodi datganiad i gadarnhau bod yr adolygiad wedi'i gynnal. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a hyfforddiant a dargedwyd (gan gynnwys rheoli risgiau) i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr FSA yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r FSA yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn bob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r FSA, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr FSA a chynllunio ymlaen llaw; a rhoi adborth i'r FSA ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5 Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr FSA sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i fynd i'r afael â diffygion a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. O ganlyniad i waith ein harchwilwyr mewnol ac adolygiad interim gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cymerwyd amrywiaeth o fesurau pellach yn ystod y flwyddyn i gryfhau'r rheolaethau.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001-06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o bum mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Yn ystod y flwyddyn, cododd mater pwysig yn ymwneud â rheolaeth fewnol yn ein hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig. Daeth methiant i brofi canran fach o wartheg 'mewn perygl' yn ystod 2003/04 i'r amlwg ym mis Ebrill/Mai 2004. Sefydlwyd ymchwiliad i benderfynu p'un a gafodd y methiant ei achosi gan broblem yn ymwneud â rheolaeth fewnol. Nid oes i'r mater hwn unrhyw ganlyniadau ariannol ar gyfer y cyfrifon.

**Jon Bell**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**28 Medi 2004**

# Tystysgrif archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 49 i 72 o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u diwygiwyd drwy ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifyddu a nodir ar dudalennau 55 i 56.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 43 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys y Cyfrifon. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gawsant eu paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm ymhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Adroddiad Blynyddol, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y Cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 44 i 46 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad o Reolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, p'un a yw Datganiad o Reolaeth Fewnol y Swyddog Cyfrifyddu yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i mi hefyd lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu ei gweithdrefnau risgiau a rheoli.

## Sail y farn archwilio

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau pwysig a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

# Tystysgrif archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd (Cyfunol) ar 31 Mawrth 2004 a'r alldro net o ran adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan y Trysorlys; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

22 Hydref 2004

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

cyfrifon

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 1

## Cyfrifon cyfunol 2003/04

### Crynodeb o alldro'r adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | 2003/04 | | | | | | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig (-gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau | | | | | | | | |
| Tŷ'r Cyffredin | 191,638 | (55,270) | 136,368 | 160,330 | (36,724) | 123,606 | 12,762 | 120,036 |
| Senedd yr Alban | 6,372 | - | 6,372 | 6,311 | - | 6,311 | 61 | 4,533 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 2,277 | - | 2,277 | 2,214 | - | 2,214 | 63 | 2,060 |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | 2,884 | - | 2,884 | 2,867 | - | 2,867 | 17 | 1,376 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **203,171** | **(55,270)** | **147,901** | **171,722** | **(36,724)** | **134,998** | **12,903** | **128,005** |
| | | | | | | | | |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | | **147,794** | | | **134,689** | **13,105** | **121,900** |

Crynodeb o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

Nid ildiwyd unrhyw ddyraniadau cymorth dros ben na derbyniadau ychwanegol y Gronfa Gyfunol a oedd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

**Esboniad o'r amrywiad rhwng Amcangyfrif ac alldro (cyfanswm yr adnoddau net):**
Roedd cyfanswm gwariant adnoddau'r FSA am y flwyddyn tua £13m yn llai na darpariaeth yr Amcangyfrif. Mae'r FSA yn rheoli ei gwariant dros gyfnod Adolygiad y Llywodraeth o Wariant sef tair blynedd. Bydd y tanwariant ar gyfer 2003-04, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cael ei gario ymlaen i 2004-05 i ariannu gweithgaredd arfaethedig parhaol yr FSA.

**Esboniad o'r amrywiad rhwng yr Amcangyfrif (gofyniad arian parod net) a'r alldro (gofyniad arian parod net):**
Gweler uchod.

## Cysoni Adnoddau â'r Gofyniad Arian Parod

| | Nodyn | | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Adnoddau net** | | 147,901 | 134,998 | 12,903 | 128,005 |
| Cyfalaf: | | | | | |
| Caffael asedau sefydlog | 9 + 10 | 2,659 | 3,287 | (628) | 887 |
| **Dyraniad cymorth anweithredol** | | - | (61) | 61 | (52) |
| **Addasiadau croniadau:** | | | | | |
| Eitemau anariannol | 4 | (2,766) | (3,723) | 957 | (2,640) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod | 11 | - | (176) | 176 | (4,498) |
| Defnyddio darpariaeth | 15 | - | 364 | (364) | 198 |
| **Gofyniad Arian Parod Net (Atodlen 4)** | | 147,794 | 134,689 | 13,105 | 121,900 |

gweithredol

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 2

## Datganiad cost weithredol 2003/04

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | £000oedd | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddol** | | | | |
| Costau Staff | 2 | 26,046 | | 24,349 |
| Costau Gweinyddol Eraill | 4 | 18,210 | | 16,336 |
| **Costau Gweinyddol Gros** | | | **44,256** | 40,685 |
| Incwm Gweithredol | 6 | | **(132)** | (196) |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **44,124** | 40,489 |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | |
| **Cais am adnoddau:** | | | | |
| Costau staff | 2 | 47,554 | | 44,841 |
| Gwariant | 5 | 79,912 | | 79,914 |
| | | | **127,466** | 124,755 |
| llai: Incwm | 6 | | (36,592) | (37,239) |
| **Costau Net y Rhaglen** | 5 | | **90,874** | 87,516 |
| **Cost Weithredol Net** | 7 & 8 | | **134,998** | 128,005 |
| **Alldro Net yr Adnoddau** | 7 | | **134,998** | 128,005 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.

## Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Enillion net wrth ailbrisio asedau sefydlog | 17 | 55 | 508 |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig am y flwyddyn** | | **55** | 508 |

mantolen

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 3

## Mantolen

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | £000oedd | 31 Mawrth 2004 £000oedd | 31 Mawrth 2003 £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | | |
| Asedau anniriaethol | 9 | 880 | | 286 |
| Asedau diriaethol | 10 | 7,092 | | 6,510 |
| | | | 7,972 | 6,796 |
| Dyledwyr (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn) | 12 | | 148 | 238 |
| Asedau cyfredol: | | | | |
| Dyledwyr | 12 | 12,695 | | 11,590 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 13 | 4,439 | | 5,456 |
| | | 17,134 | | 17,046 |
| Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 14 | (28,862) | | (28,395) |
| Asedau Cyfredol net | | | (11,728) | (11,349) |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | (3,608) | (4,315) |
| Credydwyr (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn) | 14 | | (4,104) | (4,398) |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | | (1,146) | (329) |
| | | | (8,858) | (9,042) |
| **Ecwiti'r Trethdalwr** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 16 | | (9,482) | (9,611) |
| Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 17 | | 624 | 569 |
| | | | (8,858) | (9,042) |

Dr Jon Bell
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2004

llif arian parod

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 4

## Datganiad llif arian parod

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol (a) | | (131,464) | (121,116) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol (b) | | (3,226) | (835) |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (c) | | 122,865 | 111,047 |
| Ariannu o'r Awdurdodau Datganoledig (c) | | 10,806 | 7,713 |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod** | 13 | **(1,019)** | (3,191) |

(a) Cysoni cost weithredol â'r llifau arian parod gweithredol

| | Nodyn | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Cost Weithredol Net | | 134,998 | 128,005 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | 4 | (3,723) | (2,640) |
| Addasiadau ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod | 11 | (175) | (4,447) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 15 | 364 | 198 |
| **All-lif/(mewnlif) arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **131,464** | 121,116 |

(b) Dadansoddi gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | Nodyn | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog anniriaethol | 9 | 764 | 96 |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol | 10 | 2,523 | 791 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | 9 & 10 | (61) | (52) |
| **All-lif/(mewnlif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **3,226** | 835 |

(c) Dadansoddi'r dull ariannu a chysoni â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|---|
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) | | 122,865 | 111,047 |
| O Awdurdodau Datganoledig | | 10,805 | 7,713 |
| **Cyllido Net** | | **133,670** | 118,760 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn arian parod | | 1,019 | 3,191 |
| Addasiadau ar gyfer taliadau a derbyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflenwi | | - | (51) |
| **Gofyniad arian parod net (Atodlen 1)** | | **134,689** | 121,900 |

adnoddau

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 5

## Adnoddau yn ôl Nodau ac Amcanion Adrannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | 2003/04 | | | 2002/03 Ffigurau wedi'u hailddatgan yn unol â nodau 2003/04 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd Gros | £000oedd Incwm | £000oedd Net | £000oedd Gros | £000oedd Incwm | £000oedd Net |
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 15,568 | (813) | 14,755 | 17,158 | (846) | 16,312 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 119,051 | (35,834) | 83,217 | 31,305 | (34,947) | (3,642) |
| Nod 3<br>Gwella dewis a deiet defnyddwyr | 37,103 | (77) | 37,026 | 116,977 | (1,642) | 115,335 |
| **Costau gweithredol net** | **171,722** | **(36,724)** | **134,998** | **165,440** | **(37,435)** | **128,005** |

| | 2002/03 | | | 2003/04 Ffigurau wedi'u hailddatgan yn unol â nodau 2002/03 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd Gros | £000oedd Incwm | £000oedd Net | £000oedd Gros | £000oedd Incwm | £000oedd Net |
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 23,272 | (63) | 23,209 | 23,435 | (38) | 23,397 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 39,140 | (1,278) | 37,862 | 40,135 | (1,258) | 38,877 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 103,028 | (36,094) | 66,934 | 108,152 | (35,428) | 72,724 |
| **Costau gweithredol net** | **165,440** | **(37,435)** | **128,005** | **171,722** | **(36,724)** | **134,998** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

1 Polisïau Cyfrifyddu

1.1 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau 2003-04 (RAM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y RAM yn dilyn arferion cyfrifyddu i gwmnïau a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU (UK GAAP) i'r graddau y maent yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Lle mae'r RAM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu a ystyrid yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig yr adran at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.2 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi eu haddasu i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog, a stociau, lle bo hynny'n berthnasol, ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.3 Sail y Cyfuno

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cyfuno'r FSA graidd a'i hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS).

Yn ogystal, mae cyfrifon cyfunol yr FSA yn ymgorffori canlyniadau gan swyddfeydd datganoledig yr FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fe'u hariennir yn uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban, a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn y drefn honno. Mae'r FSA graidd a'r MHS yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon eu hunain.

Nid yw cyfarwyddiadau'r cyfrifon ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn galw am baratoi mantolenni ar wahân. O ganlyniad, mae'r cyfrifon cyfunol yn cynnwys asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon nad ydynt wedi eu nodi'n unigol yn eu datganiadau ariannol.

1.4 Asedau Sefydlog Anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol gyda chost prynu o fwy na £2,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill a dosbarthiad) eu cyfalafu a'u hailbrisio ar 1 Ebrill bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegeion priodol.

1.5 Asedau Sefydlog Diriaethol

Caiff asedau sefydlog diriaethol unigol neu mewn grŵp gyda chost prynu o fwy na £2,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill a dosbarthiad) eu cyfalafu a'u hailbrisio ar 1 Ebrill bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegeion priodol.

Ailddatgenir asedau sefydlog i'w gwerth cyfredol bob blwyddyn. Nid yw'r FSA yn berchen ar unrhyw dir neu adeiladau ar hyn o bryd. Caiff asedau gweithredol nad ydynt yn gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio yn ôl gwerth ar y farchnad agored lle mae'n hysbys, neu ar sail cost adnewyddu wedi ei dibrisio lle nad yw gwerth y farchnad yn hysbys. Fel arfer defnyddir mynegeion cyhoeddedig sy'n briodol i gategori'r ased er mwyn amcangyfrif y gwerth.

Cafodd cyfrifiaduron pen bwrdd a etifeddwyd gan yr FSA o'r Adran Iechyd a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar 1 Ebrill 2000, ynghyd â swmp-brynu cyfrifiaduron newydd, eu cyfalafu ar eu gwerth teg ar y Diwrnod Breinio. Mae cyfrifiaduron pen bwrdd newydd a gaffaelwyd ers y dyddiad hwnnw sy'n werth llai na £2,000 wedi eu nodi fel treuliau.

Caiff gosodiadau a ffitiadau a gaffaelwyd mewn cysylltiad ag adnewyddu eu cyfalafu os yw cyfanswm y gost yn fwy na £2,000.

Nodir polisi cyfalafu'r MHS yn adroddiad blynyddol a chyfrifon yr MHS.

Caiff pob ased sefydlog diriaethol ei ailddatgan i'w werth cyfredol bob blwyddyn. Nid yw'r FSA yn berchen ar unrhyw dir neu adeiladau ar hyn o bryd. Caiff asedau gweithredol nad ydynt yn gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio yn ôl gwerth ar y farchnad agored lle mae'n hysbys, neu ar sail cost adnewyddu wedi ei dibrisio lle nad yw gwerth y farchnad yn hysbys. Fel arfer defnyddir mynegeion cyhoeddedig sy'n briodol i gategori'r ased er mwyn amcangyfrif y gwerth.

1.6 Dibrisiant

Ni chaiff tir ac asedau rhydd-ddaliadol sy'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Darperir dibrisiant ac amorteiddiad ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu prisiad asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol yn y drefn honno drwy gymhwyso'r dibrisiant llinol dros y bywydau defnyddiol amcangyfrifedig canlynol:

| Asedau diriaethol: | | Asedau anniriaethol: | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethyddion cyfrifiaduron ac offer cyfrifiadurol | 4 blynedd | Meddalwedd gyfrifiadurol a thrwyddedau meddalwedd | 7 mlynedd |
| Peiriannau swyddfa | 7 mlynedd | | |
| Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | 7 mlynedd | | |
| Cerbydau | 4 blynedd | | |

1.7 1.7 Stociau a Gwaith ar Droed

Prisir nwyddau traul ar gost, os cânt eu dal at ddefnydd presennol, neu fel arall gwerth net y gellir ei wireddu.

1.8 Ymchwil a Datblygu

Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu. Caiff gwariant ar waith datblygu mewn cysylltiad â chynhyrchion neu wasanaethau sydd i'w cyflenwi ar sail adnewyddu cost lawn ei gyfalafu os yw'n bodloni'r meini prawf hynny a nodir yn SSAP13. Cyfalafir gwariant arall ar waith datblygu os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y RAM a addasir o'r SSAP13 i ystyried y cyd-destun nid er elw. Nid yw gwariant sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu yn cael ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y caiff ei wario. Caiff asedau sefydlog a gaffaelir i'w defnyddio ar gyfer ymchwil a datblygu eu dibrisio dros fywyd y prosiect cysylltiedig, neu yn unol â chategori'r ased os yw'r ased i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith cynhyrchu dilynol.

Cafodd gwariant ar ymchwil a datblygu ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y cafodd ei wario.

### 1.9 Incwm gweithredol

Incwm gweithredol yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol yr FSA. Yr incwm yw cyfanswm yr incwm cronedig am y flwyddyn, ac fe'i dangosir heb Dreth ar Werth. Mae gan yr FSA incwm o waith samplu llaeth a llaethdai ac o archwiliadau radiolegol. Mae'n cynnwys incwm dyraniad cymorth y Bleidlais ac incwm i'r Gronfa Gyfunol, y mae Trysorlys EM wedi cytuno y dylid ei drin fel incwm gweithredol. Yn ychwanegol at hyn, mae gan yr MHS incwm o archwiliadau hylendid cig ac o sefydliadau'r llywodraeth (o reolaethau Deunydd Risg Penodol yn bennaf).

### 1.10 Gwariant ar Weinyddu ac ar y Rhaglen

Dadansoddir y Datganiad Cost Weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr Adran fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm gweithredol cysylltiedig. Dadansoddir incwm yn y nodiadau rhwng yr hyn y caniateir iddo, o dan y gyfundrefn, gael ei wrthbwyso yn erbyn costau gweinyddol gros wrth bennu'r alldro yn erbyn y terfyn cost weinyddol a'r incwm gweithredol na chaniateir iddo gael ei wrthbwyso. Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

Dylid nodi bod yr holl wariant gan y Gwasanaeth Hylendid Cig, gan gynnwys costau staffio a gweinyddol, yn cael ei ystyried fel costau'r rhaglen at ddibenion cyfrifyddu adnoddau.

### 1.11 Cost Cyfalaf

Caiff tâl a godir sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan yr FSA, ei gynnwys yn y costau gweithredol. Cyfrifir y tâl a godir ar gyfradd safonol y Llywodraeth o 3.5% ar bob ased llai rhwymedigaethau heblaw balansau arian parod gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol (PMG) a rhwymedigaethau a ildiwyd i'r gronfa gyfunol.

### 1.12 Cyfnewid Tramor

Caiff eitemau incwm a gwariant eu trosi yn £ Sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Caiff eitemau ar y fantolen eu trosi ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen neu ar gyfradd dan gontract os yw'n berthnasol. Cofnodir unrhyw enillion neu golledion cyfnewid yn y datganiad cost weithredol.

### 1.13 Pensiynau

Cwmpesir cyflogeion presennol a chyn-gyflogeion yr FSA gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun buddiannau diffiniedig anghyfrannol a heb ei ariannu. Mae'r adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol yn ystod y cyfnod lle y mae'n manteisio ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifwyd ar sail groniadol. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS.

Mae'r mwyafrif o gyflogeion yr MHS yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Pensiynau Llundain. Mae cyflogeion eraill yr MHS yn aelodau o'r PCSPS.

### 1.14 Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'n ofynnol i'r FSA dalu cost ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r adran yn darparu yn llawn ar gyfer y gost hon pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar a chynlluniau tebyg wedi eu cyhoeddi ac yn gyfrwymol ar yr adran.

### 1.15 Prydlesau Gweithredol

Codir prydlesau gweithredol ar y datganiad cost weithredol ar sail linol dros dymor y brydles.

### 1.16 Costau Archwilio

Caiff tâl a godir sy'n adlewyrchu cost yr archwiliad ei gynnwys yn y costau gweithredol. Archwilir yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn ond caiff tâl tybiannol sy'n cynrychioli cost yr archwiliad ei gynnwys yn y cyfrifon.

### 1.17 Treth Ar Werth

Dangosir swm net Treth Ar Werth (TAW) sy'n ddyledus i'r Tollau Tramor a Chartref neu ganddynt fel dyledwr neu gredydwr ar y fantolen. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad cost weithredol, neu os eir iddi wrth brynu ased sefydlog caiff ei chyfalafu yng nghost yr ased.

### 1.18 Darpariaethau

Mae'r adran yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae effaith gwerth amserol yr arian yn sylweddol, caiff y llifau arian parod wedi eu haddasu yn ôl y risg amcangyfrifedig eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio'r Trysorlys sef 3.5% mewn termau real.

Cydnabyddir darpariaethau yn y cyfrifon lle:

a) mae rhwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad a fu;

b) mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm.

Nid yw'r darpariaethau wedi'u disgowntio, am na chaiff yr addasiad dilynol ei ystyried yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

Datgelir rhwymedigaethau amodol yn y nodiadau i'r cyfrifon oni bai fod y posibilrwydd o drosglwyddo wrth setlo yn annhebyg.

### 1.19 Rhwymedigaethau Amodol

Yn ogystal â rhwymedigaethau amodol a ddatgelwyd yn unol â FRS 12, mae'r Adran yn datgelu, at ddibenion adroddiadau seneddol ac atebolrwydd, rai rhwymedigaethau amodol lle mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn annhebyg. Mae'r rhain yn cynnwys:

i) Eitemau dros £100,000 (neu'n is, lle maent yn ofynnol yn ôl statud benodol) nad ydynt yn codi wrth gynnal busnes arferol ac a gyflwynir ar ffurf adroddiad i'r Senedd drwy gofnodion adrannol cyn i'r Adran ymrwymo i'r cytundeb;

ii) Pob eitem (p'un a ydynt yn codi wrth gynnal busnes arferol ai peidio) dros £100,000 (neu'n is, lle maent yn ofynnol yn ôl statud benodol neu lle maent yn berthnasol yng nghyd-destun y cyfrifon adnoddau) y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, gael eu nodi yn y cyfrifon adnoddau.

Lle mae gwerth amserol yr arian yn berthnasol, caiff rhwymedigaethau amodol y mae'n ofynnol iddynt gael eu datgelu o dan FRS12 eu datgan ar symiau wedi eu disgowntio a'r swm a gyflwynwyd i'r Senedd wedi ei nodi ar wahân. Caiff rhwymedigaethau amodol nad yw'n ofynnol iddynt gael eu datgelu gan FRS 12 eu datgan ar y symiau a gyflwynwyd i'r Senedd.

### 1.20 Newid mewn Polisi Cyfrifyddu

Yn unol â FRS 17, mae'r FSA yn cydnabod rhwymedigaeth lawn y Cynllun Pensiwn i Aelodau'r Bwrdd.
Rhoddwyd amcangyfrif o'r rhwymedigaeth lawn ar 31 Mawrth 2004 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Caiff unrhyw dâl ychwanegol (y tu hwnt i'r cyfraniadau pensiwn cyfatebol blynyddol) ei ystyried yn dâl yn ystod y flwyddyn.

# 2 Nifer y staff a'r costau cysylltiedig

a) Mae costau staff yn cynnwys

| | | | | | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pencadlys yr FSA San Steffan | | | Swyddfeydd | | Cyfanswm y |
| | Staff | Bwrdd | Is-gyfanswm | Datganoledig | Cyfanswm | Staff |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cyflogau | 18,936 | 17,834 | 326 | 18,160 | 776 | 17,061 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 1,526 | 1,435 | 31 | 1,466 | 60 | 1,224 |
| Costau Pensiwn Eraill | 2,708 | 2,536 | 71 | 2,607 | 101 | 2,387 |
| **Is-gyfanswm** | **23,170** | **21,805** | **428** | **22,233** | **937** | **20,672** |
| Secondiadau Mewnol | 2,325 | 282 | 0 | 282 | 2,043 | 2,875 |
| Staff yr Asiantaeth | 732 | 564 | 0 | 564 | 168 | 873 |
| **Cyfanswm** | **26,227** | **22,651** | **428** | **23,079** | **3,148** | 24,420 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | (181) | (181) | 0 | (181) | 0 | (71) |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **26,046** | **22,470** | **428** | **22,898** | **3,148** | 24,349 |

b) Gwasanaeth Hylendid Cig – costau'r rhaglen

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | MHS | MHS |
| | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000oedd | £000oedd |
| Cyflogau | 39,656 | 37,833 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | 3,227 | 2,716 |
| Costau Pensiwn Eraill | 4,671 | 4,292 |
| Is-gyfanswm | 47,554 | 44,841 |
| Secondiadau Mewnol | - | - |
| Cyfanswm | 47,554 | 44,841 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | - | - |
| Cyfanswm y Costau Net | 47,554 | 44,841 |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil **(PCSPS)** yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu ond nid yw'r FSA yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad llawn gan yr actiwari ar 31 Mawrth 2003. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau **Swyddfa'r Cabinet:** Pensiwn Sifil (www.civilservice-pension.gov.uk)

Ar gyfer 2003/04 roedd cyfraniadau cyflogwr o £4,061,000 yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil **(PCSPS)** ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 12 i 18.5 y cant o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl i'r cynllun gael ei brisio'n llawn. Bydd y cyfraddau yn aros yr un fath y flwyddyn nesaf, yn amodol ar ailbrisio'r bandiau cyflog, ond bydd yn cynyddu o 2005-06. Mae'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau fel y maent yn cronni, nid pan eir i gostau mewn gwirionedd; a dylent adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gall cyflogeion sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cyfrif **partneriaeth**, pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £170 i un neu fwy o banel o bedwar darparwyr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau **partneriaeth** cyflogwyr yn berthnasol i oedran ac yn amrywio o 3 i 12.5 y cant o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb â chyfraniadau cyflogeion hyd at 3 y cant o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £29 yn daladwy i'r **PCSPS** i dalu am gost darparu buddiannau ar ffurf cyfandaliadau yn y dyfodol yn sgîl marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i ddarparwyr y pensiwn **partneriaeth** ar ddyddiad y fantolen. Nid oedd unrhyw gyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw.

**Nifer y personau a gyflogwyd ar gyfartaledd**

c) Dangosir nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn 2003-04 yn y tabl isod. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio i'r FSA a'r MHS (gan gynnwys uwch reolwyr):

2003/04

| | FSA ac MHS | Swyddfeydd Datganoledig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Nod 1** Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 123 | 24 | 147 |
| **Nod 2** Gwell diogelwch a safonau bwyd | 1,860 | 56 | 1,916 |
| **Nod 3** Gwella dewis a deiet defnyddwyr | 243 | 26 | 269 |
| | **2,226** | **106** | **2,332** |

Dangosir nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn 2002-03 yn y tabl isod. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio i'r FSA a'r MHS (gan gynnwys uwch reolwyr):

2002/03

| | FSA ac MHS | Swyddfeydd Datganoledig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Nod 1** Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 169 | 26 | 195 |
| **Nod 2** Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 238 | 37 | 275 |
| **Nod 3** Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 1,820 | 45 | 1,865 |
| | **2,227** | **108** | **2,335** |

2003/04

ch) Roedd Costau Staff fesul nod fel a ganlyn:

| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|
| **Nod 1** Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch bwyd a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 3,906 | 663 | 4,569 |
| **Nod 2** Gwell diogelwch a safonau bwyd | 58,853 | 1,679 | 60,532 |
| **Nod 3** Gwella dewis a deiet defnyddwyr | 7,693 | 806 | 8,499 |
| | **70,452** | **3,148** | **73,600** |

| | FSA ac MHS | Swyddfeydd Datganoledig | 2002/03 Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Nod 1**<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 5,224 | 657 | 5,881 |
| **Nod 2**<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004-05 | 8,580 | 1,065 | 9,645 |
| **Nod 3**<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 52,460 | 1,204 | 53,664 |
| | **66,264** | **2,926** | **69,190** |

I gael manylion pellach am gostau a niferoedd staff yr MHS dylid cyfeirio at Adroddiad Blynyddol a chyfrifon yr MHS ar gyfer 2003-04.

# 3 Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

Roedd cyflog a hawliau pensiwn Aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr yr adran fel a ganlyn:

2003/04

| i) FSA | | Cyflogau a Lwfansau Eraill £5,000 £000oedd | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed £2,500 £000oedd | Cyfanswm Pensiwn Cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 2004 £5,000 £000oedd | CETV ar 31 Mawrth 2004 £000oedd | CETV ar 31 Mawrth 2003 £000oedd | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dr Jon Bell | Prif Weithredwr | 115-120 | 10-12.5 | 50-55 | 900 | 668 | 197 |
| Pat Stewart | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr, Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol | 100-105 | 2.5-5 | 40-45 | 733 | 636 | 65 |
| Andrew Wadge | Cyfarwyddwr, Polisi a Diogelwch Bwyd | 80-85 | 2.5-5 | 15-20 | 235 | 185 | 39 |
| David Statham | Cyfarwyddwr, Gorfodi a Safonau Bwyd | 90-95 | 0-2.5 | 35-40 | 599 | 545 | 23 |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 90-95 | 0-2.5 | 30-35 | 504 | 454 | 22 |
| Brian Davies | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 15-20 | 2.5-5 | 25-30 | 433 | 371 | 41 |
| Allan Hutton | Cyfarwyddwr Cyllid | 60-65 | 0-2.5 | 5-10 | 99 | 79 | 15 |
| George Paterson | Cyfarwyddwr FSA yr Alban | 70-75 | 0-2.5 | 0-5 | 65 | 48 | 16 |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr FSA Gogledd Iwerddon | 70-75 | 2.5-5 | 25-30 | 483 | 423 | 40 |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr FSA Cymru (tan 17/07/03) | 15-20 | 0-2.5 | 5-10 | 104 | 94 | 4 |
| Steve Wearne | Cyfarwyddwr Dros Dro FSA Cymru (o 21/07/03) | 35-40 | 0-2.5 | 5-10 | 102 | 88 | 9 |

Ymunodd Brian Davies ar 21 Tachwedd 2003.

Ni dderbyniodd Uwch Reolwyr yr FSA unrhyw fuddiannau mewn da yn ystod 2003/04, ac eithrio Steve Wearne a fu ar ddyletswydd neilltuol yng Nghaerdydd. Roedd ei fuddiannau mewn da, sef oddeutu £5,000 - £7,500, yn ymwneud â chostau llety.

**i) FSA**

| | | Bandiau | Cyflogau a Lwfansau Eraill £5,000 £000oedd | Cynnydd gwirioneddol Pensiwn yn 60 oed £2,500 £000oedd | 2002/03 Cyfanswm Pensiwn Cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 2003 £5,000 £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Geoffrey Podger | Prif Weithredwr (tan 31/01/2003) | | 100-105 | 2.5-5 | 40-45 |
| Dr Jon Bell | Cyfarwyddwr, Polisi a Diogelwch Bwyd a Phrif Weithredwr Dros Dro (o 01/02/2003) | | 90-95 | 2.5-5 | 30-35 |
| Andrew Wadge | Cyfarwyddwr Dros Dro, Polisi a Diogelwch Bwyd (o 01/02/2003) | | 65-70 | 0-2.5 | 10-15 |
| Pat Stewart | Cyfarwyddwr, Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol a Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro | | 90-95 | 2.5-5 | 35-40 |
| David Statham | Cyfarwyddwr, Gorfodi a Safonau Bwyd | | 85-90 | 0-2.5 | 0-5 |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | | 90-95 | 2.5-5 | 20-25 |
| **Swyddfeydd Datganoledig:** | | | | | |
| George Paterson | Cyfarwyddwr, FSA yr Alban | | 75-80 | 0-2.5 | 0-5 |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr, FSA Cymru | | 50-55 | 0-2.5 | 5-10 |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr, FSA Gogledd Iwerddon | | 60-65 | 0-2.5 | 25-30 |

Mae Neil Martinson (Cyfarwyddwr, Cysylltiadau) o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA wedi gwrthod caniatáu i'w fanylion personol gael eu cyhoeddi yn 2003/4 a 2002/3.
Ni dderbyniodd uwch reolwyr yr FSA unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da yn ystod 2002-03.
Nid yw Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol (CETV) ar gyfer hawl pensiwn yn y flwyddyn flaenorol ar gael.

**ii) MHS**

| | | Cyflogau a Lwfansau Eraill £5,000 £000oedd | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed £2,500 £000oedd | Cyfanswm Pensiwn Cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 2004 £5,000 £000oedd | CETV ar 31 Mawrth 2004 £000oedd | CETV ar 31 Mawrth 2003 £000oedd | 2003/04 Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chris Lawson | Prif Weithredwr | 90-95 | 0-2.5 | 35-40 | 698 | 657 | 12 |
| | | | | | | | 2002/03 |
| Chris Lawson | Prif Weithredwr | 90-95 | 2.5-5.0 | 30-35 | d/g | d/g | d/g |

Mae gwybodaeth yn ymwneud â manylion cyflog a phensiwn uwch reolwyr wedi'i chynnwys o fewn y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2003-04.

**Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd** — 2003/04

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill £5,000 £000oedd | Buddiannau mewn da | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed £2,500 £000oedd | Cyfanswm Pensiwn Cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 2004 £5,000 £000oedd | CETV ar 31 Mawrth 2004 £000oedd | CETV ar 31 Mawrth 2003 £000oedd | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Athro Syr John Krebs – Cadeirydd | 105-110 | 2.5-5 | 0-2.5 | 5-10 | 62 | 49 | 13 |
| Julia Unwin (Dirprwy Gadeirydd o 14/07/03) | 20-25 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 4 | 0 | 4 |
| Ann Hemingway – (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro tan 13/07/03) | 35-40 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 18 | 13 | 5 |
| Michael Gibson | 25-30 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 13 | 9 | 4 |
| Michael Walker | 20-25 | 0-2.5 | d/g | d/g | d/g | d/g | d/g |
| Richard Ayre | 10-15 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Robert Rees (tan 28/02/04) | 10-15 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland | 5-10 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Vernon Sankey | 5-10 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Sandra Walbran | 5-10 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Christine Dunn | 10-15 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Dr Sati Ariyanayagam | 5-10 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Yr Athro Andrew Miller *# | 25-30 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 4 | 0 | 4 |

Nid yw hawl Michael Walker i bensiwn wedi'i chadarnhau hyd yma.

| | | | 2002/03 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn Cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 03 |
| | | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| c) Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd | | | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Yr Athro Syr John Krebs | Cadeirydd | | 100-105 | 0-2.5 | 0-5 |
| Suzi Leather*# | Dirprwy Gadeirydd (tan 31/12/2002) | | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 |
| Ann Hemingway | Dirprwy Gadeirydd (o 01/01/2003) | | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 |
| Michael Gibson | | | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 |
| Michael Walker | | | 20-25 | d/g | d/g |
| Yr Athro Syr John Arbuthnott | (tan 30/11/2002) | | 10-15 | 0-2.5 | 0-5 |
| Jeya Henry | (tan 20/02/2003) | | 5-10 | - | - |
| Karol Bailey | (tan 20/02/2003) | | 5-10 | - | - |
| Richard Ayre | | | 5-10 | - | - |
| Robert Rees | | | 10-15 | - | - |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland, OBE | | | 5-10 | - | - |
| Vernon Sankey | | | 5-10 | - | - |
| Sandra Walbran | (o 01/06/2002) | | 5-10 | - | - |
| Christine Dunn | (o 01/03/2003) | | 0-5 | - | - |
| Dr Sati Ariyanayagam | (o 01/03/2003) | | 0-5 | - | - |
| Yr Athro Andrew Miller*# | (o 01/03/2003) | | 0-5 | 0-2.5 | 0-5 |

Mae Iain McDonald wedi gwrthod caniatáu i'w fanylion personol gael eu cyhoeddi.

Nid yw Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar gyfer pensiwn yn y flwyddyn flaenorol ar gael.

* wedi dewis ymuno â premium

\# manylion pensiwn yn tybio'r uchafswm cyfnewidiad pensiwn ar gyfer cyfandaliad
CETV yw'r Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar gyfer pensiynau.

Nodiadau:

i Mae 'Cyflog' yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonws; goramser; hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw, lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau y maent yn agored i drethiant y DU.

ii Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun buddiannau diffiniedig 'cyflog terfynol' ar sail statudol (**classic, premium a classic plus**). Gall rhai sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o'r cynllun '**premium**' neu ymuno â threfniant ar sail rhanddeiliad "prynu arian" o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (**cyfrif pensiwn partneriaeth**).

(a) Cynllun 'Classic'
Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Bydd yr Aelodau yn talu cyfraniad o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy. Ar ôl marw, bydd pensiynau yn daladwy i'r cymar sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd rhywun yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o ddwywaith y cyflog pensiynadwy ac yn darparu taliad chwyddo gwasanaeth hefyd wrth gyfnewid pensiwn y cymar. Mae'r taliad chwyddo yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraidd a chyda thaliad chwyddo gwasanaeth fel ar gyfer pensiynau gwŷr a gwragedd gweddw.

(b) Cynllun 'Premium'
Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i 'classic', nid oes cyfandaliad awtomatig, ond gall aelodau gyfnewid peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad hyd at uchafswm o 3/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth neu 2.25 gwaith y pensiwn os yw'n fwy (y gyfradd gyfnewid yw £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir). At ddibenion datgelu pensiwn mae'r tablau yn tybio'r uchafswm cyfnewidiad. Bydd yr Aelodau yn talu cyfraniadau o 3.5 y cant o enillion pensiynadwy. Ar ôl marw, bydd pensiynau yn daladwy i'r cymar sy'n goroesi neu'r partner cymwys ar gyfradd o 3/8fed o bensiynau'r aelod (cyn unrhyw gyfnewidiad). Os bydd rhywun yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o dair gwaith yr enillion pensiynadwy ac yn darparu taliad chwyddo gwasanaeth hefyd wrth gyfnewid pensiwn y cymar.

(c) Cynllun 'Classic Plus'
Yn y bôn, amrywiad ar y cynllun '**premium**' yw hwn, ond caiff y buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 eu cyfrifyddu'n fras yn yr un modd â'r '**classic**'.

Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan '**classic**', '**premium**' a '**classic plus**' yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

(ch) Cyfrif Pensiwn Partneriaeth
Mae hyn yn drefniant ar ffurf **rhanddeiliaid** lle mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid. Nid yw'r cyflogai yn gorfod cyfrannu ond lle y gwnânt gyfraniadau, fe'u cyfatebir gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3 y cant (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant arall o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd o ran risg (marw tra yn y swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch). Gall yr aelod ymddeol ar unrhyw adeg rhwng 50 a 75 oed a defnyddio'r gronfa sydd wedi cronni i brynu pensiwn. Gall yr aelod ddewis cymryd hyd at 25 y cant o'r gronfa fel cyfandaliad.

iii Penderfynodd y Bwrdd Rheoli Gweithredol beidio â datgelu oedran y tîm rheoli ac Aelodau'r Bwrdd.

iv Mae pum aelod o Fwrdd yr FSA yn aelodau o gynllun pensiwn drwy gydweddiad sy'n debyg i'r PCSPS.

# 4 Costau gweinyddol nad ydynt yn gostau staff

| | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Rhent-daliadau o dan brydlesau gweithredol:** | | | | |
| Hurio offer a pheiriannau | 193 | | 133 | |
| Prydlesau gweithredol eraill (gan gynnwys rhent) | 4,757 | | 3,848 | |
| | | **4,950** | | **3,981** |
| **Eitemau anariannol:** | | | | |
| Dibrisiant ac amorteiddio asedau sefydlog: | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 1,457 | | 1,600 | |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 108 | | 103 | |
| Cost tâl cyfalaf | (126) | | (397) | |
| Ffioedd archwilio | 100 | | 100 | |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | 114 | | 2 | |
| Cyfanswm yr eitemau anariannol | | 1,653 | | 1,408 |
| Costau swyddfeydd | | 4,499 | | 3,722 |
| Gorbenion y bwrdd a'r staff | | 3,240 | | 3,037 |
| Costau gweithredol | | 3 | | 1 |
| Costau gweinyddol | | 2,411 | | 2,930 |
| Costau TG | | 1,258 | | 1,027 |
| Costau Pwyllgora | | 176 | | 169 |
| Costau Ymadael yn Gynnar | | 0 | | 28 |
| Drwgddyledion | | 1 | | 18 |
| Costau eraill | | 19 | | 15 |
| **Gwariant arall** | | **18,210** | | 16,336 |

Ni dderbyniodd yr archwilwyr unrhyw ffioedd am waith nad oedd yn waith archwilio.

Nodyn a) mae cyfanswm y trafodion anariannol a gynhwyswyd yn 'Cysoni Adnoddau â Chostau Gweithredol Net' yn Atodlen 1 a 'Cysoni Costau Gweithredol â Llifau Arian Parod Gweithredol' yn Atodlen 4 fel a ganlyn:

| | 2003/04 |
|---|---|
| | £000oedd |
| Costau Gweinyddol eraill – eitemau anariannol (fel uchod) | 1,653 |
| Darpariaethau | 214 |
| MHS - Symiau anariannol eraill a godwyd ar y gwariant gweithredol | 1,452 |
| Cyllid Anuniongyrchol | 404 |
| **Cyfanswm y trafodion anariannol** | **3,723** |

# 5 Costau net y rhaglen

| | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Ymchwil a Datblygu** | | | | |
| Hylendid Cig | 5,592 | | 4,891 | |
| Maeth | 4,783 | | 3,878 | |
| Diogelwch Bwyd Microbiolegol | 2,347 | | 3,072 | |
| Bwyd Newydd a Gwenwyneg Diogelwch Cemegol | 2,622 | | 2,567 | |
| Diogelwch Cemegol | 3,184 | | 2,547 | |
| Labeli a Safonau bwyd | 1,249 | | 1,122 | |
| Difwynwyr Cemegol | 1,411 | | 1,048 | |
| Diogelwch Radiolegol | 168 | | 493 | |
| Prosesu Cregyn Bylchog | 420 | | 286 | |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 203 | | 245 | |
| Porthiant Anifeiliaid | 121 | | 88 | |
| Amrywiol | 460 | | 503 | |
| | **22,560** | | 20,740 | |
| | | | | |
| **Monitro a Goruchwylio:** | | | | |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | | | | |
| Costau Staff | | 47,554 | | 44,841 |
| Gwariant Arall | 34,504 | | 36,374 | |
| Hylendid Cig | 180 | | (24) | |
| Diogelwch Radiolegol | 2,710 | | 2,481 | |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 202 | | 318 | |
| Diogelwch Bwyd Micro | 7,904 | | 9,433 | |
| Pwyllgorau, y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 2,548 | | 2,920 | |
| Maeth | 2,242 | | 2,689 | |
| Difwynwyr Cemegol | 1,296 | | 1,476 | |
| Porthiant Anifeiliaid | 171 | | 381 | |
| Meddygol a Chyfreithiol | 233 | | 149 | |
| Diogelwch ac Addysg Bwyd | 1,825 | | 565 | |
| Gorfodi ac Archwiliad | 542 | | 480 | |
| Labeli a Safonau Bwyd | 588 | | 597 | |
| Bwyd Newydd a Gwenwyneg Diogelwch Cemegol | 456 | | 687 | |
| Amrywiol | 1,951 | | 648 | |
| Cyfanswm costau'r rhaglen nad ydynt yn ymwneud â'r staff | | 79,912 | | 79,914 |
| | | **127,466** | | 124,755 |
| | | | | |
| **Llai: Incwm y Rhaglen** | | | | |
| (Pencadlys) yr FSA | (2,362) | | (2,388) | |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | (34,230) | | (34,851) | |
| | | (36,592) | | (37,239) |
| | | **90,874** | | 87,516 |

Mae costau'r MHS a nodir uchod yn cynnwys yn canlynol:

Ar gyfer 2003–04, ffioedd archwilio o £30,000 a dibrisiant o £421,000

Ar gyfer 2002–03, ffioedd archwilio o £30,000 a dibrisiant o £308,000

# 6 Dadansoddi incwm

| | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Mae incwm gweithredol, wedi ei ddadansoddi yn ôl dosbarthiad a gweithgaredd fel a ganlyn:** | | | | |
| **Mae'r holl incwm gweithredol wedi'i gynnwys o fewn gwariant cyhoeddus** | | | | |
| **Incwm gweinyddol:** | | | | |
| O Adrannau'r Llywodraeth ac eraill | 132 | | 196 | |
| | | 132 | | 196 |
| **Incwm y rhaglen:** | | | | |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai – samplu | 32 | | 33 | |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 - archwiliadau | 2,330 | | 2,355 | |
| | | 2,362 | | 2,388 |
| Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig | | 34,230 | | 34,851 |
| | | **36,724** | | **37,435** |

Mae'r dadansoddiad o'r incwm o wasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol a chwsmeriaid y sector cyhoeddus fel a ganlyn:

| | | | 2003/04 | | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Cost Lawn | Gwarged/ Diffyg | Incwm | Cost Lawn | Gwarged/ Diffyg |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig** | | | | | | |
| Diwydiant | 21,732 | 46,176 | (24,444) | 21,517 | 46,571 | (25,054) |
| Llywodraeth | 12,498 | 12,498 | 0 | 13,334 | 13,334 | 0 |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai – samplu ac archwiliadau | 32 | 65 | (33) | 33 | 111 | (78) |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,330 | 2,330 | 0 | 2,355 | 2,197 | 158 |
| | **36,592** | **61,069** | **(24,477)** | 37,239 | 62,213 | (24,974) |

Nid yw'r MHS yn adennill ei holl gostau oddi wrth ddiwydiant. Codir ffioedd archwilio ar safleoedd llai yn ôl nifer yr anifeiliaid a leddir ganddynt yn hytrach na chyfradd fesul awr.

# 7 Cysoni cost weithredol net â rheoli cyfanswm ac alldro net yr adnoddau

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Cost Weithredol Net | 134,998 | 128,005 |
| Incwm Gweithredol nas dosbarthwyd fel dyraniad cymorth | 0 | 0 |
| Gwasanaethau sefydlog cyllido cyfunol | 0 | 0 |
| Alldro Net yr Adnoddau | **134,998** | 128,005 |

# 8 Dadansoddiad o'r gost weithredol net fesul corff gwario

| | 2003/04 Amcangyfrif £000oedd | 2003/04 Alldro £000oedd | 2002/03 Amcangyfrif £000oedd | 2002/03 Alldro £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Corff Gwario: | | | | |
| Adran Graidd | 108,368 | 99,222 | 112,299 | 94,982 |
| MHS | 28,000 | 24,440 | 25,000 | 25,054 |
| Senedd yr Alban | 6,372 | 6,269 | 5,498 | 4,533 |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | 2,884 | 2,867 | 1,461 | 1,376 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 2,277 | 2,214 | 2,351 | 2,060 |
| **Cyfanswm** | **147,901** | **134,998** | 146,609 | 128,005 |

# 9 Asedau sefydlog anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd a brynwyd £000oedd |
|---|---|
| Cost neu brisiad: | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 549 |
| Ychwanegiadau | 764 |
| Ailbrisio a mynegeio | (78) |
| Lleihad mewn gwerth | - |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **1,235** |
| | |
| Amorteiddio: | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 263 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 137 |
| Ailbrisio a mynegeio | (45) |
| Lleihad mewn gwerth | - |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **355** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2004** | **880** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2003** | **286** |

# 10 Asedau sefydlog diriaethol

| | Gosodiadau a Ffitiadau | Offer Swyddfa | Offer/ Meddalwedd Gyfrifiadurol | Cerbydau Modur | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cost neu brisiad:** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 7,026 | 793 | 1,747 | 436 | 10,002 |
| Ychwanegiadau | 19 | 123 | 2,237 | 145 | 2,524 |
| Ailbrisio a mynegeio | 126 | 14 | (235) | 7 | (88) |
| Gwarediadau | - | - | (432) | (149) | (581) |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **7,171** | **930** | **3,317** | **439** | **11,857** |
| **Dibrisiant:** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 2,042 | 234 | 1,019 | 197 | 3,492 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 934 | 113 | 571 | 96 | 1,714 |
| Ailbrisio a mynegeio | 150 | 10 | (204) | 3 | (41) |
| Gwarediadau | - | - | (303) | (97) | (400) |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **3,126** | **357** | **1,083** | **199** | **4,765** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2004** | **4,045** | **573** | **2,234** | **240** | **7,092** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2003** | **4,984** | **559** | **728** | **239** | **6,510** |

Y gwahaniaeth sy'n codi rhwng prynu asedau sefydlog ac ychwanegiadau yw credydwyr cyfalaf a chroniadau.

# 11 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr | 1,015 | (840) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (1,190) | (3,607) |
| | (175) | (4,447) |
| Addasiadau Trosiannol | 0 | (51) |
| | **(175)** | (4,498) |

# 12 Dyledwyr

| | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnach | 5,472 | 5,864 |
| Yn ddyledus gan adrannau eraill y llywodraeth | 304 | 748 |
| TAW y gellir ei hadennill | 2,400 | 2,200 |
| Dyledwyr eraill | 381 | 1,056 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,868 | 1,722 |
| | **12,695** | 11,590 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill: | 148 | 238 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **12,843** | 11,828 |

# 13 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 5,456 | 8,647 |
| Newidiadau net mewn balansau arian parod | (1,017) | (3,191) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **4,439** | 5,456 |
| **Delir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:** | | |
| Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM | 10,538 | 3,193 |
| Cyfrifon banc masnachol ac arian mewn llaw | (6,099) | 2,263 |
| | **4,439** | 5,456 |
| **Mae'r balans ar 31 Mawrth yn cynnwys:** | | |
| Arian parod sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol: | | |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | **4,439** | 5,456 |

# 14 Credydwyr

| | 2003/04<br>£000oedd | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Credydwyr masnach | 8,768 | 9,229 |
| Credydwyr eraill | 2,733 | 2,723 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 12,922 | 10,987 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 4,439 | 5,456 |
| | **28,862** | **28,395** |
| | | |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau hirdymor (rhent) | 4,104 | 4,398 |
| | **32,966** | 32,793 |

# 15 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Darpariaeth ymadael yn gynnar £000oedd | Darpariaeth pensiwn £000oedd | Hawliadau cyfreithiol £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2003 | 329 | - | - | 329 |
| Yn codi yn ystod y flwyddyn | 965 | 170 | 44 | 1,179 |
| A ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (364) | - | - | (364) |
| A wrthdrowyd heb eu defnyddio yn ystod y flwyddyn | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **930** | **170** | **44** | **1,144** |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **329** | **-** | **-** | **329** |

Mae darpariaeth ymadael yn gynnar yn cyfeirio at rwymedigaethau i staff ar gyfer ymddeol yn gynnar. Mae'r FSA yn talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPC mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau sy'n ofynnol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng ymadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol.

Mae'r FSA yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar yn gyfrwymol ar yr adran drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau amcangyfrifedig a ddisgowntiwyd gan gyfradd ddisgowntio'r Trysorlys o 3.5% mewn termau real. Mewn blynyddoedd blaenorol talodd yr FSA ymlaen llaw am beth o'i rhwymedigaeth ar gyfer ymddeoliad cynnar drwy wneud taliad i Gyfrif y Tâl-feistr Cyffredinol ym Manc Lloegr ar gyfer credyd Pleidlais Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff y balans sy'n weddill ei drin fel rhagdaliad.

Mae'r ddarpariaeth pensiwn yn gysylltiedig â'r cynllun pensiwn drwy gydweddiad sy'n berthnasol i rai aelodau o fwrdd yr FSA.

# 16 Cysoni cost weithredol net â newidiadau yn y gronfa gyffredinol

| | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cost weithredol net am y flwyddyn (Atodlen 2) | (134,998) | | (128,005) | |
| Incwm heb ddyraniad cymorth i'r Gronfa Gyfunol | - | | - | |
| | | (134,998) | | (128,005) |
| Arian Seneddol | | 139,128 | | 127,407 |
| Credydwr y Gronfa Gyfunol ar gyfer arian parod nas gwariwyd | | (4,439) | | (5,456) |
| **Taliadau anariannol:** | | | | |
| Cost cyfalaf | (96) | | (183) | |
| Costau staff anariannol (datganoledig) | 404 | | 754 | |
| Costau eraill | - | | (56) | |
| Rhent a Gwasanaethau Rheoli | - | | 8 | |
| Ffioedd archwilio | 130 | | 130 | |
| | | 438 | | 653 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net yn y gronfa gyffredinol** | | **129** | | (5,401) |
| **Y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill** | | **(9,611)** | | (4,210) |
| **Balans ar 31 Mawrth (Atodlen 3)** | | **(9,482)** | | (9,611) |

Y Gronfa Gyffredinol yw'r asedau net a gyflwynwyd i'r FSA ar 1 Ebrill 2000 (a ddatganwyd ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ar y dyddiad hwnnw), y gwarged neu'r diffyg a gynhyrchwyd o daliadau tybiannol a gweithgareddau masnachu, a chyllid y Bleidlais sy'n codi ers y dyddiad hwnnw. Mae'r 'taliadau anariannol' uchod yn cynnwys balansau'r MHS a godwyd yn erbyn Costau'r Rhaglen yn ogystal â'r Taliadau Cost Weinyddol a ddatgelwyd yn Nodyn 4.

# 17 Cronfa ailbrisio wrth gefn

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Balans ar 1 Ebrill 2003 | 569 | 61 |
| Yn codi wrth ailbrisio yn ystod y flwyddyn (net) | 55 | 501 |
| Trosglwyddwyd i'r Gronfa Gyffredinol mewn perthynas ag elfen y gronfa ailbrisio wrth gefn a wireddwyd | 0 | 7 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2004** | **624** | 569 |

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu elfen y balans cronnol nas gwireddwyd o addasiadau mynegeio ac ailbrisio.

# 18 Nodiadau i atodlen 5

Dyrannwyd cost y rhaglen a gwariant cyfredol arall fel a ganlyn:

| | 2003/04 |
|---|---|
| | **£000oedd** |
| **Nod 1** Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 6,323 |
| **Nod 2** Gwell diogelwch a safonau bwyd | 70,693 |
| **Nod 3** Gwella dewis a deiet defnyddwyr | 13,858 |
| | **90,874** |

| | 2002/03 |
|---|---|
| | **£000oedd** |
| **Nod 1** Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 12,109 |
| **Nod 2** Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004-05 | 22,656 |
| **Nod 3** Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 52,751 |
| | **87,516** |

# 19 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | **£000oedd** | £000oedd |
| Ymrwymiadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2004 na wnaed darpariaeth ar eu cyfer. | 176 | 0 |
| | **176** | 0 |

# 20 Ymrwymiadau o dan brydlesau

**Prydlesau gweithredol**

Nodir yr ymrwymiadau a wnaethpwyd o dan brydlesau gweithredol i dalu rhent yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod. Cânt eu dadansoddi yn ôl y cyfnod pryd y daw'r brydles i ben.

| | 2003/04<br>**£000oedd** | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|---|
| **Mae'r ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol yn cynnwys:** | | |
| Tir ac Adeiladau: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 0 | 0 |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond nid mwy na 5 mlynedd | 0 | 0 |
| Dod i ben ar ôl hynny | 4,805 | 4,334 |
| | **4,805** | 4,334 |
| Arall: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 87 | 0 |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond nid mwy na 5 mlynedd | 22 | 126 |
| Dod i ben ar ôl hynny | 84 | 84 |
| | **193** | 210 |

# 21 Ymrwymiadau eraill

Mae'r FSA wedi gwneud ymrwymiadau (nad ydynt yn brydlesau gweithredol) ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu amrywiol gwerth £52,226,835 hyd at 31 Mawrth 2008.

# 22 Rhwymedigaethau amodol

i) Mae hawliadau amrywiol am iawndal gwerth £201,000 yn cael eu gwneud yn erbyn yr FSA. Caiff yr achosion hyn eu hamddiffyn ac nid yw'r FSA o'r farn y bydd angen talu mwy na £76,000 i fodloni'r hawliadau hyn. Gwnaed darpariaeth o £68,000 yn y cyfrifon.

ii) Gwneir nifer o hawliadau bach gan weithwyr safleoedd a chyflogeion yr MHS am anafiadau yn y gweithle ac am ddiswyddiad annheg. Caiff yr achosion hyn eu hamddiffyn a hyd yma nid yw'r canlyniad yn hysbys ond gallent gostio tua £157,000. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y cyfrifon eleni. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

## 23 Trafodion partïon cysylltiedig

Soniodd yr Aelod canlynol o'r Bwrdd am y trafodion partïon cysylltiedig:

Mae Michael Walker wedi datgelu fod practis, y mae ef yn bartner ynddo, wedi cynnal gwaith ymchwil dadansoddol ar ran yr FSA, sy'n werth tua £300.

Cafodd yr FSA nifer o drafodion gydag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff eraill sy'n rhan o Lywodraeth ganolog.

## 24 Offerynnau ariannol

Nid oes gan yr FSA unrhyw fenthyciadau net ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar grantiau adrannol am ei gofynion ariannol, ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddi adneuon sylweddol ychwaith, a mynegir pob ased a rhwymedigaeth berthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg y gyfradd llog na risg arian cyfred.

## 25 Colledion a thaliadau arbennig

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth yr FSA golledion neu daliadau arbennig mewn 2 achos gyda chyfanswm gwariant o £61,000. Arweiniodd un o'r achosion at dalu iawndal i safle brosesu a thalu iawndal nominal i aelod o'r staff. Yn ogystal, gwnaeth y Gwasanaeth Hylendid Cig 28 o daliadau arbennig gwerth £29,000 ar gyfer iawndal i staff a hawliadau am anafiadau personol.

## 26 Alldro gwirioneddol – adnoddau ac arian parod

Cais am adnoddau: Swm gwirioneddol alldro adnoddau net £134,998,106.18.
Swm gwirioneddol yr arbedion mewn adnoddau dros yr Amcangyfrif £12,902,893.82.

Gofyniad arian parod net: Gofyniad alldro net £134,688,618.43.
Sy'n £13,105,381.57 yn llai na'r Amcangyfrif.

# CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS YN UNOL AG ADRAN 5(2) DEDDF ADNODDAU A CHYFRIFON Y LLYWODRAETH 2000

1. Mae'r cyfarwyddyd hyn yn gymwys i'r adrannau hynny o'r Llywodraeth a'r cynlluniau pensiwn a restrir yn yr atodiad atodedig.

2. Bydd yr adrannau a'r cynlluniau pensiwn hyn yn paratoi cyfrifon adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu y rhifyn o'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ("y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau") sydd mewn grym ar gyfer 2003/04.

3. Bydd y cyfrifon ar gyfer **adrannau'r Llywodraeth** yn cael eu paratoi er mwyn:

   (a) rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2004 ac alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

   (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

4. Bydd y cyfrifon ar gyfer **cynlluniau pensiwn** yn cael eu paratoi er mwyn:

   (a) rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2004 ac alldro net yr adnoddau a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

   (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

5. Bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn angenrheidiol, ym mhob achos heblaw'r amgylchiadau mwyaf eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon roi darlun cywir a theg. Os, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn anghyson â'r gofynion i roi darlun cywir a theg, dylid gwyro oddi wrth ofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun cywir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid arddel barn hyddysg a diduedd i lunio triniaeth amgen briodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau. Dylid trafod unrhyw wyro perthnasol oddi wrth y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn y lle cyntaf gyda'r Trysorlys.

David Loweth
Pennaeth y Tîm Cyfrifyddu Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi
30 Ionawr 2004

## CYFARWYDDYD CYFRIFON GAN WEINIDOGION YR ALBAN YN UNOL AG ADRAN 39(7) AC ATODLEN 4 DEDDF SAFONAU BWYD 1999

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol; ac
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Llofnodwyd drwy Awdurdod Gweinidogion yr Alban:
1 Hydref 2001

# CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN YR ADRAN IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A DIOGELWCH Y CYHOEDD GYDA CHYMERADWYAETH YR ADRAN GYLLID A PHERSONÉL AR GYFER GOGLEDD IWERDDON YN UNOL AG ADRAN 39(7) AC ATODLEN 4 DEDDF SAFONAU BWYD 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Gogledd Iwerddon) yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol; ac
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chais Diogelwch y Cyhoedd am Adnodd B.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar hyn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Llofnodwyd drwy Awdurdod Adran Iechyd,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd
Medi 2001

# CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU YN UNOL AG ADRAN 39(7) AC ATODLEN 4 DEDDF SAFONAU BWYD 1999

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol; ac
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Llofnodwyd drwy Awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru
5 Medi 2001

# CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS YN UNOL Â PHARAGRAFF 4(2) ATODLEN 4 DEDDF SAFONAU BWYD 1999

1. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn paratoi cyfrif cyfunol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a'r blynyddoedd ariannol dilynol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu y rhifyn o Lawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau y Trysorlys sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn y mae'r cyfrif yn cael ei baratoi ar ei chyfer.

2. Bydd y cyfrif cyfunol yn seiliedig ar y cyfrifon ar wahân a baratowyd mewn perthynas â'r Amcangyfrif a gymeradwywyd gan Dŷ'r Cyffredin o dan adran 5 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; y symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 39(3)(a) Deddf Safonau Bwyd 1999 ("y Ddeddf"); y symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban o dan adran 39(3)(b) y Ddeddf; a'r symiau a ddyrannwyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon o dan adran 39(3)(c) y Ddeddf.

3. Bydd y cyfrif cyfunol yn cael ei baratoi er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa gyfunol ar 31 Mawrth 2003 a'r Safonau Bwyd ar ddiwedd y flwyddyn briodol, ac o alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau 6 parod am y flwyddyn ariannol briodol.


4. Bydd y cyfrif cyfunol yn cael ei anfon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol erbyn 30ain Tachwedd fan bellaf yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr un y mae'r cyfrif cyfunol yn cyfeirio ati; ac i'r Trysorlys erbyn 15fed Ionawr fan bellaf yn y flwyddyn honno.

David Loweth
Pennaeth y Tîm Cyfrifyddu Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi
31 Ionawr 2002

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Datganiad Cyfrifon ar gyfer yr Alban

Datganiad am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 80 |
| Datganiad o reolaeth fewnol ar gyfer FSA yr Alban | 81 |
| Tystysgrif archwilio – Yr Alban | 84 |
| Crynodeb o alldro'r adnoddau – yr Alban | 86 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 88 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion yr Alban | 94 |

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon yn nodi ei gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Gwneir hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan Weinidogion yr Alban y dylai'r datganiad cyfrifon fanylu ar y defnydd o adnoddau a ddarparwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a rhaid iddynt gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban am y flwyddyn.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, i'r graddau ei fod yn briodol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion yr Alban, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:
   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
   b. gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.

5. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting.

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**28 Medi 2004**

Datganiad o reolaeth fewnol ar gyfer

# FSA yr Alban

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r asiantaeth yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys, ac rwyf hefyd yn gweithredu fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod gweithgareddau FSA yr Alban wedi eu hariannu drwy Senedd yr Alban, mae'n rhan o FSA y Deyrnas Unedig ac nid yw'n sefydliad cyfansoddiadol ar wahân. Mae rheolaethau mewnol, a risgiau'r swyddfeydd datganoledig yr un peth ag y maent ar gyfer gweddill yr FSA. Rheolir y sefydliad fel un endid, waeth sut yr ariennir y darnau cydrannol.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr FSA yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf fi ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a sefydlwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn gyda chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y Pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- prosesau cynllunio busnes ac ariannol (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- deiliaid cyllidebau yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- deiliaid cyllidebau yn llofnodi datganiad o sicrwydd atebolrwydd chwarterol i gadarnhau cydymffurfiaeth â phrosesau a gweithdrefnau;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan ddeiliaid cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- gweithdai gyda Phenaethiaid Isadrannau a Chyfarwyddwyr i ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol ac ymgorffori'r broses ymhellach ar draws yr FSA;

- mae tudalen ar Lywodraethu Corfforaethol wedi'i lansio ar Fewnrwyd yr FSA. Mae'r dudalen hon yn cynnwys diffiniad o Lywodraethu Corfforaethol a chysylltiadau â'r holl ganllawiau a'r cyfarwyddyd sydd ar gael. Caiff y dudalen ei datblygu ymhellach yng ngoleuni adborth gan gwsmeriaid a gofynion newydd;
- mae pob deiliad cyllideb wedi derbyn copi personol o lawlyfr cyllid yr FSA.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr FSA, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a rheoli'r risgiau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod ar waith yn yr FSA am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Y gallu i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Trafodir y gofrestr o risgiau strategol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Mae perchenogion risgiau hefyd yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau o leiaf unwaith bob chwarter ac maent yn cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig i'w gyflwyno i'r Prif Weithredwr.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r hyfforddiant ym maes cynllunio busnes drwy gynnwys canllawiau ychwanegol ar nodi a rheoli risgiau a materion llywodraethu corfforaethol.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Y fframwaith risgiau a rheolaeth

Yn yr FSA, y prif brosesau sydd ar waith ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau yw:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi Cyfraith Diogelwch Bwyd yn gywir;

- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr FSA i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Rydym yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'r gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Mae Penaethiaid Is-adrannau yn cynnal adolygiad ffurfiol o'u cynlluniau busnes a'r risgiau busnes bob chwarter ac yn llofnodi datganiad i gadarnhau bod yr adolygiad wedi'i gynnal. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a hyfforddiant a dargedwyd (gan gynnwys rheoli risgiau) i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr FSA yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r FSA yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn bob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r FSA, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr FSA a chynllunio ymlaen llaw; a rhoi adborth i'r FSA ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr FSA sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i fynd i'r afael â diffygion a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. O ganlyniad i waith ein harchwilwyr mewnol ac adolygiad interim gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cymerwyd amrywiaeth o fesurau pellach yn ystod y flwyddyn i gryfhau'r rheolaethau.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001-06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o 5 mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr**
**Asiantaeth Safonau Bwyd**
**28 Medi 2004**

# Tystysgrif archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd yr Alban

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 86 i 93 o dan Atodlen 4(3) Deddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifyddu fel y'u nodir ar dudalen 88.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 80 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau Gweinidogion yr Alban a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno'r gweithgareddau hynny gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a ariennir gan Senedd yr Alban yn deg, ac a chawsant eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau Gweinidogion yr Alban a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant ymhob ystyr berthnasol wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Senedd yr Alban a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 81 i 83 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad o Reolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, p'un a yw Datganiad o Reolaeth Fewnol y Swyddog Cyfrifyddu yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i mi hefyd lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu ei gweithdrefnau risgiau a rheoli.

## Sail y farn archwilio

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau pwysig a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

# Tystysgrif archwilio

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ymhob ystyr berthnasol, wedi ei gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Senedd yr Alban a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiad cyfrifon yn rhoi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol, a gofynion arian parod gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a ariannwyd gan Senedd yr Alban am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion yr Alban; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Senedd yr Alban ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

22 Hydref 2004

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

# Crynodeb o Alldro'r Adnoddau

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | 2003/04 | | | | | | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig/ (gormodedd) | Alldro'r Flwyddynr Flaenorol |
| | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Adnoddau** | | | | | | | | |
| Cais am adnoddau | 6,372 | - | 6,372 | 6,311 | - | 6,311 | 61 | 4,533 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **6,372** | **-** | **6,372** | **6,311** | **-** | **6,311** | **61** | **4,533** |

## Cysoni Alldro Net yr Adnoddau â'r Gofyniad Arian Parod Net

| | Nodyn | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd |
| Alldro Net yr Adnoddau | | 6,311 | 4,533 |
| **Addasiadau croniadau:** | | | |
| Dibrisiad | 3 | (88) | (102) |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | (37) | (10) |
| Cynnydd (+)/Gostyngiad (-) mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 6 | (22) | 39 |
| Cynnydd(-)/Gostyngiad (+) mewn credydwyr | 6 | (584) | 1,188 |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | 109 | 30 |
| Elw wrth Waredu | | (22) | - |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | **5,667** | **5,678** |

## Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â chyllid gan Senedd yr Alban

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Gofyniad arian parod net | (5,667) | (5,678) |
| Arian parod a ddygwyd ymlaen | 18 | 896 |
| Cyllid arian parod a ddarparwyd gan Senedd yr Alban | 6,100 | 4,800 |
| **Arian parod a gariwyd ymlaen** | **451** | **18** |

## Datganiad Cost Weithredol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | | | 2003-04 | 2002-03 |
|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Costau gweinyddol** | | | | |
| Costau staff | 2 | 1,791 | | 1,666 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 1,545 | | 1,155 |
| Costau Gweinyddol Gros | | | 3,336 | 2,821 |
| Incwm Gweithredol | | | - | - |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **3,336** | **2,821** |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | |
| Diogelu a Hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | 4 | 2,975 | | 1,712 |
| Llai incwm | | - | | - |
| **Cyfanswm** | | | **2,975** | **1,712** |
| **Cost Weithredol Net** | | | **6,311** | **4,533** |

Mae'r Crynodeb o Alldro'r Adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros FSA Yr Alban â gwariant gwirioneddol. Nid oes ganddo'r un swyddogaeth â'r 'Crynodeb o Alldro'r Adnoddau', fel y'i diffinnir gan Lawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel dull rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol Senedd yr Alban ar gyfer gorwariant o'i gymharu â'r amcangyfrif.

Jon Bell,
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2004

# Nodiadau i'r cyfrifon

1 Polisïau Cyfrifyddu

1.1 Cwmpas y Cyfrifon

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr FSA gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n codi wrth fwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd ledled y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r FSA hefyd yn gweithredu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban drwy ei thair swyddfa ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno adroddiad ar alldro net yr adnoddau, costau gweithredol net a chyllid arian parod gweithrediadau'r FSA. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r FSA yn yr Alban, a ariennir ar wahân gan symiau a bleidleisiwyd gan Senedd yr Alban.

Nid yw'r datganiadau hyn yn cynnwys gorbenion canolog yr FSA, a ariennir gan arian a bleidleisiwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r FSA.

Cynhyrchwyd cyfrifon ar wahân hefyd ar gyfer gweithgareddau'r FSA yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol yr FSA, a chynhyrchir cyfrif cyfunol hefyd yn nodi gweithgareddau'r FSA yn gyffredinol.

1.2 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion yr Alban. Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd hyn fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Deddf Safonau Bwyd 1999, archwilir holl gyfrifon yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

1.3 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn i roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn ac i gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau ac yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM, i'r graddau ei fod yn gymwys ac yn briodol i'r asiantaeth.

1.4 Sail Ariannu

Darperir arian gan Senedd yr Alban ar sail y bwriedir iddo dalu'r costau arian parod net am y cyfnod. Mae'r cysoniad o'r alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net yn dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i'r alldro adnoddau ar sail croniadau er mwyn pennu'r swm arian parod sydd i'w ariannu gan Senedd yr Alban.

Felly mae Atodlen 1 yn adlewyrchu addasiadau i roi cyfrif am:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n parhau heb eu talu ar 31ain Mawrth 2004;

b) costau arian parod prynu asedau sefydlog, yn hytrach na'r tâl ar gyfer dibrisiant a adlewyrchir yn yr alldro adnoddau; a

c) dileu costau anariannol megis y ffi archwilio, nad oes angen taliad arian parod ar ei gyfer er bod cyfrif ar ei gyfer yn yr alldro adnoddau.

Darperir rhagor o fanylion yn nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

1.5 Costau Gweinyddol a Chostau'r Rhaglen

Dadansoddir y datganiad cost weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr FSA fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol.

Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

1.6 Pensiynau

Mae cyflogeion FSA yr Alban yn weision sifil. Cwmpesir y mwyafrif o'r staff gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun anghyfrannol nas ariennir. Mae'r cynllun yn gynllun buddiannau diffiniedig ac mae'r rhwymedigaeth dros daliadau buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS, y cyhoeddir cyfrifon ar wahân ar ei gyfer. Mae'r FSA yn talu costau pensiwn y staff sydd wedi'u secondio o Weithrediaeth yr Alban. Lle y secondiwyd staff o sefydliadau eraill (er enghraifft awdurdodau lleol), cynhwyswyd tâl a godir sy'n adlewyrchu cost y cyfraniad i'w cynllun pensiwn.

1.7 Treth Ar Werth

Cynhwysir gwariant yn glir o TAW y gellir ei hadennill. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad cost weithredol.

# 2 Costau a nifer y staff sy'n gweithio i FSA yr Alban

a)

| Mae Costau'r Staff a Secondiwyd yn cynnwys: | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|
| Cyflogau | 1,348 | 1,296 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 105 | 88 |
| Costau Pensiwn Eraill | 175 | 167 |
| **Is-gyfanswm** | **1,628** | **1,551** |
| Staff yr Asiantaeth | 163 | 115 |
| Cyfanswm | 1,791 | 1,666 |
| Llai adenillion mewn perthynas â'r rhai a secondiwyd yn allanol | - | - |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **1,791** | **1,666** |

Mae'r mwyafrif o'r staff sy'n gweithio i FSA yr Alban wedi eu secondio o Weithrediaeth yr Alban. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd nesaf, y bwriad yw bod pob aelod o staff yn dod yn gyflogai i'r FSA.

b)

| b) Roedd nifer y bobl sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan FSA yr Alban yn ystod y flwyddyn 2003/04 ar gyfartaledd fesul nod fel a ganlyn: | 2003/04 |
|---|---|
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 17 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 33 |
| Nod 3<br>Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 15 |
| Cyfanswm | 65 |

| Roedd nifer y bobl sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan FSA yr Alban yn ystod y flwyddyn 2002/03 ar gyfartaledd fesul nod fel a ganlyn: | 2002/03 |
|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 18 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 15 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 34 |
| Cyfanswm | 67 |

c)

| Roedd Costau Staff fesul nod fel a ganlyn: | 2003/04 £000oedd |
|---|---|
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 469 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 903 |
| Nod 3<br>Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 419 |
| Cyfanswm | 1,791 |

| | 2002/03 |
|---|---|
| Roedd Costau Staff fesul nod fel a ganlyn: | £000oedd |
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau<br>Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 440 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 397 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 829 |
| Cyfanswm | 1,666 |

ch) Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

2003/04

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 04 | CETV* ar 31 Mawrth 04 | CETV ar 31Mawrth03 | Cynnydd gwirioneddol Real mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | | | |
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| George Patterson Cyfarwyddwr, FSA yr Alban | 70-75 | 0-2.5 | 0-5 | 65 | 48 | 16 |

2002/03

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 03 |
|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| | (£000) | (£000) | (£000) |
| George Patterson Cyfarwyddwr, FSA yr Alban | 75-80 | 0-2.5 | 0-5 |

Mae Grŵp Rheoli'r FSA wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu hoedrannau.
* CETV yw'r Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar gyfer pensiynau.
Nid yw gwerthoedd CETV cymharol ar gyfer 2002/03 ar gael.

# 3 Costau
## Gweinyddol Eraill

| | | 2003/04 | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Rhent-daliadau o dan brydlesau gweithredol: | | | | |
| Hurio offer a pheiriannau | | 2 | | - |
| Prydlesau gweithredol eraill | | 252 | | 333 |
| **Eitemau anariannol:** | | | | |
| Dibrisiad | 88 | | 102 | |
| Elw ar Waredu | (15) | | - | |
| Eitemau anariannol eraill | 42 | | - | |
| Ffioedd archwilio | 10 | | 10 | |
| **Cyfanswm eitemau anariannol:** | | **125** | | **112** |
| Costau Swyddfeydd | | 395 | | 102 |
| Gorbenion staff | | 303 | | 325 |
| Costau gweinyddol | | 262 | | 161 |
| Costau TG | | 142 | | 57 |
| Costau'r Pwyllgor | | 64 | | 65 |
| | | **1,545** | | **1,155** |

Mae Costau Swyddfeydd yn cynnwys taliad unigol o £200.000, sef costau annisgwyl a oedd yn gysylltiedig â gosod murlenni yn y swyddfa yn Aberdeen.

# 4 Costau net y rhaglen

a) **Costau Net y Rhaglen:**

| | 2003/04 | 2002/03 Ailddatganwyd |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Diogelwch Bwyd Micro | 1,402 | 14 |
| Meddygol a Chyfreithiol | 233 | 137 |
| Ymchwil a datblygu | 420 | 251 |
| Rhaglenni Eraill | - | 834 |
| Diogelwch ac Addysg Bwyd | 74 | 181 |
| Y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 772 | 173 |
| Amrywiol | 74 | 122 |
| | **2,975** | **1,712** |

b) **Costau Net y Rhaglen Fesul Nod**

| | 2003/04 |
|---|---|
| | £000oedd |
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 1,258 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 931 |
| Nod 3<br>Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 786 |
| **Cyfanswm** | **2,975** |

| | 2002/03 |
|---|---|
| | £000oedd |
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau<br>Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 732 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf<br>gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y<br>DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 482 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 498 |
| Cyfanswm | 1,712 |

# 5 Trafodion partïon cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r FSA yn ystod y flwyddyn.

Cafodd yr FSA nifer o drafodion ag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill.

# 6 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau | (22) | 39 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (584) | 1,188 |
| | (606) | 1,227 |

# 7 Dyledwyr

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Rhagdaliadau | 15 | 114 |
| Dyledwyr TAW | 77 | 0 |
| Cyfanswm y Dyledwyr | 92 | 114 |
| | 2003/04 | 2002/03 |

# 8 Credydwyr

| | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Credydwyr Masnach | 261 | 44 |
| Credydwyr Ymchwil | 38 | 0 |
| Credydwyr Eraill | 3 | 0 |
| Croniadau | 685 | 358 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 451 | 18 |
| | 1,438 | 420 |

# 9 Pwyllgor cynghori

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, mae gan yr FSA bwyllgorau cynghori ar wahân ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff cynghori ar yr FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA yn ôl statud ystyried eu cyngor yn ei gwaith. Rhestrir Aelodau'r Pwyllgor isod:

**Yr Alban – Aelodau'r Pwyllgor Cynghori**

Michael Gibson (Cadeirydd)

Wilma Odell

Yr Athro Andrew Miller (Dirprwy Gadeirydd)

Ross MacDonald

Yr Athro William Reilly

Yr Athro Philip Thomas

Ann Campbell

William Davidson

Yr Athro Hugh Pennington

Catherine Brady

Dr Marnie Sommerville

CYFARWYDDYD

## CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN WEINIDOGION YR ALBAN YN UNOL AG ADRAN 39(7) AC ATODLEN 4 DEDDF SAFONAU BWYD 1999

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol;
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gronfa Gyfunol yr Alban.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.


Llofnodwyd drwy Awdurdod Gweinidogion yr Alban:

1 Hydref 2001

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Datganiad Cyfrifon ar gyfer Gogledd Iwerddon

Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 98 |
| Datganiad o reolaeth fewnol ar gyfer FSA Gogledd Iwerddon | 99 |
| Tystysgrif archwilio – Gogledd Iwerddon | 102 |
| Crynodeb o alldro'r adnoddau – Gogledd Iwerddon | 104 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 106 |
| Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus ar gyfer Gogledd Iwerddon | 112 |

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon yn nodi ei gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (yr Adran) ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Gwneir hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan yr Adran y dylai'r datganiad cyfrifon fanylu ar y defnydd o adnoddau a ddarparwyd gan yr Adran ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a rhaid iddynt gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer Gogledd Iwerddon am y flwyddyn.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, i'r graddau ei fod yn briodol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:
   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
   b. gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.

5. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting.

Dr Jon Bell
Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2004

Datganiad o Reolaeth Fewnol ar gyfer

# FSA Gogledd Iwerddon

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r asiantaeth yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys, ac rwyf hefyd yn gweithredu fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod gweithgareddau FSA Gogledd Iwerddon wedi eu hariannu drwy Gynulliad Gogledd Iwerddon, mae'n rhan o FSA y Deyrnas Unedig ac nid yw'n sefydliad cyfansoddiadol ar wahân. Mae rheolaethau mewnol, a risgiau'r swyddfeydd datganoledig yr un peth ag y maent ar gyfer gweddill yr FSA. Rheolir y sefydliad fel un endid, waeth sut yr ariennir y darnau cydrannol.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr FSA yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf fi ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a sefydlwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn gyda chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y Pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- prosesau cynllunio busnes ac ariannol (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- deiliaid cyllidebau yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- deiliaid cyllidebau yn llofnodi datganiad o sicrwydd atebolrwydd chwarterol i gadarnhau cydymffurfiaeth â phrosesau a gweithdrefnau;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan ddeiliaid cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- gweithdai gyda Phenaethiaid Is-adrannau a Chyfarwyddwyr i ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol ac ymgorffori'r broses ymhellach ar draws yr FSA;
- mae tudalen ar Lywodraethu Corfforaethol wedi'i lansio ar Fewnrwyd yr FSA. Mae'r dudalen hon yn cynnwys diffiniad o Lywodraethu Corfforaethol a chysylltiadau â'r holl ganllawiau a'r cyfarwyddyd sydd ar gael. Caiff y dudalen ei datblygu ymhellach yng ngoleuni adborth gan gwsmeriaid a gofynion newydd;
- mae pob deiliad cyllideb wedi derbyn copi personol o lawlyfr cyllid yr FSA.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr FSA, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a rheoli'r risgiau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod ar waith yn yr FSA am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Y gallu i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Trafodir y gofrestr o risgiau strategol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Mae perchenogion risgiau hefyd yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau o leiaf unwaith bob chwarter ac maent yn cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig i'w gyflwyno i'r Prif Weithredwr.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r hyfforddiant ym maes cynllunio busnes drwy gynnwys canllawiau ychwanegol ar nodi a rheoli risgiau a materion llywodraethu corfforaethol.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Y fframwaith risgiau a rheolaeth

Yr yr FSA, y prif brosesau sydd ar waith ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau yw:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi cyfraith diogelwch bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr FSA i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Rydym yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'r gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Mae Penaethiaid Is-adrannau yn cynnal adolygiad ffurfiol o'u cynlluniau busnes a'r risgiau busnes bob chwarter ac yn llofnodi datganiad i gadarnhau bod yr adolygiad wedi'i gynnal. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a hyfforddiant a dargedwyd (gan gynnwys rheoli risgiau) i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr FSA yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r FSA yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn bob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r FSA, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr FSA a chynllunio ymlaen llaw; a rhoi adborth i'r FSA ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr FSA sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i fynd i'r afael â diffygion a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. O ganlyniad i waith ein harchwilwyr mewnol ac adolygiad interim gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cymerwyd amrywiaeth o fesurau pellach yn ystod y flwyddyn i gryfhau'r rheolaethau.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001-06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o 5 mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr**
**Asiantaeth Safonau Bwyd**
**28 Medi 2004**

# Tystysgrif archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 104 i 111 o dan Atodlen 4(3) Deddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifyddu fel y'u nodir ar dudalen 106.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 98 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau'r Adran Cyllid a Phersonél a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno'r gweithgareddau hynny gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a ariennir gan y Senedd drwy'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus yn deg, ac a chawsant eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau'r Adran Cyllid a Phersonél a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant ymhob ystyr berthnasol wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 99 i 101 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad o Reolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, p'un a yw Datganiad o Reolaeth Fewnol y Swyddog Cyfrifyddu yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i mi hefyd lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu ei gweithdrefnau risgiau a rheoli.

## Sail y farn archwilio

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau pwysig a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ymhob ystyr berthnasol, wedi ei gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

# Tystysgrif archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiad cyfrifon yn rhoi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol, a gofynion arian parod gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a ariannwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan yr Adran Cyllid a Phersonél ar gyfer Gogledd Iwerddon; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

22 Hydref 2004

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

*Asiantaeth Safonau Bwyd – Gogledd Iwerddon*

# Crynodeb o Alldro'r Adnoddau

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | 2003/04 | | | | | | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig/ (gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau | | | | | | | | |
| Cais am adnoddau | 2,884 | - | 2,884 | 2,867 | - | 2,867 | 17 | 1,376 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **2,884** | **-** | **2,884** | **2,867** | **-** | **2,867** | **17** | **1,376** |

## Cysoni Alldro Net yr Adnoddau â'r Gofyniad Arian Parod Net

| | Nodyn | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd |
| Alldro Net yr Adnoddau | | 2,867 | 1,376 |
| Addasiadau croniadau: | | | |
| Dibrisiad | 3 | (33) | (53) |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | (24) | (23) |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 6 | 25 | (5) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | 6 | 10 | (82) |
| Cyfalaf: | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | 27 | 11 |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | **2,872** | **1,224** |

## Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â chyllid gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus – Gogledd Iwerddon (DHSSPS – NI)

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Gofyniad Arian Parod Net | (2,872) | (1,224) |
| Balans arian parod a ddygwyd ymlaen | 105 | 23 |
| Cyllid arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Gogledd Iwerddon | 2,736 | 1,055 |
| Cyllid arian parod a ddarparwyd yn anuniongyrchol drwy Gynulliad Gogledd Iwerddon | 103 | 251 |
| Arian parod a gariwyd ymlaen | 72 | 105 |

## Datganiad Cost Weithredol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|
| | | | £000oedd | £000oedd |
| Costau Gweinyddol | | | | |
| Costau Staff | 2 | 764 | | 609 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 492 | | 473 |
| Costau Gweinyddol Gros | | | 1,256 | 1,082 |
| Incwm Gweithredol | | - | | - |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **1,256** | **1,082** |
| Costau'r Rhaglen | | | | |
| Diogelu a Hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | 4 | 1,611 | | 294 |
| Llai incwm | | - | | |
| - | | | | |
| Cyfanswm | | | 1,611 | 294 |
| Cost Weithredol Net | | | 2,867 | 1,376 |

Mae'r crynodeb o alldro'r adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros FSA Gogledd Iwerddon â gwariant gwirioneddol. Nid oes ganddo'r un swyddogaeth â'r "Crynodeb o Alldro'r Adnoddau", fel y'i diffinnir gan Lawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel dull rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol y Cynulliad ar gyfer gorwariant o'i gymharu â'r amcangyfrif.

Dr Jon Bell

Swyddog Cyfrifyddu

28 Medi 2004

# Nodiadau i'r cyfrifon

1 Polisïau Cyfrifyddu

1.1 Cwmpas y Cyfrifon

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr FSA gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n codi wrth fwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd ledled y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r FSA hefyd yn gweithredu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban drwy ei thair swyddfa ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno adroddiad ar alldro net yr adnoddau, costau gweithredol net a chyllid arian parod gweithrediadau'r FSA. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r FSA yng Ngogledd Iwerddon, a ariennir ar wahân gan symiau a bleidleisiwyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Nid yw'r datganiadau hyn yn cynnwys gorbenion canolog yr FSA, a ariennir gan arian a bleidleisiwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r FSA.

Cynhyrchwyd cyfrifon ar wahân hefyd ar gyfer gweithgareddau'r FSA yng Nghymru a'r Alban, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol yr FSA, a chynhyrchir cyfrif cyfunol hefyd yn nodi gweithgareddau'r FSA yn gyffredinol.

1.2 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Cyllid a Phersonél ar gyfer Gogledd Iwerddon. Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd hyn fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Deddf Safonau Bwyd 1999, archwilir holl gyfrifon yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

1.3 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn i roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn ac i gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Yn amodol ar y gofyniad hwn paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau ac yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM, i'r graddau ei fod yn gymwys ac yn briodol i'r Asiantaeth.

1.4 Sail Ariannu

Darperir arian gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ar sail y bwriedir iddo dalu'r costau arian parod net am y cyfnod. Mae'r cysoniad o'r alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net yn dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i'r alldro adnoddau ar sail croniadau er mwyn pennu'r swm arian parod sydd i'w ariannu gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Felly mae Atodlen 1 yn adlewyrchu addasiadau i roi cyfrif am:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n parhau heb eu talu ar 31ain Mawrth 2004;

b) costau arian parod prynu asedau sefydlog, yn hytrach na'r tâl ar gyfer dibrisiant a adlewyrchir yn yr alldro adnoddau; a

c) dileu costau anariannol megis y ffi archwilio, nad oes angen taliad arian parod ar ei gyfer er bod cyfrif ar ei gyfer yn yr alldro adnoddau.

Darperir rhagor o fanylion yn nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

1.5 Costau Gweinyddol a Chostau'r Rhaglen

Dadansoddir y datganiad cost weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr FSA fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol.

Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

1.6 Pensiynau

Mae'r mwyafrif o Staff yr FSA yn weision sifil a gyflogir gan yr FSA. Fel y cyfryw, fe'u cwmpesir gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Mae hwn yn gynllun anghyfrannol nas ariennir. Mae'r cynllun yn gynllun buddiannau diffiniedig ac mae'r rhwymedigaeth dros daliadau buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS, y cyhoeddir cyfrifon ar wahân ar ei gyfer.

Yn flaenorol, roedd mwyafrif o staff yr FSA yng Ngogledd Iwerddon wedi'u secondio o Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon. Roedd yr FSA wedi cydnabod cost y ddarpariaeth pensiwn ar eu cyfer a staff eraill a secondiwyd drwy dalu tâl a godir ar sail groniadol i'r gronfa bensiwn berthnasol.

1.7 Treth Ar Werth

Cynhwysir gwariant yn glir o TAW y gellir ei hadennill. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y Datganiad Cost Weithredol.

# 2 Costau a nifer y staff

| a) | | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|---|
| | **Mae costau staff yn cynnwys** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| | Cyflogau | 535 | 202 |
| | Costau Nawdd Cymdeithasol | 42 | 17 |
| | Costau Pensiwn Eraill | 80 | 32 |
| | **Is-gyfanswm** | **657** | **251** |
| | Rhai a Secondiwyd yn Fewnol | 103 | 354 |
| | Staff yr Asiantaeth | 4 | 4 |
| | **Cyfanswm** | **764** | **609** |
| | Llai adenillion mewn perthynas â'r rhai a secondiwyd yn allanol | - | - |
| | **Cyfanswm y Costau Net** | **764** | **609** |

| b) | | 2003/04 |
|---|---|---|
| | **Roedd nifer y bobl sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan FSA Gogledd Iwerddon yn ystod y flwyddyn 2003-04 ar gyfartaledd fesul nod fel a ganlyn:** | |
| | Nod 1 | |
| | Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 2 |
| | Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 14 |
| | Nod 3 | |
| | Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 4 |
| | | **20** |

| | 2002/03 |
|---|---|
| **Roedd nifer y bobl sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan FSA Gogledd Iwerddon yn ystod y flwyddyn 2002-03 ar gyfartaledd fesul nod fel a ganlyn:** | |
| Nod 1 | |
| Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 2 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 13 |
| Nod 3 | |
| Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 4 |
| | **19** |

| c) | | 2003/04 |
|---|---|---|
| | **Roedd Costau Staff fesul nod fel a ganlyn:** | **£000oedd** |
| | Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 76 |
| | Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 535 |
| | Nod 3<br>Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 153 |
| | | **764** |

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

| Roedd Costau Staff fesul nod fel a ganlyn: | 2002/03<br>£000 |
|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 67 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 450 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 92 |
| | **609** |

ch) Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

2003/04

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 04 | CETV* ar 31 Mawrth 04 | CETV ar 31 Mawrth 03 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000 (£000) | £2,500 (£000) | £5,000 (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Morris McAllister, FSA Gogledd Iwerddon | 70-75 | 2.5-5.0 | 25-30 | 483 | 423 | 60 |

2002/03

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 03 |
|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000 (£000) | £2,500 (£000) | £5,000 (£000) |
| Morris McAllister, FSA Gogledd Iwerddon | 60-65 | 0-2.5 | 25-30 |

Mae pob Aelod o Grŵp Rheoli'r FSA wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.
* (CETV yw'r Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar gyfer pensiynau)

# 3 Costau Gweinyddol Eraill

| | 2003/04<br>£000oedd | £000oedd | 2002/03<br>£000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Rhent-daliadau o dan brydlesau gweithredol:** | | | | |
| Hurio offer a pheiriannau | | 5 | | 16 |
| Prydlesau gweithredol eraill | | 76 | | 71 |
| **Eitemau anariannol:** | | | | |
| Dibrisiad | 33 | | 53 | |
| Eitemau anariannol eraill | 14 | | - | |
| Ffioedd archwilio | 10 | | 10 | |
| **Cyfanswm eitemau anariannol** | | **57** | | **63** |
| Costau swyddfeydd | | 135 | | 72 |
| Gorbenion staff | | 73 | | 68 |
| Costau gweinyddol | | 54 | | 112 |
| Costau TG | | 32 | | 16 |
| Costau'r Pwyllgor | | 60 | | 55 |
| | | **492** | | **473** |

# 4 Costau Net y Rhaglen

| | 2003/04<br>£000oedd | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 1,493 | 242 |
| Diogelwch ac Addysg Bwyd Meicro | 77 | 42 |
| Maeth | 41 | 10 |
| | **1,611** | **294** |

| | | 2003/04<br>£000oedd |
|---|---|---|
| b) | **Costau Net y Rhaglen Fesul Nod** | |
| | Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd ac yn hygrededd yr FSA | - |
| | Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 1,570 |
| | Nod 3<br>Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 41 |
| | | **1,611** |

| | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|
| **Costau Net y Rhaglen Fesul Nod** | |
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | - |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 284 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 10 |
| | **294** |

# 5 Trafodion

## Partïon Cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r FSA yn ystod y flwyddyn.

Cafodd yr FSA nifer o drafodion ag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill.

Mae Michael Walker wedi datgelu fod practis, y mae ef yn bartner ynddo, wedi cynnal gwaith ymchwil dadansoddol ar ran yr FSA, sy'n werth tua £300.

# 6 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith

| | 2003/04<br>£000oedd | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 25 | (5) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | 10 | (82) |
| | 35 | (87) |

# 7 Dyledwyr

| | 2003/04<br>£000oedd | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Rhagdaliadau | 17 | 10 |
| Dyledwyr TAW | 18 | 0 |
| | 35 | 10 |

# 8 Credydwyr

| | 2003/04<br>£000oedd | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Credydwyr Masnach | 53 | 8 |
| Credydwyr Eraill | 3 | 0 |
| Croniadau | 66 | 124 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 72 | 105 |
| | 194 | 237 |

# 9 Pwyllgor cynghori

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, mae gan yr FSA bwyllgorau cynghori ar wahân ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff cynghori ar yr FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA yn ôl statud ystyried eu cyngor yn ei gwaith. Rhestrir Aelodau'r Pwyllgor isod:

Gogledd Iwerddon – Aelodau'r Pwyllgor Cynghori

Michael Walker (Cadeirydd) – ymddiswyddodd o'r pwyllgor cynghori ar ôl diwedd y flwyddyn
Patricia Grace McCusker
Yr Athro David McDowell
Maria McGuinness
David Mark
William Taylor
David Collins
Samuel Miskelly
David Stewart
Dr Vinod Tohani

# 10 Ymrwymiadau cyfalaf

Mae FSA Gogledd Iwerddon yn ymestyn ei swyddfa ar gost amcangyfrifedig o £173,000.
Ar 31 Mawrth 2004, roedd £41,000 wedi'i wario, gan adael ymrwymiad o £132,000 i'w dalu yn 2004/05.

## CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN YR ADRAN IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A DIOGELWCH CYHOEDDUS GYDA CHYMERADWYAETH YR ADRAN CYLLID A PHERSONÉL AR GYFER GOGLEDD IWERDDON YN UNOL AG ADRAN 39(7) AC ATODLEN 4 DEDDF SAFONAU BWYD 1999.

CYFARWYDDYD

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Gogledd Iwerddon) yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol;
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gais yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus am Adnodd B.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen Rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben.


Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Llofnodwyd drwy Awdurdod yr Adran Iechyd,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus.
Medi 2001

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cymru

Datganiad am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 116 |
| Datganiad o reolaeth fewnol ar gyfer FSA Cymru | 117 |
| Tystysgrif archwilio – Cymru | 120 |
| Crynodeb o alldro'r adnoddau – Cymru | 122 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 124 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 130 |

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. 1. O dan adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon yn nodi ei gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Gwneir hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan CCC y dylai'r datganiad cyfrifon fanylu ar y defnydd o adnoddau a ddarparwyd gan CCC ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.
2. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a rhaid iddynt gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd gan CCC am y flwyddyn.
3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.
4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, i'r graddau ei fod yn briodol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCC, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:
   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
   b. gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.
5. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting.

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**28 Medi 2004**

# Datganiad o Reolaeth Fewnol ar gyfer FSA Cymru

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r asiantaeth yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys, ac rwyf hefyd yn gweithredu fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod gweithgareddau FSA Cymru wedi eu hariannu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n rhan o FSA y Deyrnas Unedig ac nid yw'n sefydliad cyfansoddiadol ar wahân. Mae rheolaethau mewnol, a risgiau'r swyddfeydd datganoledig yr un peth ag y maent ar gyfer gweddill yr FSA. Rheolir y sefydliad fel un endid, waeth sut yr ariennir y darnau cydrannol.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr FSA yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf fi ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a sefydlwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn gyda chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y Pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- prosesau cynllunio busnes ac ariannol (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- deiliaid cyllidebau yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- deiliaid cyllidebau yn llofnodi datganiad o sicrwydd atebolrwydd chwarterol i gadarnhau cydymffurfiaeth â phrosesau a gweithdrefnau;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan ddeiliaid cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- gweithdai gyda Phenaethiaid Is-adrannau a Chyfarwyddwyr i ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol ac ymgorffori'r broses ymhellach ar draws yr FSA;
- mae tudalen ar Lywodraethu Corfforaethol wedi'i lansio ar Fewnrwyd yr FSA. Mae'r dudalen hon yn cynnwys diffiniad o Lywodraethu Corfforaethol a chysylltiadau â'r holl ganllawiau a'r cyfarwyddyd sydd ar gael. Caiff y dudalen ei datblygu ymhellach yng ngoleuni adborth gan gwsmeriaid a gofynion newydd;
- mae pob deiliad cyllideb wedi derbyn copi personol o lawlyfr cyllid yr FSA.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr FSA, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a rheoli'r risgiau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod ar waith yn yr FSA am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Y gallu i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Trafodir y gofrestr o risgiau strategol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Mae perchenogion risgiau hefyd yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau o leiaf unwaith bob chwarter ac maent yn cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig i'w gyflwyno i'r Prif Weithredwr.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r hyfforddiant ym maes cynllunio busnes drwy gynnwys canllawiau ychwanegol ar nodi a rheoli risgiau a materion llywodraethu corfforaethol.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Y fframwaith risgiau a rheolaeth

Yn yr FSA, y prif brosesau sydd ar waith ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau yw:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi cyfraith diogelwch bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr FSA i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Rydym yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'r gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheolaeth o risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Mae Penaethiaid Is-adrannau yn cynnal adolygiad ffurfiol o'u cynlluniau busnes a'r risgiau busnes bob chwarter ac yn llofnodi datganiad i gadarnhau bod yr adolygiad wedi'i gynnal. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a hyfforddiant a dargedwyd (gan gynnwys rheoli risgiau) i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr FSA yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r FSA yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn bob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r FSA, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr FSA a chynllunio ymlaen llaw; a rhoi adborth i'r FSA ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr FSA sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i fynd i'r afael â diffygion a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. O ganlyniad i waith ein harchwilwyr mewnol ac adolygiad interim gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cymerwyd amrywiaeth o fesurau pellach yn ystod y flwyddyn i gryfhau'r rheolaethau.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001-06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o 5 mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr**
**Asiantaeth Safonau Bwyd**
**28 Medi 2004**

# Tystysgrif archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 122 i 129 o dan Atodlen 4 (3) Deddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifyddu fel y'u nodir ar dudalen 124.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 116 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno'r gweithgareddau hynny gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn deg, ac a chawsant eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant ymhob ystyr berthnasol wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 117 i 119 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad o Reolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, p'un a yw Datganiad o Reolaeth Fewnol y Swyddog Cyfrifyddu yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i mi hefyd lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu ei gweithdrefnau risgiau a rheoli.

## Sail y farn archwilio

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau pwysig a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ymhob ystyr berthnasol, wedi ei gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

# Tystysgrif archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiad cyfrifon yn rhoi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol, a gofynion arian parod gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a ariannwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

22 Hydref 2004

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

*Asiantaeth Safonau Bwyd – Cymru*

# Crynodeb o Alldro'r Adnoddau

## am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | 2003/04 | | | | | | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | | |
| | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig/ (gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau | | | | | | | | |
| Cais am adnoddau | 2,277 | - | 2,277 | 2,214 | - | 2,214 | 63 | 2,060 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **2,277** | **-** | **2,277** | **2,214** | **-** | **2,214** | **63** | **2,060** |

## Cysoni Alldro Net yr Adnoddau â'r Gofyniad Arian Parod Net

| | Nodyn | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Alldro Net yr Adnoddau | | 2,214 | 2,060 |
| Addasiadau croniadau: | | | |
| Dibrisiad | 3 | (73) | (81) |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | (10) | (10) |
| Cynnydd (+)/Gostyngiad (-) mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 6 | 35 | 7 |
| Cynnydd(-)/Gostyngiad (+) mewn credydwyr | 6 | (167) | 37 |
| Cyfalaf: | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | 18 | 222 |
| Gofyniad Arian Parod Net | | 2,017 | 2,235 |

## Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â chyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **Gofyniad arian parod net** | (2,017) | (2,235) |
| **Arian parod a ddygwyd ymlaen** | 190 | 70 |
| **Cyllid arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru** | 1,971 | 1,859 |
| **Cyllid arian parod a ddarparwyd yn anuniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru** | 304 | 496 |
| **Arian parod a gariwyd ymlaen** | 448 | 190 |

## Datganiad Cost Weithredol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | | | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Costau Gweinyddol** | | | | |
| Costau staff | 2 | 593 | | 652 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 641 | | 482 |
| Costau Gweinyddol Gros | | | 1,234 | 1,134 |
| Incwm Gweithredol | | | - | - |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **1,234** | **1,134** |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | |
| Diogelu a Hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | 4 | 980 | | 926 |
| Llai incwm | | - | | - |
| **Cyfanswm** | | | **980** | **926** |
| **Cost Weithredol Net** | | | **2,214** | **2,060** |

Mae'r Crynodeb o Alldro'r Adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros FSA Cymru â gwariant gwirioneddol. Nid oes ganddo'r un swyddogaeth â'r 'Crynodeb o Alldro'r Adnoddau', fel y'i diffinnir gan Lawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel dull rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol y Cynulliad ar gyfer gorwariant o'i gymharu â'r amcangyfrif.

Dr Jon Bell, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2004

nodiadau

Nodiadau i'r

# Cyfrifon

### 1 Polisïau Cyfrifyddu

#### 1.1 Cwmpas y Cyfrifon

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr FSA gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n codi wrth fwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd ledled y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r FSA hefyd yn gweithredu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban drwy ei thair swyddfa ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno adroddiad ar alldro net yr adnoddau, costau gweithredol net a chyllid arian parod gweithrediadau'r FSA. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r FSA yng Nghymru, a ariennir ar wahân gan symiau a bleidleisiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nid yw'r datganiadau hyn yn cynnwys gorbenion canolog yr FSA, a ariennir gan arian a bleidleisiwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r FSA.

Cynhyrchwyd cyfrifon ar wahân hefyd ar gyfer gweithgareddau'r FSA yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol yr FSA, a chynhyrchir cyfrif cyfunol hefyd yn nodi gweithgareddau'r FSA yn gyffredinol.

#### 1.2 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd hyn fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Deddf Safonau Bwyd 1999, archwilir holl gyfrifon yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

#### 1.3 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn i roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn ac i gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau ac yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM, i'r graddau ei fod yn gymwys ac yn briodol i'r asiantaeth.

#### 1.4 Sail Ariannu

Darperir arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail y bwriedir iddo dalu'r costau arian parod net am y cyfnod. Mae'r cysoniad o alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net yn dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i'r alldro adnoddau ar sail croniadau er mwyn pennu'r swm arian parod sydd i'w ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Felly mae Atodlen 1 yn adlewyrchu addasiadau i roi cyfrif am:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n parhau heb eu talu ar 31ain Mawrth 2004;

b) costau arian parod prynu asedau sefydlog, yn hytrach na'r tâl ar gyfer dibrisiant a adlewyrchir yn yr alldro adnoddau; a

c) dileu costau anariannol megis y ffi archwilio, nad oes angen taliad arian parod ar ei gyfer er bod cyfrif ar ei gyfer yn yr alldro adnoddau.
Darperir rhagor o fanylion yn nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

#### 1.5 1.5 Costau Gweinyddol a Chostau'r Rhaglen

Dadansoddir y datganiad cost weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr FSA fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol.

Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

#### 1.6 1.6 Pensiynau

Mae cyflogeion FSA Cymru yn weision sifil. Caiff mwyafrif y staff eu cwmpasu gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun anghyfrannol nas ariennir. Mae'r cynllun yn gynllun buddiannau diffiniedig ac mae'r rhwymedigaeth dros daliadau buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS, y cyhoeddir cyfrifon ar wahân ar ei gyfer.

Mae'r FSA yn talu costau pensiwn y staff a gaiff eu secondio o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Lle y secondiwyd staff o sefydliadau eraill (er enghraifft awdurdodau lleol), cynhwyswyd tâl a godir sy'n adlewyrchu cost y cyfraniad i'w cynllun pensiwn.

#### 1.7 Treth Ar Werth

Cynhwysir gwariant yn glir o TAW y gellir ei hadennill. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad cost weithredol.

# 2 Costau a nifer y staff sy'n gweithio i FSA Cymru

| a) Mae Costau Staff yn cynnwys: | 2003/04 £000oedd | 2002/03 £000oedd |
|---|---|---|
| Cyflogau | 239 | 74 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 18 | 5 |
| Costau Pensiwn Eraill | 31 | 10 |
| **Is-gyfanswm** | **288** | **89** |
| Rhai a Secondiwyd yn Fewnol | 304 | 558 |
| Staff yr Asiantaeth | 1 | 5 |
| **Cyfanswm** | **593** | **652** |
| Llai adenillion mewn perthynas â'r rhai a secondiwyd yn allanol | - | - |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **593** | **652** |

b) Roedd nifer y bobl sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan FSA Cymru yn ystod y flwyddyn 2003/04 ar gyfartaledd fesul nod fel a ganlyn:

| | 2003/04 |
|---|---|
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 5 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 9 |
| Nod 3<br>Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 7 |
| | **21** |

Roedd nifer y bobl sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan FSA Cymru yn ystod y flwyddyn 2002/03 ar gyfartaledd fesul nod fel a ganlyn:

| | 2002/03 |
|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 6 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 8 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 7 |
| | **21** |

| c) Roedd Costau Staff fesul nod fel a ganlyn: | 2003/04 £000oedd |
|---|---|
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 118 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 241 |
| Nod 3<br>Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 234 |
| | **593** |

| Roedd Costau Staff fesul nod fel a ganlyn: | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau<br>Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 131 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau<br>Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 203 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 318 |
| | **652** |

ch) Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

2003/04

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Buddiannau mewn Da | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 04 | CETV* ar 31 Mawrth 04 | CETV ar 31 Mawrth 03 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000<br>(£000) | £2,500<br>(£000) | £2,500<br>(£000) | £2,500<br>(£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Joy Whinney, Cyfarwyddwr, FSA Cymru | 15-20 | – | 0-2.5 | 5-10 | 104 | 94 | 4 |
| Steve Wearne<br>Cyfarwyddwr Dros Dro, FSA Cymru (o 21 Gorffennaf 2003) | 35-40 | 5-7.5 | 0-2.5 | 5-10 | 102 | 88 | 9 |

Roedd y buddiannau mewn da a dderbyniodd Steve Wearne ar gyfer y flwyddyn yn ymwneud â chostau llety yn ystod ei gyfnod yn gweithio yng Nghaerdydd.

2002/03

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 03 |
|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000<br>(£000) | £2,500<br>(£000) | £5,000<br>(£000) |
| Joy Whinney, Cyfarwyddwr, FSA Cymru | 50-55 | 0-2.5 | 5-10 |

Mae pob aelod o Grŵp Rheoli'r FSA wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.
* CETV yw'r Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar gyfer pensiynau.
Nid yw gwerthoedd CETV cymharol ar gyfer 2002/03 ar gael.

# 3 Costau
## Gweinyddol Eraill

| | £000oedd | 2003/04<br>£000oedd | £000oedd | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Rhent-daliadau o dan brydlesau gweithredol: | | | | |
| Hurio offer a pheiriannau | | 3 | | (18) |
| Prydlesau gweithredol eraill | | 56 | | 51 |
| Eitemau anariannol: | | | | |
| Dibrisiad | 73 | | 81 | |
| Ffioedd archwilio | 10 | | 10 | |
| Cyfanswm eitemau Anariannol: | | 83 | | 91 |
| Costau swyddfeydd | | 124 | | 28 |
| Gorbenion staff | | 104 | | 118 |
| Costau gweinyddol | | 118 | | 141 |
| Costau TG | | 101 | | 21 |
| Costau'r Pwyllgor | | 52 | | 50 |
| | | **641** | | **482** |

# 4 Costau
## net y rhaglen

a Costau Net y Rhaglen

| | 2003/04<br>£000oedd | 2002/03<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Gorfodi ac Archwilio | 542 | 323 |
| Maeth | 165 | 169 |
| Diogelwch ac Addysg Bwyd | 260 | 430 |
| Y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 13 | 4 |
| | **980** | **926** |

b Costau Net y Rhaglen Fesul Nod

| Costau Net y Rhaglen Fesul Nod | 2003/04 |
|---|---|
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 258 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 598 |
| Nod 3<br>Gwella deiet a dewis defnyddwyr | 124 |
| | **980** |

| Costau Net y Rhaglen Fesul Nod | 2002/03 |
|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a safonau Bwyd Cenedlaethol | 275 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 377 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 274 |
| | **926** |

# 5 Trafodion
## Partïon Cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r FSA yn ystod y flwyddyn. Cafodd yr FSA nifer o drafodion ag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill.

# 6 Symudiadau mewn Cyfalaf Gwaith

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 35 | 7 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (168) | 37 |
| | **(133)** | **44** |

# 7 Dyledwyr

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Rhagdaliadau | 33 | 23 |
| Dyledwyr TAW | 25 | 0 |
| | **58** | **23** |

# 8 Credydwyr

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Credydwyr masnach | 141 | 1 |
| Credydwyr eraill | 3 | 0 |
| Croniadau | 220 | 195 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 448 | 190 |
| | **812** | **386** |

# 9 Pwyllgor Cynghori

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, mae gan yr FSA bwyllgorau cynghori ar wahân ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff cynghori ar yr FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA yn ôl statud ystyried eu cyngor yn ei gwaith. Rhestrir Aelodau'r Pwyllgor isod:

**Cymru – Aelodau'r Pwyllgor Cynghori**

Ann Hemingway (Cadeirydd)
Yr Athro Robert Bell
Dr David Casemore
Gilli Davies
Yr Athro Margaret Griffiths
Yr Athro James Parry
Mrs Dilwen Philips
Yr Athro Robert Pickard
David Smith

CYFARWYDDYD

## CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU YN UNOL AG ADRAN 39(7) AC ATODLEN 4 DEDDF SAFONAU BWYD 1999

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- Crynodeb o alldro'r adnoddau;
- Datganiad cost weithredol;
- Atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.


Llofnodwyd drwy Awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Medi 2001

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Cyfrifon Adnoddau a Ariennir gan San Steffan

Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | 134 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 140 |
| Datganiad o reolaeth fewnol | 141 |
| Tystysgrif Archwilio – FSA | 144 |
| Crynodeb o alldro adnoddau | 146 |
| Datganiad cost weithredol | 148 |
| Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig | 148 |
| Mantolen | 149 |
| Datganiad llif arian parod | 150 |
| Adnoddau yn ôl nodau ac amcanion adrannol | 151 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 152 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys | 173 |

# Adroddiad Blynyddol

## Paratoi Cyfrifon

Paratowyd cyfrifon adnoddau a ariennir gan San Steffan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys. Gosodir yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd o dan Adran 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, a gosodir y cyfrifon o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Ariennir costau swyddfeydd yr FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy'r awdurdod datganoledig perthnasol. Eithrir yr arian hwn o gyfrifon yr adnoddau a ariennir gan San Steffan ond fe'i cynhwysir mewn adroddiad blynyddol a chyfrifon cyfunol a gyhoeddir ar wahân.

## Cefndir Statudol

Sefydlwyd yr FSA ar 1 Ebrill 2000 gan Ddeddf Seneddol (Deddf Safonau Bwyd 1999). Prif ddiben yr asiantaeth yw:

*'Diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a all godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.'*

Ar 1 Ebrill 2000, daeth y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn asiantaeth weithredol yr FSA. Sefydlwyd yr MHS yn wreiddiol ar 1 Ebrill 1995 fel asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

## Nodau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Noda'r Cynllun Strategol ar gyfer 2001/06 y blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd, gwybodaeth gyhoeddus, labelu a dewis, maeth a deiet a gorfodi cyfraith bwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Ein nod yw cael ein hymddiried gan bobl fel ffynhonnell fwyaf dibynadwy'r DU o gyngor a gwybodaeth am fwyd. Rydym am sicrhau bod y bwyd a fwyteir gan bobl yn ddiogel a'i wneud yn fwy diogel ac yn haws i bobl ddewis deiet iach.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan ein Cynllun Strategol ein nod yw:

- lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% drwy wella diogelwch bwyd ar hyd y gadwyn fwyd;
- helpu pobl i wella eu hiechyd deietegol;
- hyrwyddo system labelu onest a llawn gwybodaeth i helpu defnyddwyr;
- hyrwyddo arferion gorau o fewn y diwydiant bwyd;
- gwella'r broses o orfodi cyfraith bwyd;
- cael pobl i ymddiried yn yr hyn a wnawn a'r ffordd y'i gwnawn.

Rydym yn ymrwymedig i'r tri gwerth craidd hyn sy'n rheoli'r cyfan a wnawn sef:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf;
- bod yn agored ac yn hygyrch;
- bod yn llais annibynnol.

## Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

*a) Cyfrifoldebau'r FSA*

Mae gan yr FSA gylch gwaith eang sy'n cynnwys diogelu iechyd y cyhoedd, darparu gwybodaeth a chyngor, sicrhau bod cyfraith bwyd yn effeithiol ac yn cael ei orfodi, comisiynu ymchwil a goruchwyliaeth mewn perthynas â chynnwys bwyd, datblygu polisi a chynrychioli'r DU ar faterion bwyd yn Ewrop.

Mae gwaith yr FSA yn cynnwys diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd gyfan, gan gynnwys:

- difwynwyr bwyd – diffinio lefelau rhesymol, rheoli risg a pholisi;
- ychwanegion bwyd, pecynnu a bwydydd newydd – gan gynnwys asesu diogelwch a goruchwyliaeth;
- diogelwch microbiolegol a chysondeb hylendid bwyd gan gynnwys cyngor ar reoli achosion o salwch a gludir gan fwyd ac atal salwch a gludir gan fwyd;
- arolygu a gorfodi - camau gweithredu i ddiogelu defnyddwyr;
- monitro gwaith gorfodi gan awdurdodau lleol – archwilio ac annog awdurdodau lleol i wella eu perfformiad;
- plaladdwyr, milfeddyginiaethau a bwyd anifeiliaid – asesu goblygiadau o ran diogelwch bwyd;
- labeli a safonau bwyd – datblygu polisi, gwella dewis y defnyddiwr a chynrychioli'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd; a
- maeth – darparu cyngor ac arweiniad ar gynnwys maethol bwyd, a darparu gwybodaeth am ddeiet iach a chytbwys, er mwyn helpu i hyrwyddo a diogelu iechyd y cyhoedd.

*b) Beth rydym wedi ei wneud*

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr FSA nifer o lwyddiannau yn cynnwys y canlynol:

- cyhoeddwyd yr arolwg o agweddau defnyddwyr ym mis Ionawr 2004. Rhoddodd yr arolwg wybodaeth am bryderon, gwybodaeth, ymddygiad ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o faterion bwyd. Dyfeisiwyd yr arolwg i helpu i olrhain newidiadau yn safbwyntiau defnyddwyr o ran materion bwyd, a'n helpu i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o safbwyntiau defnyddwyr. Roedd cynnydd mesuradwy yn yr hyder yn rôl yr FSA i ddiogelu iechyd o gymharu â'r ffigurau sylfaenol. Mae canlyniadau llawn yr arolwg ar gael ar ein gwefan www.food.gov.uk/yourviews/surveys/foodsafety-nutrition-diet;
- mae ffigurau dros dro yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yn dangos gostyngiad o tua 18% mewn clefydau a gludir gan fwyd o gymharu â'r ffigur sylfaenol ar gyfer 2000. Mae hyn yn awgrymu bod y targed wedi'i gyflawni ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl, er na chaiff y ffigurau dros dro hyn eu cadarnhau tan mis Rhagfyr 2004;
- rydym wedi hyrwyddo hylendid bwyd a bwyta'n iach i blant ysgol. Ym mis Tachwedd 2003, noddwyd lansiad y 'bws coginio' gennym drwy'r Design Dimension Educational Trust a fydd yn canolbwyntio ar ymweld ag ysgolion mewn ardaloedd sy'n fwy difreintiedig yn gymdeithasol;
- roedd y gwerthusiad ffurfiol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r ymgyrch deledu ynglŷn â choginio twrci Nadolig yn dda, a chafwyd mwy o sylw yn y wasg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, cyflwynwyd ein ffug sioe goginio boblogaidd 'Bad Food Live' yn Good Food Show y BBC;
- rydym wedi parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol er mwyn helpu i gyflawni gwell cysondeb ac effeithiolrwydd wrth orfodi cyfraith bwyd. Rydym wedi parhau â'n rhaglen o seminarau a hyfforddiant diweddaru ar gyfer swyddogion gorfodi awdurdodau lleol – cynhaliwyd 22 o gyrsiau yn ystod 2003/04 yn cwmpasu meysydd fel pasteureiddio ar ffermydd, glanhau cregynbysgod a Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HAPPC). Sefydlwyd y Tasglu Cig Anghyfreithlon, sy'n cynnwys swyddogion awdurdod lleol a staff yr FSA, i roi cyngor i awdurdodau lleol ar weithredoedd yn ymwneud â chig anghyfreithlon;
- aseswyd 771 o ddigwyddiadau diogelwch bwyd posibl gennym yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a rhoddwyd 82 o rybuddion perygl i awdurdodau lleol;
- rydym wedi cyhoeddi adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig ag effaith hyrwyddiadau bwyd ar ymddygiad bwyta plant, a chynhyrchwyd dogfen drafod sy'n nodi amrywiaeth o opsiynau polisi i fynd i'r afael â'r mater hwn;

- rydym wedi cyhoeddi canlyniadau'r Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol ar oedolion, gan gyflwyno data ar faeth mewn perthynas â mesuriadau fel taldra, pwysau a phwysedd gwaed;
- rydym wedi monitro disgrifiadau ar labeli fel 'ffres', 'naturiol' a 'thraddodiadol' ac wedi cyhoeddi data o'r arolwg sy'n nodi nad yw llawer o gynhyrchwyr yn dilyn y cyngor a gyhoeddir. Byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid ar sut i gynyddu nifer y rhai sy'n dilyn y cyngor hwn;
- mae ein hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig, yn diogelu iechyd y cyhoedd drwy orfodi rheoliadau hylendid ac archwilio teg, cyson ac effeithiol mewn lladd-dai a safleoedd torri trwyddedig yn y DU.

*c) Gwariant ar adnoddau yn 2003/04*

Dangosir y gymhariaeth rhwng y gwariant gwirioneddol ar adnoddau a'r Amcangyfrif isod:

| | 2003/04 | |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Gwariant |
| | £m | £m |
| Pencadlys FSA San Steffan | 108.4 | 99.2 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 28.0 | 24.4 |
| **Cyfanswm yr FSA wedi ei ariannu gan San Steffan** | **136.4** | **123.6** |

Dangosir y ffigurau cymharol ar gyfer 2002/03 isod:

| | 2002/03 | |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Gwariant |
| | £m | £m |
| Pencadlys FSA San Steffan | 112.3 | 95.0 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 25.0 | 25.0 |
| **Cyfanswm yr FSA wedi ei ariannu gan San Steffan** | **137.3** | **120.0** |

Cost net yr FSA wedi ei ariannu gan San Steffan oedd £123.7m yn erbyn Amcangyfrif cais am adnoddau o £136.4m hyd at 31 Mawrth 2004. Mae'r FSA yn rheoli ei gwariant dros Gyfnod Adolygiad o Wariant y Llywodraeth o dair blynedd. Caiff y gwarged ar gyfer 2003/04, sef tua £12m ei gario ymlaen, gyda chytundeb y Trysorlys, i 2004/05 er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau cyllido yn y dyfodol, a nodwyd eisoes.

Cost net yr MHS oedd £24.4m, a ostyngodd o £25.0m yn 2002-03. Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig, fel asiantaeth weithredol, yn paratoi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi dadansoddiad manwl o gostau ac incwm, yn ogystal â pherfformiad yn erbyn targedau. Mae adroddiad blynyddol a chyfrifon yr MHS ar gael o'r Llyfrfa.

Ceir esboniad llawn, yn rhoi manylion y gwariant o'i gymharu â'r Amcangyfrif yn Atodlen 1 y cyfrifon hyn. Rhydd Atodlenni 2 i 5 y datganiad cost weithredol, y fantolen, y datganiad llif arian, a'r adnoddau yn ôl nodau adrannol yn y drefn honno gyda manylion ychwanegol yn cael eu darparu yn y nodiadau i'r cyfrifon sy'n dilyn yr atodlenni.

*ch) Rhoi Adroddiad ar Berfformiad*

Roedd Adroddiad Adrannol yr FSA yng Ngwanwyn 2003 yn cynnwys Amcangyfrif yr FSA o adnoddau ar gyfer 2003/04 ynghyd â thablau craidd fel y nodwyd gan y Trysorlys. Rhoddodd Adroddiad Adrannol yr FSA yn 2004 fanylion ar y cynnydd a wneir i gyrraedd targedau ein Cytundeb Darparu Gwasanaethau, a bodloni gofynion Moderneiddio Llywodraeth. Mae copïau o'r adroddiadau hyn ar gael o'r Llyfrfa neu o'n gwefan.

## Strwythur a Threfn

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth. Mae'r staff yn atebol drwy Brif Weithredwr i'r Bwrdd, yn hytrach nag yn uniongyrchol i Weinidogion. Penodwyd y Prif Weithredwr gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil o dan reolau Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 aelod. Penodwyd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion yr Alban, a Gweinidogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Gogledd Iwerddon. Penodwyd dau aelod o'r Bwrdd gan Weinidogion yr Alban, un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac un gan Weinidogion Swyddfa Gogledd Iwerddon. Mae gan yr aelodau hyn gyfrifoldebau arbennig dros faterion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Penodwyd yr wyth aelod arall gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr FSA, am sicrhau y cyflawnir rhwymedigaethau cyfreithiol ac am sicrhau bod penderfyniadau a chamau a gymerir yn ystyried cyngor gwyddonol yn ogystal â buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Seilir y cynnydd blynyddol yng nghydnabyddiaeth Aelodau'r Bwrdd ar yr hyn a argymhellir ar gyfer deiliaid swyddi gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion. Cynyddir cyflogau staff yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) yn unol â system talu ar sail perfformiad ac adolygu Swyddfa'r Cabinet yn ganolog (SCS).

Mae'r Bwrdd yn atebol i'r Senedd drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, i Weinidogion Iechyd yng Nghymru a'r Alban ac i'r Gweinidog dros Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon.

## Bwrdd yr FSA

Yn ystod y flwyddyn, bu'r canlynol yn aelodau o Fwrdd allanol yr FSA:

| | |
|---|---|
| Syr John Krebs | Cadeirydd yr FSA |
| Julia Unwin | Dirprwy Gadeirydd yr FSA (penodwyd ar 14 Gorffennaf 2003) |

## Aelodau eraill y Bwrdd:

| | |
|---|---|
| Ann Hemingway | Dirprwy Gadeirydd Dros Dro yr FSA (tan 13 Gorffennaf 2003) a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru. |
| Michael Gibson | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori yr Alban ar Fwyd |
| Michael Walker | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon. |
| Richard Ayre | |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland | |
| Robert Rees | gadawodd y Bwrdd ar 28 Chwefror 2004 ar ddiwedd cyfnod ei benodiad |
| Vernon Sankey | |
| Sandra Walbran | |
| Iain MacDonald | |
| Chrissie Dunn | |
| Dr Sati Ariyanayagam | |
| Yr Athro Andrew Miller | |

Penodwyd Nelisha Wickremasinghe i'r Bwrdd ar ôl diwedd y flwyddyn. Gadawodd Michael Walker y Bwrdd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd Syr John Krebs yn ymddiswyddo fel Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Ebrill 2005. Caiff ei olynydd ei benodi gan Weinidogion Iechyd yn dilyn gweithdrefn ddewis yn unol ag egwyddorion Nolan, a oruchwylir gan Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus.

Mae'r FSA yn cadw cofrestr o fanylion a buddiannau Aelodau'r Bwrdd. Mae'r gofrestr ar gael o'n gwefan www.food.gsi.gov.uk/aboutus/ourboard/boardmem

## Tîm Rheoli'r FSA

Cyflawnir y gwaith o reoli'r FSA o ddydd i ddydd drwy'r Bwrdd Rheoli Gweithredol (EMB). Roedd yr aelodaeth yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dr Jon Bell | Prif Weithredwr (o 2 Ebrill 2003) a Swyddog Cyfrifyddu'r Adran |
| Pat Stewart | Dirprwy Brif Weithredwr (o 9 Ebrill 2003) a Chyfarwyddwr Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol |
| David Statham | Cyfarwyddwr Gorfodi a Safonau Bwyd |
| Dr Andrew Wadge | Cyfarwyddwr Polisi ar Ddiogelwch Bwyd (o 4 Awst 2003) |
| Neil Martinson | Cyfarwyddwr Cysylltiadau (ar gyfnod sabothol o 9 Chwefror 2004 am weddill y Flwyddyn Ariannol) |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Brian Davies | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (o 28 Tachwedd 2003) |
| Allan Hutton | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Dr George Paterson | Cyfarwyddwyr FSA yr Alban |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr FSA Cymru (tan 20 Gorffennaf 2003) |
| Steve Wearne | Cyfarwyddwr FSA Cymru Dros Dro (o 21 Gorffennaf 2003 am weddill y Flwyddyn Ariannol) |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr FSA Gogledd Iwerddon |
| Chris Lawson | Prif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig |

Penodwyd pob uwch swyddog o dan y rheolau a bennwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Datgelir manylion am gyflogau a phensiynau'r Bwrdd a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol yn Nodyn 3.

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, rydym wedi sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff cynghori i'r FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA drwy statud ystyried eu cyngor yn ei waith. Dangosir aelodaeth y pwyllgorau yn y datganiadau cyfrifon unigol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Ariannu'r FSA

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a ariennir drwy gyflenwad ar sail adnoddau.

## Y Gwasanaeth Hylendid Cig

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn asiantaeth weithredol yr FSA. Nod yr MHS yw diogelu iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid pan gânt eu lladd drwy orfodi deddfwriaeth yn effeithiol. Ei brif swyddogaethau yw darparu gwasanaeth archwilio cig i bob safle cig trwyddedig, ac i sicrhau y bodlonir y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyfer cynhyrchu cig yn lân ac ar gyfer lles anifeiliaid pan gânt eu lladd. Prif weithgareddau'r MHS yw:

- gorfodi rheolau hylendid ar safleoedd cig ffres trwyddedig;
- darparu archwiliadau cig a rheolaethau ar nodau iechyd ar safleoedd cig coch, cid dofednod a chig adar hela trwyddedig;
- gorfodi rheolaethau hylendid mewn cynhyrchion cig, safleoedd paratoi briwgig a chig, sydd wedi eu cyd-leoli â lladd-dai trwyddedig; a
- gorfodi, ar safleoedd cig ffres trwyddedig, reolaethau dros SRM a sgîl-gynhyrchion anifeiliaid eraill, a rheolaethau sy'n atal cig o wartheg dros 30 mis oed rhag cael ei werthu.

Mae cyfrifon yr FSA ar gyfer adnoddau wedi eu hariannu gan San Steffan yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer yr MHS. Mae'r MHS wedi paratoi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun sy'n rhoi manylion ychwanegol.

## Perthynas â Staff

Mae'r FSA yn credu bod sicrhau cyfranogiad llawn pob aelod o staff yn ei gwaith yn hollbwysig. Anogir staff i fod yn flaengar a meddwl am ffyrdd newydd o weithio i wella gwaith yr FSA. Mae uwch reolwyr yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr undebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd agored rheolaidd y caiff pob aelod o staff eu gwahodd iddynt a'u hannog i'w mynychu. Dosberthir "FSA Matters", newyddlen fewnol, at bob aelod o staff bob wythnos. Mae'r staff hefyd yn cael copïau o "FSA News", a gyhoeddir pob dau fis. Mae gan staff yr MHS ei newyddlen chwarterol eu hunain sef "MHS Update".

## Pensiynau

Mae cyflogeion yr FSA yn weision sifil ac yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun pensiwn Llywodraeth Ganolog nas ariennir. Gwneir taliadau pensiwn drwy gyfrif adnoddau'r PCSPS.

Nid yw Bwrdd yr FSA yn weision sifil ac felly nid ydynt yn aelodau o'r PCSPS. Fodd bynnag, gwnaed trefniadau i ddarparu buddiannau pensiwn tebyg i rai Aelodau'r Bwrdd.

Mae gan yr MHS ddau gynllun pensiwn ar wahân. Mae'r mwyafrif o'r staff yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Bensiwn Llundain (LPFA). Mae cyflogeion eraill yr MHS yn aelodau o'r PCSPS.

## Cyfle Cyfartal

Nod yr FSA yw bod yn gyflogwr modern a theg, ac mae'n cydnabod ac yn annog potensial gweithlu amrywiol. Mae'r FSA yn ymrwymedig i gyfle cyfartal ac yn anelu at sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar ran yr FSA neu iddi yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. O ganlyniad, ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw gyflogai nac ymgeisydd am swydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail hil, rhyw, statws priodasol, cenedligrwydd, ethnigrwydd, lliw, crefydd, credoau gwleidyddol, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, patrwm gwaith neu safle yn y sefydliad. Mae'r FSA yn gweithredu cynllun cyfweld gwarantedig i bobl ag anableddau (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995) sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y penodiad.

## Polisi Talu Cyflenwyr

Polisi'r Llywodraeth yw y dylai pob adran ac asiantaeth dalu pob anfoneb nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, neu'n unol â thermau cytundebol cytûn os nodir fel arall. Yn ystod y flwyddyn talwyd tua 96% o'r anfonebau ar amser.

## Polisi Amgylcheddol

Rydym yn llwyr ymrwymedig i arbed ynni, dŵr ac adnoddau eraill a lleihau gwastraff. Mae adeilad ein pencadlys, Aviation House, yn dilyn polisi ailgylchu gweithredol. Rydym hefyd yn gallu monitro effeithlonrwydd ynni Aviation House drwy feddalwedd system reoli'r adeilad.

## Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi nac yn defnyddio deilliadau neu offerynnau ariannol eraill fel y'u disgrifir yn FRS 13.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 5 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r dystysgrif archwilio ar dudalennau 144 a 145.

## Digwyddiadau pwysig ers diwedd y flwyddyn ariannol.

Dim.

**Jon Bell**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**28 Medi 2004**

swyddog

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid gwneud hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys, sy'n manylu ar yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddelir, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd a wnaed o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Adran, alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd at amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Adran a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:

   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

   b. gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;

   ch. paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

5. Yn ogystal, mae Trysorlys EM wedi penodi Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth (Chris Lawson) i fod yn atebol am y rhannau hynny o gyfrifon yr Adran sy'n ymwneud ag adnoddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig a'r asedau, y rhwymedigaethau a'r llifau arian cysylltiedig. Nid yw'r penodiad hwn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon yr Adran.

6. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting.  O dan delerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, nodir yn ysgrifenedig y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran a Swyddog Cyfrifyddu Asiantaeth yr MHS, ynghyd â'u priod gyfrifoldebau.

Jon Bell
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2004

mewnol

# Datganiad o Reolaeth Fewnol

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r asiantaeth yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys. Mae gan yr FSA un asiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig. Penodwyd Prif Weithredwr yr MHS fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth. Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, mae'n atebol i mi ac i'r Senedd am ddefnydd yr MHS o adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf fi ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a sefydlwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn gyda Chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y Pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- proses cynllunio busnes ac ariannol (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- deiliaid cyllidebau yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- deiliaid cyllidebau yn llofnodi datganiad o sicrwydd atebolrwydd chwarterol i gadarnhau cydymffurfiaeth â phrosesau a gweithdrefnau;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan ddeiliaid cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar reolaethau mewnol a chynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r MHS;
- gweithdai gyda Phenaethiaid Is-adrannau a Chyfarwyddwyr i ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol ac ymgorffori'r broses ymhellach ar draws yr FSA;
- mae tudalen ar Lywodraethu Corfforaethol wedi'i lansio ar Fewnrwyd yr FSA. Mae'r dudalen hon yn cynnwys diffiniad o Lywodraethu Corfforaethol a chysylltiadau â'r holl ganllawiau a'r cyfarwyddyd sydd ar gael. Caiff y dudalen ei datblygu ymhellach yng ngoleuni adborth gan gwsmeriaid a gofynion newydd;
- mae pob deiliad cyllideb wedi derbyn copi personol o lawlyfr cyllid yr FSA.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr FSA, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a rheoli'r risgiau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod ar waith yn yr FSA am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Y gallu i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Trafodir y gofrestr o risgiau strategol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Mae perchenogion risgiau hefyd yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau o leiaf unwaith bob chwarter ac maent yn cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig i'w gyflwyno i'r Prif Weithredwr.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r hyfforddiant ym maes cynllunio busnes drwy gynnwys canllawiau ychwanegol ar nodi a rheoli risgiau a materion llywodraethu corfforaethol.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Y fframwaith risgiau a rheolaeth

Yn yr FSA, y prif brosesau sydd ar waith ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau yw:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi cyfraith diogelwch bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr FSA i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Rydym yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'r gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Mae Penaethiaid Is-adrannau yn cynnal adolygiad ffurfiol o'u cynlluniau busnes a'r risgiau busnes bob chwarter ac yn llofnodi datganiad i gadarnhau bod yr adolygiad wedi'i gynnal. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a hyfforddiant a dargedwyd (gan gynnwys rheoli risgiau) i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr FSA yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r FSA yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn bob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r FSA, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr FSA a chynllunio ymlaen llaw; a rhoi adborth i'r FSA ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr FSA sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i fynd i'r afael â diffygion a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. O ganlyniad i waith ein harchwilwyr mewnol ac adolygiad interim gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cymerwyd amrywiaeth o fesurau pellach yn ystod y flwyddyn i gryfhau'r rheolaethau.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001-06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o bum mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Yn ystod y flwyddyn, cododd mater pwysig yn ymwneud â rheolaeth fewnol yn ein hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig. Daeth methiant i brofi canran fach o wartheg 'mewn perygl' yn ystod 2003/04 i'r amlwg yn mis Ebrill/Mai 2004. Sefydlwyd ymchwiliad i benderfynu p'un a gafodd y methiant ei achosi gan broblem yn ymwneud â rheolaeth fewnol. Nid oes i'r mater hwn unrhyw ganlyniadau ariannol ar gyfer y cyfrifon.

Dr Jon Bell
Prif Weithredwr
28 Medi 2004

# Tystysgrif archwilio

archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 146 i 172 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u diwygiwyd drwy ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifyddu a nodir ar dudalennau 152 i 154.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 140 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys y Cyfrifon. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gawsant eu paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm ymhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Adroddiad Blynyddol, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y Cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 141 i 143 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad o Reolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, p'un a yw Datganiad o Reolaeth Fewnol y Swyddog Cyfrifyddu yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i mi hefyd lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Adran neu ei gweithdrefnau risgiau a rheoli.

## Sail y farn archwilio

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau pwysig a wnaed gan yr Adran wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Adran, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

# Tystysgrif
archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd (San Steffan) ar 31 Mawrth 2004 a'r alldro net o ran adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan y Trysorlys; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

22 Hydref 2004

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 1

## Cyfrifon a Ariennir gan San Steffan 2003/04

### Crynodeb o alldro'r adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | 2003/04 | | | | | | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig/ (gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau: | | | | | | | | |
| Cais am adnoddau | 191,638 | (55,270) | 136,368 | 160,331 | (36,724) | 123,607 | 12,761 | 120,036 |
| Cyfanswm yr Adnoddau | 191,638 | (55,270) | 136,368 | 160,331 | (36,724) | 123,607 | 12,761 | 120,036 |
| Gofyniad Arian Parod net | | | 136,261 | | | 124,537 | 11,724 | 113,509 |

Crynodeb o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

Nid ildiwyd unrhyw ddyraniadau cymorth dros ben na Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol a oedd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

Esboniad o'r amrywiad rhwng Amcangyfrif ac alldro (cyfanswm yr adnoddau net):

Roedd cyfanswm gwariant adnoddau FSA San Steffan am y flwyddyn tua £13m yn llai na darpariaeth yr Amcangyfrif. Mae'r FSA yn rheoli ei gwariant dros gyfnod Adolygiad y Llywodraeth o Wariant sef tair blynedd. Bydd y tanwariant ar gyfer 2003/04, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cael ei gario ymlaen i 2004/05 i ariannu gweithgaredd arfaethedig parhaol yr FSA.

Esboniad o'r amrywiad rhwng gofyniad arian parod net yr Amcangyfrif a'r alldro (gofyniad arian parod net):

Gweler uchod.

## Cysoni Adnoddau â'r Gofyniad Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | | 2003/04 | | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Amcangyfrif | Alldro | arbedion/ (gormodedd) | |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau Net** | | **136,368** | **123,607** | **12,761** | 120,036 |
| Cyfalaf: | | | | | |
| Caffael asedau sefydlog | 11 | 2,659 | 3,133 | (474) | 625 |
| **Dyraniad cymorth anweithredol** | | **-** | **(41)** | **41** | **(52)** |
| **Addasiadau croniadau:** | | | | | |
| Eitemau anariannol | 4 | (2,766) | (3,054) | 288 | (1,627) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod | 14 | | 528 | (528) | (5,671) |
| Defnyddio darpariaeth | 18 | - | 364 | (364) | 198 |
| **Gofyniad Arian Parod Net (Atodlen 4)** | | **136,261** | **124,537** | **11,724** | 113,509 |

gweithredol

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 2

## Datganiad Cost Weithredol a Ariennir gan San Steffan

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Costau Gweinyddol:** | | | | | |
| Costau Staff | 2 | 22,898 | | 21,422 | |
| Costau gweinyddol nad ydynt yn ymwneud â chostau staff | 4 | 15,534 | | 14,225 | |
| **Costau gweinyddol gros** | | | **38,432** | | **35,647** |
| Incwm gweithredol | 6 | | (132) | | (196) |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **38,300** | | **35,451** |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | | |
| **Cais am adnoddau:** | | | | | |
| Costau staff | 2 | 47,554 | | 44,841 | |
| Gwariant | 5 | 74,345 | | 76,983 | |
| | | | 121,899 | | 121,824 |
| Llai: Incwm | 6 | | (36,592) | | (37,239) |
| **Costau Net y Rhaglen** | 5 | | **85,307** | | 84,585 |
| **Cost Weithredol Net** | 8 & 9 | | **123,607** | | **120,036** |
| **Alldro Net yr Adnoddau** | **8** | | **123,607** | | 120,036 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.

## Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Enillion net wrth ailbrisio asedau sefydlog | 20 | (24) | 507 |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig am y flwyddyn** | | **(24)** | **507** |

mantolen

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 3

## Mantolen a Ariennir gan San Steffan

ar 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | 31 Mawrth 2004 £000 | 31 Mawrth 2004 £000 | 31 Mawrth 2003 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog:** | | | | |
| Asedau anniriaethol | 12 | 876 | | 288 |
| Asedau diriaethol | 13 | 6,463 | | 5,799 |
| | | | **7,339** | **6,087** |
| **Dyledwr (swm sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn)** | 15 | | **148** | 238 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Dyledwyr | 15 | 12,504 | | 11,443 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 16 | 3,472 | | 5,143 |
| | | **15,976** | | **16,586** |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)** | **17** | **(26,417)** | | (27,352) |
| **Rhwymedigaethau cyfredol net** | | | **(10,441)** | (10,766) |
| **Cyfanswm Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(2,954)** | (4,441) |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn)** | **17** | (4,105) | | (4,398) |
| **Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | **18** | (1,144) | | (329) |
| | | | **(5,249)** | (4,727) |
| | | | **(8,203)** | (9,168) |
| **Ecwiti'r Trethdalwr** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 19 | | (8,748) | (9,737) |
| Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 20 | | 545 | 569 |
| | | | **(8,203)** | (9,168) |

Dr Jon Bell
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2004

llif arian parod

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 4

## Datganiad Llif Arian Parod a Ariennir gan San Steffan

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol (a) | | (121,445) | (112,987) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol (b) | 11 | (3,092) | (573) |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (c) | | 122,866 | 111,047 |
| **Cynnydd/(gostyngiad mewn arian parod) yn y cyfnod** | 16 | **(1,671)** | (2,513) |

(a) Cysoni cost weithredol â'r llifau arian parod gweithredol

| | Nodyn | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|---|
| Cost Weithredol Net | | 123,607 | 120,036 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | | (3,054) | (1,627) |
| Addasiadau ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod | 14 | 528 | (5,620) |
| Defnydd o ddarpariaethau | | 364 | 198 |
| **All-lif/(mewnlif) arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **121,445** | 112,987 |

(b) Dadansoddi gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | Nodyn | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog anniriaethol | 12 | 756 | 96 |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol | 13 | 2,377 | 529 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | 11 | (41) | (52) |
| **All-lif/(mewnlif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **3,092** | 573 |

(c) Dadansoddi'r dull ariannu a chysoni â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|---|
| Cyllido net | | 122,866 | 111,047 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn arian parod | | 1,671 | 2,513 |
| Addasiadau ar gyfer taliadau a derbyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflenwi | | - | (51) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **124,537** | **113,509** |

Swm gwirioneddol y Grant a roddwyd i gefnogi'r gofyniad arian parod net = £122,865,313

Swm gwirioneddol y Grant a roddwyd i gefnogi gofyniad arian parod net y flwyddyn flaenorol = £111,047,106

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 5

## Adnoddau a Ariennir gan San Steffan yn ôl Nodau ac Amcanion Adrannol

**am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004**

| | 2003/04 | | | 2002/03 Ffigurau wedi'u hailddatgan yn unol â nodau 2003/04 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros £000 | Incwm £000 | Net £000 | Gros £000 | Incwm £000 | Net £000 |
| Nod 1 | | | | | | |
| Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 12,800 | (813) | 11,987 | 15,127 | (846) | 14,282 |
| Nod 2 | | | | | | |
| Gwell diogelwch a safonau bwyd | 112,883 | (35,834) | 77,049 | 27,217 | (1,642) | 25,575 |
| Nod 3 | | | | | | |
| Gwella dewis a deiet defnyddwyr | 34,648 | (77) | 34,571 | 115,126 | (34,947) | 80,179 |
| **Costau gweithredol net** | **160,331** | **(36,724)** | **123,607** | **157,471** | **(37,435)** | **120,036** |

| | 2002/03 | | | 2003/04 Ffigurau wedi'u hailddatgan yn unol â nodau 2002/03 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros £000 | Incwm £000 | Net £000 | Gros £000 | Incwm £000 | Net £000 |
| Nod 1 | | | | | | |
| Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 20,877 | (63) | 20,814 | 20,622 | (38) | 20,584 |
| Nod 2 | | | | | | |
| Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/05 | 36,265 | (1,278) | 34,987 | 35,500 | (1,258) | 34,242 |
| Nod3 | | | | | | |
| Diogelu defnyddwyr drwy wella Diogelwch a Safonau Bwyd | 100,329 | (36,094) | 64,235 | 104,209 | (35,428) | 68,781 |
| **Costau gweithredol net** | **157,471** | **(37,435)** | **120,036** | **160,331** | **(36,724)** | **123,607** |

nodiadau

# Nodiadau i'r cyfrifon

### 1. Polisïau Cyfrifyddu

#### 1.1 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau 2003-04 (RAM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y RAM yn dilyn arferion cyfrifyddu i gwmnïau a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU (UK GAAP) i'r graddau y maent yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Lle mae'r RAM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu a ystyrid yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig yr adran at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

#### 1.2 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi eu haddasu i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog a stociau, lle bo hynny'n berthnasol, ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

#### 1.3 Sail y Cyfuno

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cyfuno'r FSA graidd a'i hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS). Dilëir trafodion rhwng endidau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfuniad. Mae'r MHS yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun.

#### 1.4 Asedau Sefydlog Anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol gyda chost prynu o fwy na £2,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill a dosbarthiad) eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol. Caiff pob ased sefydlog anniriaethol ei ailbrisio ar 1 Ebrill bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegeion priodol.

#### 1.5 Asedau Sefydlog Diriaethol

Caiff asedau sefydlog diriaethol unigol neu mewn grŵp gyda chost prynu o fwy na £2,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill a dosbarthiad) eu cyfalafu a'u hailbrisio ar 1 Ebrill bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegeion priodol.

Cafodd cyfrifiaduron pen bwrdd a etifeddwyd gan yr FSA o'r Adran Iechyd a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar 1 Ebrill 2000, ynghyd â swmp-brynu cyfrifiaduron newydd, eu cyfalafu ar eu gwerth teg ar y Diwrnod Breinio. Mae cyfrifiaduron pen bwrdd newydd a gaffaelwyd ers y dyddiad hwnnw sy'n werth llai na £2,000 wedi eu nodi fel treuliau.

Caiff gosodiadau a ffitiadau a gaffaelwyd mewn cysylltiad ag adnewyddu eu cyfalafu os yw cyfanswm y gost yn fwy na £2,000.

Nodir polisi cyfalafu'r MHS yn adroddiad blynyddol a chyfrifon yr MHS.

Ailddatgenir pob ased sefydlog diriaethol i'w werth cyfredol bob blwyddyn. Nid yw'r FSA yn berchen ar unrhyw dir neu adeiladau ar hyn o bryd. Caiff asedau gweithredol nad ydynt yn gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio yn ôl gwerth ar y farchnad agored lle mae'n hysbys, neu ar sail cost adnewyddu wedi ei dibrisio lle nad yw gwerth y farchnad yn hysbys. Fel arfer defnyddir mynegeion cyhoeddedig sy'n briodol i gategori'r ased er mwyn amcangyfrif y gwerth.

#### 1.6 Dibrisiant

Ni chaiff tir ac asedau rhydd-ddaliadol sy'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Darperir dibrisiant ac amorteiddiad ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu prisiad asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol yn y drefn honno drwy gymhwyso'r dibrisiant llinol dros y bywydau defnyddiol amcangyfrifedig canlynol:

| Asedau diriaethol: | |
|---|---|
| Gwasanaethyddion cyfrifiaduron ac offer cyfrifiadurol | 4 blynedd |
| Peiriannau swyddfa | 7 mlynedd |
| Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | 7 mlynedd |
| Cerbydau | 4 blynedd |

| Asedau anniriaethol: | |
|---|---|
| Meddalwedd gyfrifiadurol a thrwyddedau meddalwedd | 7 mlynedd |

#### 1.7 Stociau a Gwaith ar Droed

Prisir nwyddau traul ar gost, os cânt eu dal at ddefnydd presennol, neu fel arall gwerth net y gellir ei wireddu.

#### 1.8 Ymchwil a Datblygu

Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu. Caiff gwariant ar waith datblygu mewn cysylltiad â chynhyrchion neu wasanaethau sydd i'w cyflenwi ar sail adnewyddu cost lawn ei gyfalafu os yw'n bodloni'r meini prawf hynny a nodir yn SSAP 13. Cyfalafir gwariant arall ar waith datblygu os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y RAM a addasir o'r SSAP 13 i ystyried y cyd-destun nid er elw. Nid yw gwariant sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu yn cael ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y caiff ei wario. Caiff asedau sefydlog a gaffaelir i'w defnyddio ar gyfer ymchwil a datblygu eu dibrisio dros fywyd y prosiect cysylltiedig, neu yn unol â chategori'r ased os yw'r ased i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith cynhyrchu dilynol.

Cafodd gwariant ar ymchwil a datblygu ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y cafodd ei wario.

### 1.9 Incwm gweithredol

Incwm gweithredol yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol yr FSA. Yr incwm yw cyfanswm yr incwm cronedig am y flwyddyn, ac fe'i dangosir heb Dreth ar Werth. Mae gan yr FSA incwm o waith samplu llaeth a llaethdai ac o archwiliadau radiolegol. Mae'n cynnwys incwm dyraniad cymorth y Bleidlais ac incwm i'r Gronfa Gyfunol, y mae Trysorlys EM wedi cytuno y dylid ei drin fel incwm gweithredol. Yn ychwanegol at hyn, mae gan yr MHS incwm o archwiliadau hylendid cig ac o sefydliadau'r llywodraeth (yn bennaf o reolaethau Deunyddiau Risg Penodol).

### 1.10 Gwariant ar Weinyddu ac ar y Rhaglen

Dadansoddir y Datganiad Cost Weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr Adran fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm gweithredol cysylltiedig. Dadansoddir incwm yn y nodiadau rhwng yr hyn y caniateir iddo, o dan y gyfundrefn, gael ei wrthbwyso yn erbyn costau gweinyddol gros wrth bennu'r alldro yn erbyn y terfyn cost weinyddol a'r incwm gweithredol na chaniateir iddo gael ei wrthbwyso. Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA. Dylid nodi bod yr holl wariant gan y Gwasanaeth Hylendid Cig, gan gynnwys costau staffio a gweinyddol, yn cael ei ystyried fel costau'r rhaglen at ddibenion cyfrifyddu adnoddau.

### 1.11 Cost Cyfalaf

Caiff tâl a godir sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan yr FSA, ei gynnwys yn y costau gweithredol. Cyfrifir y tâl a godir ar gyfradd safonol y Llywodraeth o 3.5% ar bob ased llai rhwymedigaethau heblaw balansau arian parod gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol (PMG) a rhwymedigaethau a ildiwyd i'r gronfa gyfunol.

### 1.12 Cyfnewid Tramor

Caiff eitemau incwm a gwariant eu trosi yn £ Sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Caiff eitemau ar y fantolen eu trosi ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen neu ar gyfradd dan gontract os yw'n berthnasol. Cofnodir unrhyw enillion neu golledion cyfnewid yn y datganiad cost weithredol.

### 1.13 Pensiynau

Cwmpesir cyflogeion presennol a chyn-gyflogeion yr FSA gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun buddiannau diffiniedig anghyfrannol a heb ei ariannu. Mae'r adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol yn ystod y cyfnod lle y mae'n manteisio ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifwyd ar sail groniadol. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS.

Mae'r mwyafrif o gyflogeion yr MHS yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Pensiynau Llundain. Mae cyflogeion eraill yr MHS yn aelodau o'r PCSPS.

### 1.14 Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'n ofynnol i'r FSA dalu cost ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r adran yn darparu yn llawn ar gyfer y gost hon pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar a chynlluniau tebyg wedi eu cyhoeddi ac yn gyfrwymol ar yr adran.

### 1.15 Prydlesau Gweithredol

Codir prydlesau gweithredol ar y datganiad cost weithredol ar sail linol dros dymor y brydles.

### 1.16 Costau Archwilio

Caiff tâl a godir sy'n adlewyrchu cost yr archwiliad ei gynnwys yn y costau gweithredol. Archwilir yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn ond caiff tâl tybiannol sy'n cynrychioli cost yr archwiliad ei gynnwys yn y cyfrifon.

### 1.17 Treth Ar Werth

Dangosir swm net Treth Ar Werth (TAW) sy'n ddyledus i'r Tollau Tramor a Chartref neu ganddynt fel dyledwr neu gredydwr ar y fantolen. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad cost weithredol, neu os eir iddi wrth brynu ased sefydlog caiff ei chyfalafu yng nghost yr ased.

### 1.18 Darpariaethau

Mae'r adran yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae effaith gwerth amserol yr arian yn sylweddol, caiff y llifau arian parod wedi eu haddasu yn ôl y risg amcangyfrifedig eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio'r Trysorlys sef 3.5% mewn termau real.

Cydnabyddir darpariaethau yn y cyfrifon lle:

a) mae rhwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad a fu;

b) mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm.

Nid yw'r darpariaethau wedi'u disgowntio, am na chaiff yr addasiad dilynol ei ystyried yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

Datgelir rhwymedigaethau amodol yn y nodiadau i'r cyfrifon oni bai fod y posibilrwydd o drosglwyddo wrth setlo yn annhebyg.

1.19 Rhwymedigaethau Amodol

Yn ogystal â rhwymedigaethau amodol a ddatgelwyd yn unol â FRS 12, mae'r adran yn datgelu, at ddibenion adroddiadau seneddol ac atebolrwydd, rai rhwymedigaethau amodol lle mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn annhebyg. Mae'r rhain yn cynnwys:

i) Eitemau dros £100,000 (neu'n is, lle maent yn ofynnol yn ôl statud benodol) nad ydynt yn codi wrth gynnal busnes arferol ac a gyflwynir ar ffurf adroddiad i'r Senedd drwy Gofnodion adrannol cyn i'r Adran ymrwymo i'r cytundeb;

ii) Pob eitem (p'un a ydynt yn codi wrth gynnal busnes arferol ai peidio) dros £100,000 (neu'n is, lle maent yn ofynnol yn ôl statud benodol neu lle maent yn berthnasol yng nghyd-destun y cyfrifon adnoddau) y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, gael eu nodi yn y cyfrifon adnoddau.

Lle mae gwerth amserol yr arian yn berthnasol, caiff rhwymedigaethau amodol y mae'n ofynnol iddynt gael eu datgelu o dan FRS12 eu datgan ar symiau wedi eu disgowntio a'r swm a gyflwynwyd i'r Senedd wedi ei nodi ar wahân. Caiff rhwymedigaethau amodol nad yw'n ofynnol iddynt gael eu datgelu gan FRS 12 eu datgan ar y symiau a gyflwynwyd i'r Senedd.

1.20 Newid mewn polisi cyfrifyddu

Yn unol â FRS 17, mae'r FSA yn cydnabod rhwymedigaeth lawn y Cynllun Pensiwn i Aelodau'r Bwrdd. Rhoddwyd amcangyfrif o'r rhwymedigaeth lawn ar 31 Mawrth 2004 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Caiff unrhyw dâl ychwanegol (y tu hwnt i'r cyfraniadau pensiwn cyfatebol blynyddol) ei ystyried yn dâl yn ystod y flwyddyn.

# 2 Nifer y staff a'r costau cysylltiedig

a) **Asiantaeth Safonau Bwyd – costau gweinyddol**

| | | | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Staff | Bwrdd | Cyfanswm |
| | £ | £ | £ | £ |
| Cyflogau | **18,160,045** | 17,833,598 | 326,447 | 16,784,754 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | **1,466,604** | 1,435,955 | 30,649 | 1,201,555 |
| Costau Pensiwn Eraill | **2,607,266** | 2,535,937 | 71,329 | 2,345,260 |
| **Is-gyfanswm** | **22,233,915** | **21,805,490** | **428,425** | **20,331,569** |
| Secondiadau Mewnol | **281,692** | 281,692 | - | 412,896 |
| Staff yr Asiantaeth | **563,577** | 563,577 | - | 749,179 |
| **Cyfanswm** | **23,079,184** | **22,650,759** | **428,425** | **21,493,644** |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | **(181,399)** | (181,399) | - | (71,290) |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **22,897,785** | **22,469,360** | **428,425** | **21,422,354** |

b) **Gwasanaeth Hylendid Cig – costau'r rhaglen**

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | 39,656,000 | 37,833,000 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | 3,227,000 | 2,716,000 |
| Costau Pensiwn Eraill | 4,671,000 | 4,292,000 |
| **Is-gyfanswm** | 47,554,000 | 44,841,000 |
| Secondiadau Mewnol | - | - |
| **Cyfanswm** | 47,554,000 | 44,841,000 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | - | - |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **47,554,000** | **44,841,000** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil **(PCSPS)** yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu ond nid yw'r FSA yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad llawn gan yr actiwari ar 31 Mawrth 2003. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau **Swyddfa'r Cabinet**: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pension.gov.uk)

Ar gyfer 2003-04, roedd cyfraniadau cyflogwr o £4,061,000 yn daladwy i'r **PCSPS** (2002-03 £3,300,000) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 12 i 18.5 y cant o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl i'r cynllun gael ei brisio'n llawn. Bydd y cyfraddau yn aros yr un fath y flwyddyn nesaf, yn amodol ar ailbrisio'r bandiau cyflog, ond bydd yn cynyddu o 2005-06.

Mae'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau fel y maent yn cronni, nid pan eir i gostau mewn gwirionedd; a dylent adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gall cyflogeion sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cyfrif **partneriaeth**, pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £170 i un neu fwy o banel o bedwar darparwyr pensiwn **rhanddeiliaid** a benodwyd. Mae cyfraniadau **partneriaeth** cyflogwyr yn berthnasol i oedran ac yn amrywio o 3 i 12.5 y cant o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb â chyfraniadau cyflogeion hyd at 3 y cant o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £29 yn daladwy i'r **PCSPS** i dalu am gost darparu buddiannau ar ffurf cyfandaliadau yn y dyfodol yn sgîl marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i ddarparwyr y pensiwn **partneriaeth** ar ddyddiad y fantolen. Nid oedd unrhyw gyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw.

c) **Nifer y personau a gyflogwyd ar gyfartaledd**

Dangosir nifer y bobl sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn 2003-04 yn y tabl isod. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio i'r FSA a'r MHS (gan gynnwys uwch reolwyr).

| | 2003/04 |
|---|---|
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 123 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 1,860 |
| Nod 3<br>Gwella dewis a deiet defnyddwyr | 243 |
| | **2,226** |

Dangosir nifer y bobl sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn 2002-03 yn y tabl isod. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio i'r FSA a'r MHS (gan gynnwys uwch reolwyr).

| | 2002/03 |
|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 169 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004-05. | 238 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 1,820 |
| | **2,227** |

ch) **Roedd Costau Staff Fesul Nod yn 2003-04 fel a ganlyn:**

| | 2003/04<br>£000 |
|---|---|
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 3,907 |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 58,853 |
| Nod 3<br>Gwella dewis a deiet defnyddwyr | 7,692 |
| | **70,452** |

**Roedd Costau Staff Fesul Nod yn 2002-03 fel a ganlyn:**

| | 2002/03<br>£000 |
|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 5,224 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004-05. | 8,580 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 52,460 |
| | **66,264** |

I gael manylion pellach am gostau a niferoedd staff yr MHS, dylid cyfeirio at Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr MHS ar gyfer 2003-04.

# 3 Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

a) Roedd cyflog a hawliau pensiwn Aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr yr adran fel a ganlyn:

**2003/04**

| | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 04 | CETV ar 31 Mawrth 04 | CETV ar 31 Mawrth 03 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Bandiau* | *£5,000* | *£2,500* | *£5,000* | | | |
| i) FSA | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dr Jon Bell | Prif Weithredwr | 115-120 | 10-12.5 | 50-55 | 900 | 668 | 197 |
| Pat Stewart | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr, Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol | 100-105 | 2.5-5 | 40-45 | 733 | 636 | 65 |
| Andrew Wadge | Cyfarwyddwr, Polisi a Diogelwch Bwyd | 80-85 | 2.5-5 | 15-20 | 235 | 185 | 39 |
| David Statham | Cyfarwyddwr, Gorfodi a Safonau Bwyd | 90-95 | 0-2.5 | 35-40 | 599 | 545 | 23 |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 90-95 | 0-2.5 | 30-35 | 504 | 454 | 22 |
| Brian Davies | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 15-20 | 2.5-5 | 25-30 | 433 | 371 | 41 |
| Allan Hutton | Cyfarwyddwr Cyllid | 60-65 | 0-2.5 | 5-10 | 99 | 79 | 15 |

Ymunodd Brian Davies ar 21 Tachwedd 2003.

**2002/03**

| | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 03 |
|---|---|---|---|---|
| | *Bandiau* | *£5,000* | *£2,500* | *£5,000* |
| | | £000 | £000 | £000 |
| Geoffrey Podger | Prif Weithredwr (hyd at 31/01/2003) | 100-105 | 2.5-5 | 40-45 |
| Dr Jon Bell | Cyfarwyddwr, Polisi a Diogelwch Bwyd a Phrif Weithredwr Dros Dro (o 01/2/2003) | 90-95 | 2.5-5 | 30-35 |
| Andrew Wadge | Cyfarwyddwr Dros Dro, Polisi a Diogelwch Bwyd (o 01/02/2003) | 65-70 | 0-2.5 | 10-15 |
| Pat Stewart | Cyfarwyddwr, Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol a Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro | 90-95 | 2.5-5 | 35-40 |
| David Statham | Cyfarwyddwr, Gorfodi a Safonau Bwyd | 85-90 | 0-2.5 | 0-5 |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 90-95 | 2.5-5 | 20-25 |

Mae Neil Martinson (Cyfarwyddwr, Cysylltiadau) o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA wedi gwrthod caniatáu i'w fanylion personol gael eu cyhoeddi yn 2003/04 a 2002/03.
Ni dderbyniodd uwch reolwyr yr FSA unrhyw fuddiannau trethadwy mewn nwyddau yn ystod 2003-04.
Nid yw Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol (CETV) ar gyfer pensiwn yn y flwyddyn flaenorol ar gael.

**2003/04**

| ii) MHS | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chris Lawson | Prif Weithredwr | 90-95 | 0-2.5 | 35-40 | 698 | 657 | 12 |

**2002/03**

| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chris Lawson | Prif Weithredwr | 90-95 | 2.5-5.0 | 30-35 | d/g | d/g | d/g |

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â manylion cyflog a phensiwn uwch reolwyr eraill wedi'i chynnwys o fewn y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-04.

| | | 2003/04 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Buddiannau mewn Da | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 04 | CETV ar 31 Mawrth 04 | CETV ar 31 Mawrth 03 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
| | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £2,500 | £5,000 | | | |
| iii) **Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd** | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Yr Athro Syr John Krebs Cadeirydd | | 105-110 | 2.5-5 | 0-2.5 | 5-10 | 62 | 49 | 13 |
| Julia Unwin | (Dirprwy Gadeirydd o 14/07/03) | 20-25 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 4 | 0 | 4 |
| Ann Hemingway | (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro tan 13/07/03) | 35-40 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 18 | 13 | 5 |
| Michael Gibson | | 25-30 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 13 | 9 | 4 |
| Michael Walker | | 20-25 | 0-2.5 | d/g | d/g | d/g | d/g | d/g |
| Richard Ayre | | 10-15 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Robert Rees | (tan 28/02/04) | 10-15 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland | | 5-10 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Vernon Sankey | | 5-10 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Sandra Walbran | | 5-10 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Christine Dunn | | 10-15 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Dr Sati Ariyanayagam | | 5-10 | 0-2.5 | - | - | - | - | - |
| Yr Athro Andrew Miller *# | | 25-30 | 0-2.5 | 0-2.5 | 0-5 | 4 | 0 | 4 |

Nid yw hawl Michael Walker i bensiwn wedi'i chadarnhau hyd yma.

| 2002/03 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 03 |
| | *Bandiau* | *£5,000* | *£2,500* | *£5,000* |
| | | £000 | £000 | £000 |
| Yr Athro Syr John Krebs | Cadeirydd | 100-105 | 0-2.5 | 0-5 |
| Suzi Leather*# | Dirprwy Gadeirydd (tan 31/12/2002) | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 |
| Ann Hemingway | Dirprwy Gadeirydd Dros Dro (o 01/01/2003) | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 |
| Michael Gibson | | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 |
| Michael Walker | | 20-25 | d/g | d/g |
| Yr Athro Syr John Arbuthnott | (tan 30/11/2002) | 10-15 | 0-2.5 | 0-5 |
| Jeya Henry | (tan 20/02/2003) | 5-10 | - | - |
| Karol Bailey | (20/02/2003) | 5-10 | - | - |
| Richard Ayre | | 5-10 | - | - |
| Robert Rees | | 10-15 | - | - |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland, OBE | | 5-10 | - | - |
| Vernon Sankey | | 5-10 | - | - |
| Sandra Walbran | (o 01/06/2002) | 5-10 | - | - |
| Christine Dunn | (o 01/03/2003) | 0-5 | - | - |
| Dr Sati Ariyanayagam | (o 01/03/2003) | 0-5 | - | - |
| Yr Athro Andrew Miller*# | (o 01/03/2003) | 0-5 | 0-2.5 | 0-5 |

Mae Iain McDonald wedi gwrthod caniatáu i'w fanylion personol gael eu cyhoeddi.

Nid yw Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol (CETV) ar gyfer pensiwn yn y flwyddyn flaenorol ar gael.

* wedi dewis ymuno â premium

\# manylion pensiwn yn tybio'r uchafswm cyfnewidiad pensiwn ar gyfer cyfandaliad.

CETV yw'r Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar gyfer pensiynau.

Nodiadau:

i Mae 'Cyflog' yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonws; goramser; hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw, lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau y maent yn agored i drethiant y DU.

ii Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun buddiannau diffiniedig 'cyflog terfynol' ar sail statudol (classic, premium a classic plus). Gall rhai sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o'r cynllun 'premium' neu ymuno â threfniant ar sail rhanddeiliad "prynu arian" o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

(a) Cynllun 'Classic'
Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Bydd yr Aelodau yn talu cyfraniad o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy. Ar ôl marw, bydd pensiynau yn daladwy i'r cymar sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd rhywun yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o ddwywaith y cyflog pensiynadwy ac yn darparu taliad chwyddo gwasanaeth hefyd wrth gyfnewid pensiwn y cymar. Mae'r taliad chwyddo yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraidd a chyda thaliad chwyddo gwasanaeth fel ar gyfer pensiynau gwŷr a gwragedd gweddw.

(b) Cynllun 'Premium'
Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i 'classic', nid oes cyfandaliad awtomatig, ond gall aelodau gyfnewid peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad hyd at uchafswm o 3/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth neu 2.25 gwaith y pensiwn os yw'n fwy (y gyfradd gyfnewid yw £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir). At ddibenion datgelu pensiwn mae'r tablau yn tybio'r uchafswm cyfnewidiad. Bydd yr Aelodau yn talu cyfraniadau o 3.5 y cant o enillion pensiynadwy. Ar ôl marw, bydd pensiynau yn daladwy i'r cymar sy'n goroesi neu'r partner cymwys ar gyfradd o 3/8fed o bensiynau'r aelodau (cyn unrhyw gyfnewidiad).
Os bydd rhywun yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o dair gwaith yr enillion pensiynadwy ac yn darparu taliad chwyddo gwasanaeth hefyd wrth gyfnewid pensiwn y cymar. Mae'r taliad chwyddo yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraidd. Pan fydd salwch yr aelod yn golygu ei fod yn ei atal yn barhaol rhag gwneud unrhyw waith cyflogedig, caiff y taliad chwyddo gwasanaeth ei wella fel ei fod yn debyg i'r hyn a fyddai wedi cronni ar ôl cyrraedd 60 oed.

(c) Cynllun 'Classic Plus'
Yn y bôn, amrywiad ar y cynllun 'premium' yw hwn, ond caiff y buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 eu cyfrifyddu'n fras yn yr un modd â'r 'classic'.
Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan 'classic', 'premium' a 'classic plus' yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

(d) Cyfrif Pensiwn Partneriaeth
Mae hyn yn drefniant ar ffurf rhanddeiliaid lle mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid. Nid yw'r cyflogai yn gorfod cyfrannu ond lle y gwnânt gyfraniadau, fe'u cyfatebir gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3 y cant (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant arall o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd o ran risg (marw tra yn y swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch). Gall yr aelod ymddeol ar unrhyw adeg rhwng 50 a 75 oed a defnyddio'r gronfa sydd wedi cronni i brynu pensiwn. Gall yr aelod ddewis cymryd hyd at 25 y cant o'r gronfa fel cyfandaliad.

iii Penderfynodd y Bwrdd Rheoli Gweithredol beidio â datgelu oedran y tîm rheoli ac Aelodau'r Bwrdd.

iv Mae pum aelod o Fwrdd yr FSA yn aelodau o gynllun pensiwn drwy gydweddiad sy'n debyg i'r PCSPS.

# 4 Costau
## gweinyddol nad ydynt yn gostau staff

| | | 2003/04 | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Rhent-daliadau o dan brydlesau gweithredol:** | | | | |
| Hurio offer a pheiriannau | 183 | | 120 | |
| Prydlesau gweithredol eraill (gan gynnwys rhent Aviation House) | 4,512 | | 3,467 | |
| | | 4,695 | | 3,587 |
| **Eitemau anariannol:** | | | | |
| Dibrisiad ac amorteiddio asedau sefydlog: | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 1,264 | | 1,323 | |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 107 | | 144 | |
| Cost tâl cyfalaf | (126) | | (397) | |
| Ffioedd archwilio | 70 | | 70 | |
| Darpariaeth ar gyfer costau ymadael yn gynnar | 0 | | 0 | |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | 129 | | 2 | |
| Eitemau anariannol eraill - Datganoledig | (55) | | | |
| Cyfanswm eitemau anariannol | | 1,389 | | 1,142 |
| Costau gweithredol | 3 | | 0 | |
| Costau swyddfeydd | 3,703 | | 3,447 | |
| Gorbenion y bwrdd a'r staff | 2,760 | | 2,524 | |
| Costau gweinyddol | 1,996 | | 2,543 | |
| Costau TG | 983 | | 934 | |
| Costau ymadael yn gynnar | 0 | | 28 | |
| Drwgddyledion | 1 | | 18 | |
| Costau eraill | 4 | | 2 | |
| Gwariant arall | | 9,450 | | 9,496 |
| | | **15,534** | | **14,225** |

Ni dderbyniodd yr archwilwyr unrhyw ffioedd am waith nad oedd yn waith archwilio.

Nodyn a) mae cyfanswm y trafodion anariannol a gynhwyswyd yn 'Cysoni Adnoddau â Gofyniad Arian Parod Net' yn Atodlen 1 a 'Cysoni Costau Gweithredol â Llifau Arian Parod Gweithredol' yn Atodlen 4 fel a ganlyn:

| | 2003/04 |
|---|---|
| | £000 |
| FSA - Costau gweinyddol eraill – eitemau anariannol (fel uchod) | 1,389 |
| Darpariaethau Pensiwn | 170 |
| Darpariaethau Cyfreithiol | 44 |
| MHS - Symiau anariannol eraill a godwyd ar y gwariant gweithredol | 1,451 |
| **Cyfanswm y trafodion anariannol** | **3,054** |

# 5 Costau
## net y rhaglen

| | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Ymchwil a Datblygu:** | | | | |
| Maeth | 4,783 | | 3,878 | |
| Diogelwch Bwyd Microbiolegol | 2,347 | | 3,067 | |
| Hylendid Cig | 5,592 | | 4,891 | |
| Diogelwch Cemegol | 3,184 | | 2,547 | |
| Bwyd Newydd a Gwenwyneg Diogelwch Cemegol | 2,622 | | 2,567 | |
| Difwynwyr Cemegol | 1,411 | | 1,048 | |
| Labeli a Safonau bwyd | 1,249 | | 1,122 | |
| Diogelwch Radiolegol | 168 | | 493 | |
| Porthiant Anifeiliaid | 121 | | 88 | |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 203 | | 245 | |
| Amrywiol | 460 | | 504 | |
| | **22,140** | | **20,450** | |
| | | | | |
| **Gorfodi, Monitro ac Ymgyrchoedd** | | | | |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | | | | |
| Costau Staff | | 47,554 | | 44,841 |
| Gwariant Arall | 34,504 | | 36,375 | |
| Hylendid Cig | 180 | | (24) | |
| Diogelwch Cemegol | 223 | | 372 | |
| Diogelwch Radiolegol | 2,710 | | 2,481 | |
| Diogelwch Bwyd Micro | 6,420 | | 8,474 | |
| Pwyllgorau, y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 1,766 | | 2,643 | |
| Maeth | 2,037 | | 2,510 | |
| Bwyd Newydd a Gwenwyneg Diogelwch Cemegol | 233 | | 315 | |
| Difwynwyr Cemegol | 1,296 | | 1,476 | |
| Labeli a Safonau Bwyd | 588 | | 597 | |
| Porthiant Anifeiliaid | 171 | | 381 | |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 202 | | 333 | |
| Amrywiol | 1,875 | | 600 | |
| Cyfanswm costau'r rhaglen nad ydynt yn gostau staff | | 74,345 | | 76,983 |
| | | **121,899** | | 121,824 |
| | | | | |
| **Llai: Incwm y Rhaglen** | | | | |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | (34,230) | | (34,851) | |
| (Pencadlys) yr FSA | (2,362) | | (2,388) | |
| | | (36,592) | | (37,239) |
| | | **85,307** | | 84,585 |

Yn gynwysedig yng nghostau'r MHS a nodir uchod mae:
Ar gyfer 2003/04, ffi archwilio o £30,000 a dibrisiant o £421,000
Ar gyfer 2002/03, ffi archwilio o £30,000 a dibrisiant o £308,000

# 6 Dadansoddi incwm

| | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Mae incwm gweithredol, wedi ei ddadansoddi yn ôl dosbarthiad a gweithgaredd, fel a ganlyn:** | | | | |
| Caiff yr holl incwm gweithredol ei gynnwys o fewn gwariant cyhoeddus | | | | |
| **Incwm gweinyddol:** | | | | |
| O Adrannau'r Llywodraeth ac eraill | 132 | | 196 | |
| | | 132 | | 196 |
| **Incwm y rhaglen:** | | | | |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai – samplu | 32 | | 33 | |
| Archwiliadau Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,330 | | 2,355 | |
| | | 2,362 | | 2,388 |
| **Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig** | | **34,230** | | 34,851 |
| | | **36,724** | | **37,435** |

Mae'r dadansoddiad o'r incwm o wasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol a chwsmeriaid y sector cyhoeddus fel a ganlyn:

| | | | 2003/04 | | | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Cost Lawn | Gwarged/ (Diffyg) | Incwm | Cost Lawn | Gwarged/ (Diffyg) |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig | | | | | | |
| Diwydiant | 21,732 | 46,176 | (24,444) | 21,517 | 46,571 | (25,054) |
| Llywodraeth | 12,498 | 12,498 | 0 | 13,334 | 13,334 | 0 |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai – samplu ac archwiliadau | 32 | 65 | (33) | 33 | 111 | (78) |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,330 | 2,330 | (0) | 2,355 | 2,197 | 158 |
| | **36,592** | **61,069** | **(24,477)** | **37,239** | **62,213** | **(24,974)** |

Nid yw'r MHS yn adennill ei holl gostau oddi wrth ddiwydiant. Codir ffioedd archwilio ar safleoedd llai yn ôl nifer yr anifeiliaid a leddir ganddynt yn hytrach na chyfradd fesul awr.

# 7 Terfyn
## cost weinyddol

Mae'r alldro o fewn y drefn o reoli costau gweinyddol yn erbyn terfynau costau gweinyddol unigol fel a ganlyn:

| | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|
| | Alldro | Terfyn | Alldro | Terfyn |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cais am adnoddau 1 | 38,387 | 41,477 | 33,063 | 35,751 |
| | **38,387** | **41,477** | 33,063 | 35,751 |

# 8 Cysoni cost weithredol net ac alldro net yr adnoddau

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cost Weithredol Net | 123,607 | 120,036 |
| Incwm Gweithredol nas dosbarthwyd fel dyraniad cymorth | - | - |
| Gwasanaethau sefydlog Cyllido Cyfunol | - | |
| Alldro Net yr Adnoddau | **123,607** | 120,036 |

# 9 Dadansoddiad o'r gost weithredol net fesul corff gwario

| | 2003/04 | 2003/04 | 2002/03 | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Amcangyfrif | Alldro |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Corff Gwario: | | | | |
| Adran Graidd | 108,368 | 99,165 | 112,299 | 94,982 |
| MHS | 28,000 | 24,442 | 25,000 | 25,054 |
| **Cyfanswm** | **136,368** | **123,607** | 137,299 | 120,036 |

# 10 Dadansoddiad o Alldro Net yr Adnoddau fesul swyddogaeth â chysoniad â'r Datganiad Cost Weithredol

2003/04

| | Gweinyddol | Arall Cyfredol | Costau Cyfredol | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Amcangyfrif | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cais am Adnoddau 1 | | | | | | | |
| Swyddogaeth 1 Pencadlys yr FSA | 38,431 | 63,227 | - | (2,493) | 99,165 | 108,368 | 9,203 |
| Swyddogaeth 2 MHS | - | 82,058 | - | (57,616) | 24,442 | 28,000 | 3,558 |
| **Cyfanswm** | **38,431** | **145,285** | **-** | **(60,109)** | **123,607** | **136,368** | **12,761** |

2002/03

| | Gweinyddol | Arall Cyfredol | Costau Cyfredol | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Amcangyfrif | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cais am Adnoddau 1 | | | | | | | |
| Swyddogaeth 1 Pencadlys yr FSA | 35,647 | 61,919 | - | (2,584) | 94,982 | 112,299 | 17,317 |
| Swyddogaeth 2 MHS | - | 81,216 | - | (56,162) | 25,054 | 25,000 | (54) |
| **Cyfanswm** | 35,647 | 143,135 | - | (58,746) | 120,036 | 137,299 | 17,263 |

# 11 Dadansoddiad o wariant cyfalaf, buddsoddiad ariannol a'r dyraniad cymorth cysylltiedig

| | Gwariant Cyfalaf | Benthyciadau ac ati | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cais am Adnoddau 1 | 3,133 | - | (41) | 3,092 |
| **Cyfanswm 2003-04** | **3,133** | **-** | **(41)** | **3,092** |
| **Cyfanswm 2002-03** | **625** | **-** | **(52)** | **573** |

# 12 Asedau sefydlog anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd a brynwyd £000 |
|---|---|
| **Cost neu brisiad:** | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 551 |
| Ychwanegiadau | 756 |
| Ailbrisio a mynegeio | (77) |
| Lleihad mewn gwerth | - |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **1,230** |
| | |
| **Amorteiddio:** | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 263 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 136 |
| Ailbrisio a mynegeio | (45) |
| Lleihad mewn gwerth | - |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **354** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2004** | **876** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2003** | **288** |

# 13 Asedau sefydlog diriaethol

| | Gosodiadau a Ffitiadau £000 | Offer Swyddfa £000 | Offer a Meddalwedd Gyfrifiadurol £000 | Cerbydau Modur £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 6,683 | 318 | 1,509 | 371 | 8,881 |
| Ychwanegiadau | 19 | 80 | 2,181 | 97 | 2,377 |
| Ailbrisio a mynegeio | 138 | 24 | (247) | 34 | (51) |
| Gwarediadau | - | - | (432) | (87) | (519) |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **6,840** | **422** | **3,011** | **415** | **10,688** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 1,942 | 172 | 785 | 183 | 3,082 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 885 | 41 | 448 | 77 | 1,451 |
| Ailbrisio a mynegeio | 137 | 2 | (106) | 3 | 36 |
| Gwarediadau | - | - | (303) | (41) | (344) |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **2,964** | **215** | **824** | **222** | **4,225** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2004** | **3,876** | **207** | **2,187** | **193** | **6,463** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2003** | **4,741** | **146** | **724** | **188** | **5,799** |

Y gwahaniaeth sy'n codi rhwng prynu asedau sefydlog ac ychwanegiadau yw credydwyr cyfalaf a chroniadau.

# 14 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod

| | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr | 971 | (881) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (443) | (4,739) |
| | **528** | **(5,620)** |
| Addasiadau Trosiannol | – | (51) |
| | 528 | (5,671) |

# 15 Dyledwyr

| | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnach | 5,736 | 5,864 |
| Yn ddyledus gan adrannau eraill y llywodraeth | 304 | 748 |
| TAW y gellir ei hadennill | 2,281 | 2,201 |
| Dyledwyr eraill | 381 | 996 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,802 | 1,634 |
| | **12,504** | 11,443 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill | 148 | 238 |
| | **12,652** | **11,681** |

# 16 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 5,143 | 7,656 |
| Newidiadau net mewn balansau arian parod | (1,671) | (2,513) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **3,472** | 5,143 |
| **Delir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:** | | |
| Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM | 9,571 | 2,880 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | (6,099) | 2,263 |
| | **3,472** | 5,143 |
| **Mae'r balans ar 31 Mawrth yn cynnwys:** | | |
| Arian parod sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol: | | |
| **Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn** | 3,472 | 5,143 |

# 17 Credydwyr

| | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Credydwyr masnach | 8,270 | 9,176 |
| Credydwyr eraill | 2,723 | 2,722 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 11,952 | 10,311 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn | 3,472 | 5,143 |
| | **26,417** | 27,352 |
| | | |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau hirdymor (rhent) | 4,105 | 4,398 |
| | **30,522** | 31,750 |

# 18 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Costau ymadael yn gynnar £000 | Darpariaeth Pensiwn £000 | Hawliadau Cyfreithiol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2003 | 329 | - | - | 329 |
| Yn codi yn ystod y flwyddyn | 965 | 170 | 44 | 1,179 |
| A ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (364) | - | - | (364) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2004** | **930** | **170** | **44** | **1,144** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2003** | **329** | **-** | **-** | **329** |

Mae darpariaeth ymadael yn gynnar a darpariaethau pensiwn yn cyfeirio at rwymedigaethau i staff ar gyfer ymddeol yn gynnar. Mae'r FSA yn talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPC mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau sy'n ofynnol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng ymadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r FSA yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar yn gyfrwymol ar yr adran drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau amcangyfrifedig a ddisgowntiwyd gan gyfradd ddisgowntio'r Trysorlys o 3.5% mewn termau real. Mewn blynyddoedd blaenorol talodd yr FSA ymlaen llaw am beth o'i rhwymedigaeth ar gyfer ymddeoliad cynnar drwy wneud taliad i Gyfrif y Tâl-feistr Cyffredinol ym Manc Lloegr ar gyfer credyd Pleidlais Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff y balans sy'n weddill ei drin fel rhagdaliad.

Mae'r ddarpariaeth pensiwn yn gysylltiedig â'r cynllun pensiwn drwy gydweddiad sy'n berthnasol i rai aelodau o fwrdd yr FSA.

# 19 Cysoni cost weithredol net â newidiadau yn y gronfa gyffredinol

| | 2003/04 | | 2002/03 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn (atodlen 2) | (123,607) | | (120,036) | |
| Incwm heb ddyraniad cymorth i'r Gronfa Gyfunol | - | | - | |
| | | (123,607) | | (120,036) |
| Arian Seneddol | | 128,008 | | 118,704 |
| Credydwr y gronfa gyfunol ar gyfer arian parod nas gwariwyd | | (3,472) | | (5,143) |
| **Taliadau anariannol:** | | | | |
| Cost cyfalaf | (95) | | (197) | |
| Rhent a Gwasanaethau Rheoli | - | | 8 | |
| Ffioedd archwilio | 100 | | 100 | |
| | | 5 | | (89) |
| Credydwyr Datganoledig | | 55 | | - |
| **Gostyngiad net yn y gronfa gyffredinol** | | **989** | | **(6,564)** |
| Y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill | | (9,737) | | (3,173) |
| **Y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth (Atodlen 3)** | | **(8,748)** | | **(9,737)** |

Y Gronfa Gyffredinol yw'r asedau net a gyflwynwyd i'r FSA ar 1 Ebrill 2000 (a ddatganwyd ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ar y dyddiad hwnnw), y gwarged neu'r diffyg a gynhyrchwyd o daliadau tybiannol a gweithgareddau masnachu, a chyllid y Bleidlais sy'n codi ers y dyddiad hwnnw.

Mae'r 'taliadau anariannol' uchod yn cynnwys balansau'r MHS a godwyd yn erbyn Costau'r Rhaglen yn ogystal â'r Taliadau Cost Weinyddol a ddatgelwyd yn Nodyn 4.

# 20 Cronfeydd wrth gefn

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 569 | 62 |
| Yn codi wrth ailbrisio yn ystod y flwyddyn (net) | (24) | 500 |
| Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol mewn perthynas ag elfen y gronfa ailbrisio wrth gefn a wireddwyd | 0 | 7 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **545** | 569 |

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu elfen y balans cronnol nas gwireddwyd o addasiadau mynegeio ac ailbrisio.

# 21 Nodiadau i atodlen 5

Dyrannwyd grantiau a gwariant cyfredol arall fel a ganlyn:

| | 2003/04<br>£000 | 2002/03<br>£000 |
|---|---|---|
| Nod 1<br>Cynyddu hyder defnyddwyr yn y system reoliadol genedlaethol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd ac yn hygrededd yr FSA | 4,782 | |
| Nod 2<br>Gwell diogelwch a safonau bwyd | 67,618 | |
| Nod 3<br>Gwella dewis a deiet defnyddwyr | 12,907 | |
| | **85,307** | |
| Nod 1<br>Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | | 11,071 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004-05 | | 21,542 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | | 51,972 |
| | | **84,585** |

# 22 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2003/04<br>£000 | 2002/03<br>£000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2004 na wnaed darpariaeth ar eu cyfer | 44 | 0 |

# 23 Ymrwymiadau o dan brydlesau

**Prydlesau gweithredol**

Nodir yr ymrwymiadau a wnaethpwyd o dan brydlesau gweithredol i dalu rhent yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod. Cânt eu dadansoddi yn ôl y cyfnod pryd y daw'r brydles i ben.

| | 2003/04 | 2002/03 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Mae'r ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol yn cynnwys: | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | - | - |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond nid mwy na 5 mlynedd | - | - |
| Dod i ben ar ôl hynny | 4,805 | 4,334 |
| | **4,805** | **4,334** |
| Arall: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 87 | - |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond nid mwy na 5 mlynedd | 14 | 126 |
| Dod i ben ar ôl hynny | 82 | 84 |
| | **183** | **210** |

# 24 Ymrwymiadau eraill

Mae'r FSA wedi gwneud ymrwymiadau (nad ydynt yn brydlesau gweithredol) ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu amrywiol gwerth £52,226,835 hyd at 31 Mawrth 2008.

# 25 Rhwymedigaethau Amodol

i) Mae hawliadau amrywiol am iawndal gwerth £201,000 yn cael eu gwneud yn erbyn yr FSA. Caiff yr achosion hyn eu hamddiffyn ac nid yw'r FSA o'r farn y bydd angen talu mwy na £76,000 i fodloni'r hawliadau hyn. Gwnaed darpariaeth o £44,000 yn y cyfrifon.

ii) Gwneir nifer o hawliadau bach gan weithwyr safleoedd a chyflogeion yr MHS am anafiadau yn y gweithle ac am ddiswyddiad annheg. Caiff yr achosion hyn eu hamddiffyn a hyd yma nid yw'r canlyniad yn hysbys ond gallent gostio tua £157,000. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y cyfrifon eleni. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

## 26 Trafodion Partïon Cysylltiedig

Soniodd yr aelod canlynol o'r Bwrdd am y trafodion partïon cysylltiedig:

Mae Michael Walker wedi datgelu fod practis, y mae ef yn bartner ynddo, wedi cynnal gwaith ymchwil dadansoddol ar ran yr FSA, sy'n werth tua £300.

Yn ogystal, cafodd yr FSA nifer o drafodion gydag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff eraill sy'n rhan o Lywodraeth ganolog.

## 27 Offerynnau Ariannol

Nid oes gan yr FSA unrhyw fenthyciadau net ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar grantiau adrannol am ei gofynion ariannol, ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddi adneuon sylweddol ychwaith, a mynegir pob ased a rhwymedigaeth berthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg y gyfradd llog na risg arian cyfred.

## 28 Colledion a Thaliadau Arbennig

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth yr FSA golledion neu daliadau arbennig mewn 2 achos gyda chyfanswm gwariant o £61,000. Arweiniodd un o'r achosion at dalu iawndal i safle prosesu a thalu iawndal nominal i aelod o'r staff. Yn ogystal, gwnaeth y Gwasanaeth Hylendid Cig 28 o daliadau arbennig gwerth £29,000 ar gyfer iawndal i staff a hawliadau am anafiadau personol.

## 29 Alldro gwirioneddol – adnoddau ac arian parod

Cais am adnoddau: Swm gwirioneddol alldro adnoddau net £123,607,602.11

Swm gwirioneddol yr arbedion mewn adnoddau dros yr Amcangyfrif £12,760,397.89.

Gofyniad arian parod net: Gofyniad alldro net £124,539,198.25

sy'n £11,721,801.75 yn llai na'r Amcangyfrif.

# CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS YN UNOL AG ADRAN 5(2) DEDDF ADNODDAU A CHYFRIFON Y LLYWODRAETH 2000

1. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gymwys i'r adrannau hynny o'r Llywodraeth a'r cynlluniau pensiwn a restrir yn yr atodiad atodedig.

2. Bydd yr adrannau a'r cynlluniau pensiwn hyn yn paratoi cyfrifon adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu y rhifyn o'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ("Y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau") sydd mewn grym ar gyfer 2003-04.

3. Bydd y cyfrifon ar gyfer **adrannau'r Llywodraeth** yn cael eu paratoi er mwyn:

   (a) rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2004 ac alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

   (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

4. Bydd y cyfrifon ar gyfer cynlluniau pensiwn yn cael eu paratoi er mwyn:

   (a) rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2004 ac alldro net yr adnoddau a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

   (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

5. Bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn angenrheidiol, ym mhob achos heblaw amgylchiadau eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon roi darlun cywir a theg. Os, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn anghyson â'r gofynion i roi darlun cywir a theg, dylid gwyro oddi wrth ofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun cywir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid arddel barn hyddysg a diduedd i lunio triniaeth amgen briodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau. Dylid trafod unrhyw wyro perthnasol oddi wrth y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn y lle cyntaf gyda'r Trysorlys.

David Loweth
Pennaeth y Tîm Cyfrifyddu Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi
30 Ionawr 2004

Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa Cyf
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
03/04, 165366